Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn dangos newidiadau ers y fersiwn ddiwethaf

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

# Canllawiau Statudol

For service providers and responsible individuals on meeting service standard regulations for:

- Gwasanaethau cartrefi gofal
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

Mae'r canllawiau statudol hyn yn ymwneud â Rhannau 3 i 20 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd

Fersiwn 3 – Mawrth 2024
~~Fersiwn 2 – Ebrill 2019~~

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 ~~2023~~, Llywodraeth Cymru, WG49456 ~~WG47434~~, Digital ISBN digidol ~~978-1-80535-937-1~~ 978-1-83577-867-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Y canllawiau hyn** | | 1 |
| **Rhestr o'r prif dermau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn** | | 4 |
| **Dolenni defnyddiol** | | 7 |
| **Pennod 1: Gofynion ar Ddarparwyr Gwasanaethau** | | |
| 1.1 | Y gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau | 10 |
| 1.2 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth | 22 |
| 1.3 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth | 26 |
| 1.4 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran yr wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth | 32 |
| 1.5 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu | 36 |
| 1.6 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau - diogelu | 49 |
| 1.7 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau nad ydynt ond yn gymwys pan ddarperir llety | 59 |
| 1.8 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio | 61 |
| 1.9 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran gwasanaethau cymorth cartref | 74 |
| 1.10 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar | 79 |
| 1.11 | Gofynion ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau o ran mangreoedd – llety newydd | 90 |
| 1.12 | Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran cyflenwadau, hylendid, iechyd a diogelwch a meddyginiaethau | 97 |
| 1.13 | Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau | 102 |
| **Pennod 2: Gofynion ar Unigolion Cyfrifol** | | |
| 2.1 | Gofynion ar unigolion cyfrifol o ran sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol | 115 |
| 2.2 | Gofynion ar unigolion cyfrifol o ran sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol | 122 |
| 2.3 | Gofynion ar unigolion cyfrifol o ran sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth | 125 |
| 2.4 | Gofynion ar unigolion cyfrifol o ran monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth rheoleiddiedig | 127 |
| 2.5 | Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol | 129 |
| **Atodiad A: Rhannau o'r Rheoliadau nad ydynt yn destun y Canllawiau hyn** | | 131 |
| **Atodiad B: Atodlenni i Reoliadau 35, 59, 60 ac 84** | | 139 |

## Y canllawiau hyn

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 29 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('y Ddeddf'). Maent yn gymwys o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Mae'r Ddeddf, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau") a'r canllawiau statudol hyn yn disodli gofynion a roddwyd ar waith yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal (2000) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi:

- sut y gall darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig gydymffurfio â'r gofynion a orfodir drwy'r rheoliadau o dan adran 27 o'r Ddeddf
- sut y gall y rhai a ddynodir yn unigolyn cyfrifol am wasanaeth rheoleiddiedig gydymffurfio â'r gofynion a orfodir drwy'r rheoliadau o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn Rhannau 3 i 20 ~~o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ('y Rheoliadau').~~o'r Rheoliadau. Daeth y Rheoliadau i rym ar 2 Ebrill 2018 a daeth y canllawiau hyn i rym ar yr un pryd. Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u diwygio gan *Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol (Cymru) (Diwygio) 2019* ("y Rheoliadau Diwygio") a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019.

Mae Adran 29(3) o'r Ddeddf yn nodi ei bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol dynodedig **roi sylw i'r canllawiau hyn** wrth fodloni'r gofynion a orfodir drwy reoliadau o dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf.

Gydag eithriadau penodol, a restrir yn Rhan 2 o'r Rheoliadau (gweler Atodiad A), mae'r canllawiau hyn yn benodol ar gyfer darparwyr y gwasanaethau rheoleiddiedig canlynol, sy'n gweithredu yng Nghymru:

- gwasanaethau cartrefi gofal
- gwasanaethau llety diogel
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau cymorth cartref

Mae'n berthnasol hefyd i'r unigolion hynny sydd wedi'u dynodi'n unigolion cyfrifol o dan y Ddeddf.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol hefyd i'r darparwyr sy'n gwneud cais i gael cofrestru i fod yn ddarparwr gwasanaeth yn unol ag adran 6 o'r Ddeddf. Mae canllawiau am gofrestru wedi cael eu llunio gan y rheoleiddiwr gwasanaethau, Arolygiaeth Gofal Cymru, ac maent ar gael ar eu gwefan (gweler y Dolenni Defnyddiol).

Mae'r canllawiau statudol hyn wedi'u llunio i gynnwys y gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal a chymorth i unigolion o wahanol oedran ac sydd â gwahanol ddyheadau ac anghenion. Maent yn fanwl~~ yn~~, a hynny'n rhannol er mwyn sicrhau bod unigolion~~, yn enwedig y rheini sy'n gorfforol fregus neu'n agored i niwed,~~ yn cael y gofal a'r cymorth iawn i hybu eu llesiant a'u diogelwch.

## Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

### Darpar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol

Rhaid i'r sawl sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC') sy'n rheoleiddio gwasanaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Rhaid i ddarpar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ddangos y byddant yn gallu bodloni'r gofynion a orfodir drwy'r Ddeddf a'r Rheoliadau ac, ar ôl iddynt gofrestru, y byddant yn dal i'w bodloni.

Er mwyn iddi ganiatáu cais i gofrestru, rhaid i AGC fod yn fodlon y bydd unrhyw ddarpar ddarparwr gwasanaeth rheoleiddiedig yn gallu ac y bydd yn bodloni'r safonau darparu gwasanaethau a bennir yn y rheoliadau o dan adran 27 o'r Ddeddf. Rhaid i AGC fod yn fodlon hefyd bod y sawl a ddynodir yn unigolyn cyfrifol yn gallu ac y bydd yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a restrir yn y rheoliadau o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Bydd AGC yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio'i phenderfyniadau i ganiatáu neu i wrthod ceisiadau i gofrestru'n ddarparwr gwasanaeth.

### Darparwyr gwasanaethau cofrestredig ac unigolion cyfrifol dynodedig

Rhaid i ddarparwyr cofrestredig gwasanaethau rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol dynodedig fodloni gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau. Wrth wneud hynny, **rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau statudol hyn** y bwriedir iddynt eu helpu i ddeall sut y gallant fodloni'r gofynion perthnasol yn y Rheoliadau. Bydd AGC yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio penderfyniadau ynglŷn ag i ba raddau y mae darparwyr cofrestredig yn bodloni'r gofynion hynny, ac wrth benderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi.

Darparwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol o hyd am benderfynu sut y bodlonir y gofynion gan gadw mewn cof anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth rheoleiddiedig.

**Os na fydd darparwyr gwasanaethau cofrestredig a'r unigolion cyfrifol dynodedig yn dilyn y canllawiau hyn,** rhaid iddynt roi tystiolaeth i ddangos bod eu ffordd o weithio'n eu galluogi i fodloni'r gofynion perthnasol yn y Rheoliadau.

## Strwythur y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Crynodeb o fwriad pob Rhan o'r Rheoliadau**

Mae Rhannau 3 i 15 o'r Rheoliadau, a wneir o dan adran 27 o'r Ddeddf, yn rhestru'r hyn sy'n ofynnol gan ddarparwyr gwasanaethau gyda golwg ar safon y gwasanaeth y mae'n

rhaid ei ddarparu. Maent yn sôn am bwysigrwydd llesiant unigolion sy'n cael gofal a chymorth[1]. Maent hefyd yn gorfodi gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth rheoleiddiedig.

Mae Rhannau 16 i 20 o'r Rheoliadau, a wneir o dan adran 28 o'r Ddeddf, yn rhestru'r dyletswyddau a fydd gan yr unigolyn cyfrifol dynodedig gyda golwg ar wasanaeth rheoleiddiedig. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys gofyniad i oruchwylio sut y caiff y gwasanaeth ei reoli gan gynnwys penodi rheolwr priodol ac addas. Y bwriad yw sicrhau bod unigolyn dynodedig ar lefel briodol o uchel yn atebol am ansawdd a ~~chydymffurfiaeth~~ chydymffurfedd y gwasanaeth, a sicrhau bod cadwyn glir o atebolrwydd yn cysylltu cyfrifoldeb corfforaethol y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol sy'n cyflawni rôl rheolwr y gwasanaeth rheoleiddiedig.

- **Testun pob rheoliad**

Mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn cyfeirio at destun pob rheoliad fel y ffynhonnell wybodaeth gyntaf am y gofynion a sut y mae eu bodloni. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio rhagor am sut y mae bodloni elfennau unigol pob rheoliad lle y gallai rhagor o eglurhad a diffinio fod yn ddefnyddiol. Lle bydd testun y rheoliad yn hunanesboniadol, ni roddir rhagor o ganllawiau.

- **Canllawiau am ofynion elfennau unigol o'r rheoliad**

Ni ddylid ystyried bod y canllawiau am elfennau unigol pob rheoliad yn cynnwys pob sefyllfa oherwydd efallai y bydd modd i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ddangos eu bod yn bodloni pob elfen o'r rheoliad mewn ffyrdd eraill.

Mae Atodiad A yn nodi rhannau o'r Rheoliadau nad ydynt yn destun y canllawiau hyn, gan nad ydynt wedi'u llunio o dan adran 27 neu 28 o'r Ddeddf. Mae Atodiad B yn cynnwys yr Atodlenni i reoliadau 35, 59, 60 a 84. Mae'r atodiadau hyn wedi'u cynnwys at ddibenion cyfeirio yn unig.

## Gorfodi

Mae Rhannau 3 i 20 o'r Rheoliadau'n rhestru'r gofynion clir y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig ac unigolion cyfrifol lynu wrthynt. Gall AGC, fel y rheoleiddiwr gwasanaethau, gymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw ddarparwr gwasanaeth cofrestredig ac unigolyn cyfrifol nad yw'n glynu wrth y gofynion cyfreithiol hyn.

Bydd unrhyw gamau gorfodi a wneir gan AGC yn gymesur, a byddant yn edrych ar yr effaith ar unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth rheoleiddiedig neu'r risg i'r unigolion hynny.

Dyma rai enghreifftiau o'r camau gorfodi:

- gosod amodau ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth;
- canslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth;

1 Mae'r safonau hyn yn gysylltiedig â'r datganiad llesiant sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth https://www.llyw.cymru/datganiad-llesiant-ar-gyfer-pobl-sydd-angen-gofal-gofalwyr

- rhoi hysbysiad gwella;
- rhoi hysbysiad cosb benodedig.

Mae rhagor o wybodaeth am y troseddau y gall darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol eu cyflawni os nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau hyn, a'r gwahanol gamau gorfodi statudol ac anstatudol y gall AGC eu gymryd wrth ymateb, ar gael yn nghanllawiau Gorfodi a Sicrhau Gwelliant gan AGC. Mae hwn ar gael ar wefan AGC.

## Rhestr o'r prif dermau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Y Ddeddf | Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| Deddf 2014 | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| Cynllun gofal a chymorth | Cynllun a roddir ar waith gan yr awdurdod lleol o dan adran 54 (mewn perthynas ag oedolion, plant neu ofalwr) neu adran 83 (mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf 2014 |
| Canlyniadau personol | • Mewn perthynas ag oedolyn, mae'n golygu'r canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno'u cyflawni yn ei fywyd o ddydd i ddydd;<br>• Mewn perthynas â phlentyn, mae'n golygu-<br>i. y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno'u cyflawni; neu<br>ii. y canlyniadau y mae unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant yn dymuno'u cyflawni mewn cysylltiad â'r plentyn |
| Cynllun personol | Y cynllun y mae'n ofynnol ei baratoi'n unol â rheoliad 15 |
| Asesiad darparwr | Yr asesiad y mae gofyn i'r darparwr gwasanaeth ei gwblhau'n unol â rheoliad 18. |
| Nyrsys cofrestredig | Unrhyw nyrs gofrestredig ar Ran 1 cofrestr broffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac o unrhyw un o'r pedwar maes ymarfer cydnabyddedig (cymwyseddau): oedolion, iechyd meddwl, anabledd dysgu a phlant. Yn ogystal â'u cofrestru ar y cychwyn, dylai fod y nyrs gofrestredig wedi datblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n eu gwneud yn gymwys i ofalu am unigolion. |
| Cynrychiolydd | Unrhyw un sydd â'r awdurdod cyfreithiol, neu gydsyniad yr unigolyn i weithredu ar ran yr unigolyn |
| Unigolyn cyfrifol<br>*(Gweler disgrifiad llawn yn adran 21 o'r Ddeddf)* | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol **fod yn un o'r canlynol**:<br>• os darperir y gwasanaeth gan unigolyn, darparwr y gwasanaeth;<br>• os darperir y gwasanaeth gan bartneriaeth, un o'r partneriaid;<br>• os darperir y gwasanaeth gan gorff corfforedig nad yw'n awdurdod lleol |

| | |
|---|---|
| | ○ un o'r cyfarwyddwr neu swyddog tebyg arall yn y corff;<br>○ os darperir y gwasanaeth gan gwmni cyfyngedig cyhoeddus, un o gyfarwyddwyr neu ysgrifennydd y cwmni;<br>○ os darperir y gwasanaeth gan gorff corfforedig y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, un o aelodau'r corff;<br>• os darperir y gwasanaeth gan gorff anghorfforedig, un o aelodau'r corff;<br>• os darperir y gwasanaeth gan awdurdod lleol, un o swyddogion yr awdurdod lleol a ddynodir gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod;<br><br>**ac** y mae AGC yn fodlon ei fod yn ~~unigolyn~~ berson addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol;<br><br>**a'i** fod wedi'i ddynodi gan ddarparwr gwasanaeth ar gyfer man y mae'r darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;<br><br>**a**'i fod wedi'i bennu felly yng nghofrestriad y darparwr gwasanaeth<br><br>**D.S.** O dan amgylchiadau penodol (gweler Rheoliad 89, sydd heb ei gynnwys yn y canllawiau hyn) caiff AGC ddynodi'r unigolyn cyfrifol (ar ran Gweinidogion Cymru) yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth. |
| Comisiynydd gwasanaethau | Yr awdurdod lleol neu gorff y GIG sy'n gyfrifol am drefnu gyda'r darparwr bod yr unigolyn yn cael gofal a chymorth. |
| Darparwr gwasanaeth (neu'r darparwr) | Person neu sefydliad sydd wedi'i gofrestru gydag AGC i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig. |
| Staff | • Pobl a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth i weithio yn y gwasanaeth fel gweithiwr cyflogedig neu weithiwr (yn unol â'r ystyr yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996);<br>• Pobl a gymerir ymlaen gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract ar gyfer gwasanaethau;<br>• **Nid yw hyn** yn cynnwys pobl y caniateir iddynt weithio fel gwirfoddolwyr. |
| Yr unigolyn | Oni fydd y cyd-destun yn dweud yn wahanol, y plentyn neu'r oedolyn sy'n cael gofal a chymorth |
| Anghenion yr unigolyn | Anghenion gofal a chymorth ~~yr unigolyn~~y person. |
| Y Rheoliadau | Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd |
| Y Gwasanaeth | Y gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth mewn man, o fan neu mewn cysylltiad â man a bennir yn un o amodau cofrestriad y darparwr gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety | Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel. |
| Gwasanaethau yn y gymuned | Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cymorth cartref. |
| Rheoleiddiwr gwasanaethau | Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoleiddio. |
| Datganiad o ddiben | Y datganiad o ddiben ar gyfer y man y darperir y gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn cysylltiad ag ef. |
| GCC | Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu. |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | Mae'n gyfrifol am:<br>• ddarparu mynediad at wybodaeth am gofnodion troseddol drwy ei wasanaeth datgelu;<br>• cynnal rhestrau o unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio mewn gweithgarwch rheoleiddiedig gyda phlant neu oedolion agored i niwed;<br>• gwneud penderfyniadau annibynnol am wahardd pobl sydd wedi niweidio plentyn neu unigolyn agored i niwed, neu bobl yr ystyrir eu bod yn risg i blentyn neu unigolyn agored i niwed yn y gweithle. |

## Dolenni defnyddiol

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017**
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/made/welsh

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh

**Llywodraeth Cymru: Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd angen Cymorth**
https://www.llyw.cymru/datganiad-llesiant-ar-gyfer-pobl-sydd-angen-gofal-gofalwyr

**Arolygiaeth Gofal Cymru**
http://careinspectorate.wales/?skip=1&lang=cy

**Arolygiaeth Gofal Cymru: Cofrestru**
https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofrestrwch-i-ddarparu-gwasanaeth

~~**Arolygiaeth Gofal Cymru: Canllawiau Ailgofrestru ar gyfer Darparwyr**~~
~~http://careinspectorate.wales/docs/cssiw/general/171207reregistrationguidcy.pdf~~

**Arolygiaeth Gofal Cymru: Llunio Datganiad o Ddiben**
https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-03/180115statementofpurposeguidecy.pdf

**Arolygiaeth Gofal Cymru: Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi**
https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-06/180601-polisi-ar-sicrhau-gwelliant-a-gorfodi-cy.pdf

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
Hafan - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Comisynydd Plant Cymru**
Hafan - Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/

**Gofal Cymdeithasol Cymru: Hyb Gwybodaeth a Dysgu**
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru**
https://diogelu.cymru/cy/

**Arolygiaeth Gofal Cymru: gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd**
https://www.arolygiaethgofal.cymru/archwiliadau-gan-y-gwasanaeth-datgelu-gwahardd

**Y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd**
https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

**Y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd: Canllawiau ar y ddyletswydd i atgyfeirio ar gyfer gwaharddiadau**
https://www.gov.uk/guidance/barring-referrals

**Y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd: taflenni canllawiau**
https://www.gov.uk/government/publications/dbs-guidance-leaflets

# Pennod 1: Gofynion ar Ddarparwyr Gwasanaethau (Rhannau 3 i 15 o'r Rheoliadau)

## 1.1 Y gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau (Rhan 3)

Bwriad y gofynion cyffredinol yn Rhan 3 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus ac i sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- gosod bwriad a chyfeiriad trefniadaethol clir drwy restru yn y datganiad o ddiben y gwasanaethau a ddarperir a'r camau y bydd y darparwr gwasanaeth yn ymgymryd â hwy i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu i'r safonau sy'n ofynnol.
- rhoi ar waith y polisïau a'r gweithdrefnau gwaelodol i helpu rheolwyr a staff i gyflawni nodau'r gwasanaeth a chefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol.
- creu strwythurau rheoli cadarn i oruchwylio a monitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol i'r unigolion sy'n cael gofal a chymorth.
- sefydlu trefniadau clir ar gyfer cylch parhaus o sicrhau ac adolygu ansawdd er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â gofynion cyfreithiol a'i ddatganiad o ddiben a'i fod yn helpu unigolion yn briodol. Bydd yr wybodaeth a geir drwy fonitro'n cael ei defnyddio ar gyfer datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus.
- parhau i oruchwylio'r trefniadau ariannol a'r buddsoddi yn y busnes er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol fel bod yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol a'u bod yn cael eu gwarchod rhag y perygl o ddileu neu newid gwasanaethau a ddarperir heb i hynny gael ei gynllunio, yn sgil pwysau ariannol.
- hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, yn ddidwyll ac yn onest ar bob lefel.

| Rheoliad 6 | Canllawiau |
| --- | --- |
| **Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth**<br><br>**6**. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. | • Mae gan y darparwyr gwasanaethau drefniadau clir i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth er mwyn sefydlu, datblygu a gwreiddio diwylliant cadarnhaol a thosturiol sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau hyn. |

| | |
|---|---|
| | • Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>    ○ gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau arweinwyr a staff gofal sy'n galluogi unigolion i fyw bywydau hyderus lle maent yn cael eu cynnwys a'u grymuso.<br>    ○ dull sy'n seiliedig ar hawliau lle mae hawliau'r unigolyn, gan gynnwys ei hawliau dynol, yn cael eu cynnal;<br>    ○ polisïau a gweithdrefnau i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i roi pobl yng nghanol y gwasanaeth;<br>    ○ systemau i asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu sy'n cefnogi ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn galluogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;<br>    ○ prosesau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd gyson a dibynadwy;<br>    ○ trefniadau staffio diogel, wedi'u hategu gan ddatblygiad proffesiynol, i fodloni anghenion gofal a chymorth unigolion;<br>    ○ systemau ansawdd ac archwilio i adolygu cynnydd a llywio datblygiad y gwasanaeth;<br>    ○ ymagwedd ragweithiol at gyfle cyfartal ac amrywiaeth;<br>    ○ mangre, cyfleusterau a chyfarpar addas a hygyrch. |

| Rheoliad 7 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben**<br>**7.** —(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a<br>b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben. | • Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i'r gwasanaeth. Dylai:<br>    ○ ddisgrifio'n gywir y gwasanaethau a ddarperir;<br>    ○ dweud ymhle a sut y darperir y gwasanaethau hyn;<br>    ○ nodi'r trefniadau i gefnogi sut y caiff y gwasanaethau eu darparu. |

| | |
|---|---|
| (3) Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad sydd i gael ei wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.<br>(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'n angenrheidiol diwygio'r datganiad o ddiben gydag effaith ar unwaith.<br>(5) Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth, yn ddi-oed, hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad a wneir i'r datganiad o ddiben.<br>(6) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) neu (5) yw—<br>a) y rheoleiddiwr gwasanaethau,<br>b) yr unigolion,<br>c) yr awdurdod lleoli (pan fo'n berthnasol), a<br>d) unrhyw gynrychiolydd, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant yr unigolyn.<br>(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant unigolyn. | • ~~Rhaid iddo gynnwys~~Mae'n cynnwys yr wybodaeth ~~sydd~~ a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd[2].<br>•<br>• Wrth baratoi datganiad o ddiben, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried unrhyw ganllawiau ynghylch datganiad o ddiben a ddarperir gan y rheoleiddiwr gwasanaethau.<br>• Ar gyfer gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety, darperir datganiad o ddiben ar gyfer pob man/lleoliad lle darperir gwasanaeth.<br>• Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref, bydd datganiad o ddiben yn cael ei ddarparu ar gyfer pob man y darperir gwasanaethau ynddo, ohono neu mewn cysylltiad ag ef.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau yn adolygu ac yn diweddaru'r datganiad o ddiben bob blwyddyn, o leiaf, neu pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth a ddarperir.<br>• Os bwriedir newid y gwasanaeth a ddarperir, bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newid hwnnw. Bydd y darparwr yn rhoi gwybod i'r unigolion hynny a nodir yn rheoliad 7(6) o leiaf 28 diwrnod cyn gwneud y newidiadau. Dyma ambell enghraifft o hyn:<br>○ os bydd gwasanaeth nad yw'n darparu gofal nyrsio'n bwriadu darparu gofal nyrsio;<br>○ os darperir gwasanaethau arbenigol ychwanegol;<br>○ os bwriedir rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth penodol y cyfeirir ato yn y datganiad o ddiben; neu |

2 O.S. 2017/ 1098 (Cy.278) https://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1098/pdfs/wsi_20171098_mi.pdf

<table>
<tr><td></td><td>
<ul><li style="list-style:none"><ul><li>newidiadau i’r trefniadau staffio neu’r lefelau staffio arferol ~~neu lefelau~~ fel ~~sydd wedi'i nodi~~y’u nodwyd yn y datganiad o ddiben sy’n bodoli’n barod.</li></ul></li></ul>
<ul>
<li>Os bydd bwriad i newid y gwasanaeth sy’n cael ei ddarparu a hynny ar unwaith, h.y. o fewn y cyfnod hysbysu o 28 diwrnod (fel sy’n ofynnol o dan reoliad 7(3)), er enghraifft mewn ymateb i gais brys, rhaid i’r darparwr:
<ul>
<li>Hysbysu’r rheoleiddiwr gwasanaethau ar unwaith (a lle y bo’n ymarferol, cyn gwneud y newid);</li>
<li>diweddaru’r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu’r newid a hynny’n ddi-oed, a darparu copi i’r rheoleiddiwr gwasanaethau.</li>
</ul></li>
<li>Os cynigir newid yn y datganiad o ddiben, bydd y darparwr gwasanaeth yn bodloni’r rheoleiddiwr gwasanaethau ei fod yn gallu darparu'r gwasanaethau a gynigir drwy, er enghraifft, roi rhagor o wybodaeth neu drefnu ymweliad gan y rheoleiddiwr â'r gwasanaeth (lle y bo hynny’n briodol).</li>
<li>Os caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddaru, cedwir cofnod o'r fersiwn a'r dyddiad diwygio.</li>
<li>Bydd copi o'r datganiad o ddiben ar gael yn rhwydd i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, i'r staff ac i unrhyw gynrychiolydd a fydd o bosibl yn gofyn amdano.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Rheoliad 8</th><th>Canllawiau</th></tr>
<tr><td></td><td>
<ul><li>Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth. Bydd hyn yn cynnwys nodi:</li></ul>
</td></tr>
</table>

**Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella**

**8.**—(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.

(2) Rhaid i’r trefniadau hynny gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—

a) unigolion,

b) unrhyw gynrychiolwyr, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai’n anghyson â llesiant yr unigolyn,

c) yn achos unigolyn sy’n blentyn y darperir llety iddo fel rhan o wasanaeth cartref gofal, yr awdurdod lleoli,

d) comisiynwyr gwasanaethau, ac

e) staff,

ar ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth a sut y gellir gwella hyn.

(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth, rhaid i’r darparwr gwasanaeth—

a) ystyried safbwyntiau’r personau hynny yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2), a

b) rhoi sylw i’r adroddiad ar ansawdd gofal a lunnir gan yr unigolyn cyfrifol yn unol â rheoliad 80(4).

  - pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud;
  - sut y bydd hyn yn cael ei wneud;
  - pa mor aml mae hyn yn digwydd;
  - trefniadau er mwyn i’r unigolyn cyfrifol adrodd wrth y rheoleiddiwr gwasanaethau.

- Bydd canlyniad unrhyw adolygiad yn cael ei ddadansoddi a'i adolygu gan bobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddeall ei arwyddocâd ac i gymryd camau i sicrhau bod pethau'n gwella. Bydd darparwyr gwasanaethau'n ceisio cyngor proffesiynol/arbenigol yn ôl yr angen ac yn brydlon i helpu i sicrhau gwelliannau.

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n gallu dangos sut y maent:
  - wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac ymateb iddi;
  - wedi defnyddio'r wybodaeth i wella pethau.

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n monitro'r cynnydd o'i gymharu â chynlluniau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn cymryd camau priodol ar unwaith oni lwyddir i sicrhau'r cynnydd disgwyliedig.

- Bydd y systemau a'r prosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn galluogi'r darparwr gwasanaeth i weld ymhle y mae neu y gallai rhywbeth amharu ar ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau ac i alluogi ymateb prydlon priodol.

- Fel rhan o'r broses adolygu ansawdd, bydd darparwyr gwasanaethau:
  - yn annog adborth;
  - yn ceisio barn y bobl berthnasol a restrir yn rheoliad 8(2) yn rheolaidd am ansawdd y gofal a'r cymorth;

| | |
|---|---|
| | ○ yn gallu dangos eu bod wedi gwneud hyn a rhoi dadansoddiad o'r adborth y maent wedi'i gael.<br><br>• Bydd y dulliau a ddefnyddir i gysylltu â'r rhai a restrir yn rheoliad 8(2) ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried eu cyflwr penodol a/neu unrhyw amhariad o ran cyfathrebu. Mae cyfranogiad gan blant yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.<br><br>• Defnyddir gwybodaeth a gesglir drwy'r systemau ansawdd ac archwilio i ddatblygu'r adroddiad adolygu ansawdd gofal yn unol â rheoliad 80(4). |

| **Rheoliad 9** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol**<br><br>**9.**~~—~~(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth sy'n unigolyn.<br>(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol—<br>a) yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, a<br>b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.<br>(3) Os bydd gan y darparwr gwasanaeth reswm dros gredu nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhannau 16 i 20, rhaid i'r darparwr—<br>a) cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad, a<br>b) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i gynnal trafodaethau ffurfiol a rheolaidd gyda'r unigolyn cyfrifol, ac i roi cymorth iddo.<br><br>• Bydd y darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i'r unigolyn cyfrifol ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant ar gyfer unigolion cyfrifol yn cynnwys y canlynol:<br>○ fframwaith a gofynion deddfwriaethol~~ a gofynion;~~;<br>○ dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol;<br>○ perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd;<br>○ siapio diwylliant gwasanaeth, ac ati.<br><br>• Os bydd unigolyn cyfrifol wedi methu â chyflawni ei rôl bydd y darparwr gwasanaeth yn hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am unrhyw gamau a gymerwyd a, lle y bo hynny'n berthnasol, |

| | |
|---|---|
| (4) Yn ystod unrhyw adeg pan nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—<br>a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,<br>b) goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol,<br>c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y rheoliadau yn Rhannau 3 i 15, a<br>d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.<br>(5) Os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a<br>b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim. | yn ei gynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer dynodi rhywun yn ei le.<br><br>• Os na fydd unigolyn cyfrifol neu os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y cyfrifoldeb dros orchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, fel y nodir yn rhannau 16 i 20 o'r Rheoliadau, yn dal i gael ei fodloni o dan drefniadau amgen. |

| **Rheoliad 10** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn**<br>**10.** —(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.<br>(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r unigolyn ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol fel yr unigolyn cyfrifol.<br>(3) Yn ystod unrhyw adeg pan fo'r unigolyn yn absennol, rhaid iddo sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—<br>a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,<br>b) goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol, | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dilyn hyfforddiant a fydd yn ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant yn cynnwys y canlynol:<br>○ fframwaith a gofynion deddfwriaethol ~~a gofynion;~~;<br>○ dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol;<br>○ perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd;<br>○ siapio diwylliant gwasanaeth, ac ati<br><br>• Os na fydd yr unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd yr unigolyn cyfrifol yn |

| | |
|---|---|
| c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y rheoliadau yn Rhannau 3 i 15, a<br>d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.<br>(4) Os nad yw'r unigolyn yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid iddo—<br>a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a<br>b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim. | sicrhau bod trefniadau amgen yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod y gofynion yn rheoliad 10(3 yn cael eu bodloni. |

| Rheoliad 11 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth**<br>**11.** —(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol at ddiben cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnal cyfrifon priodol a chyfredol ar gyfer y gwasanaeth.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu copïau o'r cyfrifon i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.<br>(4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon gael eu hardystio gan gyfrifydd. | • Bydd systemau ar waith i sicrhau bod gwaith cynllunio ariannol, monitro'r gyllideb a rheolaeth ariannol yn cael ei wneud yn effeithiol.<br>• Bydd systemau ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol a diogelu'r defnyddiwr yn unol ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol a rheoliadau ariannol.<br>• Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu ac i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y datganiad o ddiben ac er mwyn bodloni gofynion y rheoliad.<br>• Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau yswiriant priodol a threfniadau digolledu priodol ar waith i warchod rhag rhwymedigaethau posibl yn sgil marwolaeth, anaf, neu achosion eraill, colled neu ddifrod i eiddo, a risgiau ariannol eraill. |

| | |
|---|---|
| | • Os na fydd cyfrifon archwiliedig ar gael, bydd cyfrifon blynyddol yn cael eu cwblhau gan gyfrifydd cymwys at bwrpas rheoleiddio ac archwilio.<br><br>• Mae'r cyfrifon yn dangos bod y gwasanaeth yn ariannol hyfyw ac yn debygol o fod â digon o arian i barhau i gyflawni'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau fel y nodwyd yn ei ddatganiad o ddiben. |

| Rheoliad 12 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau**<br>**12.**— (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth—<br>Derbyniadau a chychwyn y gwasanaeth (gweler Rhan 4, rheoliad 14)<br>Diogelu (gweler Rhan 8, rheoliad 27)<br>Cefnogi unigolion i reoli eu harian (gweler Rhan 8, rheoliad 28)<br>Defnyddio rheolaeth neu ataliaeth (gweler Rhan 8, rheoliad 29)<br>Cefnogi a datblygu staff (gweler Rhan 10, rheoliad 36)<br>Disgyblu staff (gweler Rhan 10, rheoliad 39)<br>Rheoli heintiau (gweler Rhan 14, rheoliad 56)<br>Meddyginiaeth (gweler Rhan 14, rheoliad 58)<br>Cwynion (gweler Rhan 15, rheoliad 64)<br>Chwythu'r chwiban (gweler Rhan 15, rheoliad 65)<br>(2) Pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i blant, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi yn ei le ar atal bwlio, | • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, os yw hynny'n briodol ac yn berthnasol i'r gwasanaeth.<br><br>• Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau yn gymesur â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben.<br><br>• Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau:<br>○ yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol;<br>○ yn cynnig arweiniad i staff a gwirfoddolwyr i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r datganiad o ddiben;<br>○ yn gosod gofynion a fydd yn rhoi gwybod i unigolion a'u cynrychiolwyr am sut y darperir y gwasanaeth.<br><br>• Bydd y polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yng ngoleuni newidiadau i arferion, deddfwriaeth sy'n newid ac argymhellion ynglŷn â'r arferion gorau. |

| | |
|---|---|
| gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiad o fwlio a gweithdrefn sydd i gael ei dilyn pan fydd unrhyw blentyn y darperir llety iddo yn absennol heb ganiatâd (gweler rheoliad 27(5)).<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael unrhyw bolisïau a gweithdrefnau eraill yn eu lle sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi nodau ac amcanion y gwasanaeth rheoleiddiedig a nodir yn y datganiad o ddiben.<br>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod yn eu lle yn rhinwedd paragraffau (1) i (3)—<br>a) yn briodol i anghenion yr unigolion y darperir gofal a chymorth ar eu cyfer,<br>b) yn gyson â'r datganiad o ddiben, ac<br>c) yn cael eu cadw'n gyfredol.<br>(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny. | • Bydd cyfle i'r staff ~~a'r~~ , yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr ymwneud â datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd a diwygio rhai sy'n bodoli'n barod.<br>• Os bydd y datganiad o ddiben yn newid, bydd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau.<br>• Os gwneir newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar unigolion a/neu eu cynrychiolwyr, bydd y rhain yn cael eu cyfleu i unigolion ac unrhyw gynrychiolwyr yn brydlon.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n help iddynt sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion, a'u bod yn gwybod am y polisïau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall.<br>• Bydd yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael, ar gais, i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, i'w cynrychiolwyr a, lle y bo hynny'n briodol, i'r awdurdodau perthnasol sy'n lleoli ac i'r comisiynwyr.<br>• Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau ar fformat hygyrch i'r unigolyn, a darperir cymorth i helpu unigolion i'w deall.<br>• Bydd systemau ar gyfer monitro a gwella'n cynnwys y rheini sy'n sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynnal yn effeithiol yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau.<br>• Lle bo'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety ar gyfer plant, bydd y polisi a'r gweithdrefnau mewn perthynas â rheoliad 12(2) yn cynnwys: |

| | |
|---|---|
| | ○ rolau a chyfrifoldebau unigol staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth o ran adnabod, derbyn a rhoi gwybod am honiadau o fwlio.<br>○ rolau a chyfrifoldebau unigol staff a phobl eraill sy'n gweithio i'r gwasanaeth o ran rhoi gwybod pan fydd plentyn yn absennol heb ganiatâd.<br>○ cyfarwyddiadau i'r staff ar y camau i'w cymryd mewn achosion o'r fath, a'r mecanweithiau ar gyfer eu cyfeirio at y partneriaid a'r asiantaethau perthnasol. |

| **Rheoliad 13** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Dyletswydd gonestrwydd**<br><br>**13.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth weithredu mewn ffordd agored a thryloyw—<br>a) ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth,<br>b) ag unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny, ac<br>c) yn achos plentyn y darperir llety iddo, â'r awdurdod lleoli. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisïau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn gefn i ddiwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, a bydd yn sicrhau bod y staff a gwirfoddolwyr i gyd yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn dilyn ac yn ystyried canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru â GCC.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n hybu diwylliant o onestrwydd sy'n cynnwys:<br>○ bod yn agored ac yn onest wrth drafod pethau ag unigolion a'u cynrychiolwyr pan fydd pethau'n mynd o chwith;<br>○ rhoi gwybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd a chanlyniad unrhyw ymchwiliadau sydd wedi'u cynnal;<br>○ cynnig ymddiheuriad am yr hyn sydd wedi digwydd, os yw'n briodol gwneud hynny.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n cymryd camau i atal bwlio, erlyn a/neu aflonyddu ac yn mynd i'r afael â'r rhain yn briodol, |

| | |
|---|---|
| | gyda golwg ar y ddyletswydd gonestrwydd, ac i ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad lle mae’n bosibl bod aelod o'r bwrdd, unigolyn cyfrifol neu aelod o'r staff wedi rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd gonestrwydd.<br><br>• Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau system ar waith i sylwi ar achos posibl o dorri'r ddyletswydd gonestrwydd gan staff sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol, ac i ymdrin â hynny. Gall hyn gynnwys rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd gonestrwydd. Bydd camau i fynd i’r afael â thorri amodau o’r fath yn cynnwys, lle y bo hynny’n briodol, cyfeirio rhywun at y rheoleiddiwr proffesiynol neu at gorff perthnasol arall. |

## 1.2 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth (Rhan 4)

Bwriad gofynion Rhan 4 o'r Rheoliadau yw rhoi sicrwydd i unigolion bod darparwr gwasanaeth wedi ystyried ystod eang o wybodaeth cyn cynnig gofal a chymorth i gadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu bodloni anghenion yr unigolyn ac yn gallu rhoi cymorth iddo gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys dymuniadau'r unigolyn a'r hyn sydd orau ganddo, ac ymgynghori â'r bobl a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

| Rheoliad 14 | Canllawiau |
|---|---|
| **Addasrwydd y gwasanaeth**<br><br>**14.**— (1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer unigolyn oni bai bod y darparwr gwasanaeth wedi penderfynu bod y gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn ac i gefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.<br><br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar dderbyniadau a chychwyn y gwasanaeth.<br><br>(3) Rhaid i'r penderfyniad o dan baragraff (1) ystyried—<br>a) cynllun gofal a chymorth yr unigolyn,<br>b) os nad oes cynllun gofal a chymorth, asesiad y darparwr gwasanaeth o dan baragraff (4),<br>c) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill,<br>d) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,<br>e) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn,<br>f) unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt, | • Bydd gan y darparwyr gwasanaethau bolisi a gweithdrefn ynglŷn â derbyniadau a chychwyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ y trefniadau ar gyfer cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu rhoi cymorth i'r unigolion gyflawni eu canlyniadau personol neu beidio;<br>○ y bobl yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r broses;<br>○ yr wybodaeth i'w hystyried;<br>○ y prosesau asesu (gan gynnwys ar gyfer derbyn achosion brys) a phwy fydd yn cynnal yr asesiad;<br>○ o dan ba amgylchiadau na fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu;<br>○ cyfleoedd i ymweld â'r gwasanaeth (mewn perthynas â gwasanaethau'n seiliedig ar lety);<br>○ y trefniadau ar gyfer cychwyn y gwasanaeth.<br><br>• Bydd crynodeb o'r weithdrefn dderbyn wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yng nghanllaw'r darparwr gwasanaeth.<br><br>• Cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth, bydd y darparwr gwasanaeth yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag a yw'n gallu diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn. Wrth benderfynu fel hyn, bydd y darparwr gwasanaethau: |

| | |
|---|---|
| g) unrhyw addasiadau rhesymol y gallai'r darparwr gwasanaeth eu gwneud i alluogi i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn gael eu diwallu, a<br>h) polisi a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth ar dderbyniadau a chychwyn y gwasanaeth.<br>(4) Mewn achos pan na fo gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>a) asesu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, a<br>b) nodi ei ganlyniadau personol.<br>(5) Rhaid i'r asesiad sy'n ofynnol gan baragraff (4) gael ei gynnal gan berson sydd—<br>a) â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad, a<br>b) wedi cael hyfforddiant i gynnal asesiadau.<br>(6) Wrth wneud y penderfyniad ym mharagraff (1), rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn, yr awdurdod lleoli (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—<br>a) os yw'r unigolyn yn oedolyn neu'n blentyn 16 oed neu drosodd ac nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu<br>b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn. | ○ yn ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 14(3);<br>○ yn ymgynghori â'r unigolyn, yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol) a/neu â'u cynrychiolydd i benderfynu beth sy'n bwysig iddynt hwy;<br>○ yn cael copïau o unrhyw gynllun gofal a chymorth presennol, gofal integredig ac asesiadau aml-asiantaeth ar gyfer oedolion, ac yn ystyried y rhain;<br>○ ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, yn cael copi o gynllun gofal a chymorth Rhan 6 ac yn ei ystyried, ac yn gweithio gyda'r awdurdod sy'n lleoli wrth gynllunio i leoli'r plentyn;<br>○ ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal sy'n 16 oed a hŷn, neu unigolyn sy'n gadael gofal hyd at 21 oed (neu 25 oed os yw'n dilyn rhaglen addysg neu hyfforddiant), yn cael copi o gynllun llwybr yr unigolyn ifanc ac yn ei ystyried;<br>○ yn ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn neu i bobl eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i staff;<br>○ yn cael gwybodaeth am anghenion arbenigol yr unigolyn a'i ofynion er mwyn cadarnhau bod modd diwallu'r rhain yn unol â'r datganiad o ddiben.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gwybodaeth a chymorth perthnasol ar gael i unigolion ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddynt (gan gynnwys darpariaeth gan ddarparwyr gwasanaethau gwahanol, lle y bo hynny'n briodol), mewn fformat sy'n hygyrch ar gyfer eu hoedran a lefel eu dealltwriaeth.<br>• Bydd yr wybodaeth a geir yn ddigonol i alluogi cyfnod pontio hwylus wrth i'r unigolyn gael y gwasanaeth. |

- Os na fydd gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol am eu gofal a'u cymorth ac os na phenodir cynrychiolydd cyfreithlon, ~~dylid penderfynu~~penderfynir beth sydd er eu budd eu lles gorau a gweithredir~~u~~ ar sail hynny, yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

- Mewn gwasanaethau seiliedig ar lety, ystyrir pa mor gydnaws ydyw, yr effaith bosibl ar yr unigolyn a'r gwasanaeth a ddarperir i bobl eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

- Mewn gwasanaethau cymorth cartref, ystyrir gallu'r gwasanaeth i ddiwallu'r galw gan sicrhau na fydd contractau ychwanegol yn effeithio ar unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth eisoes, er enghraifft yr amserau galw sy'n well/yn ofynnol ganddynt.

- Bydd pobl sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ar ran y darparwr gwasanaeth yn gymwys i gynnal asesiadau a bydd ganddynt ddigon o gyfrifoldeb ac awdurdod yn y sefydliad i allu penderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.

- Yn achos oedolion, rhoddir cadarnhad ysgrifenedig i'r unigolyn bod y gwasanaeth yn gallu bodloni anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, gan gynnwys ei anghenion iechyd, gofal personol, emosiynol, cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac ysbrydol. Rhoddir cadarnhad ysgrifenedig pan nad yw'r gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.

- Yn ogystal ag ymgynghori â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, bydd ymgynghori ehangach â phartneriaid perthnasol eraill. Mae hyn yn hanfodol os bydd y cyfrifoldeb am ofalu'n cael ei rannu.

| | |
|---|---|
| | • Os na fydd gan unigolyn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth eisoes ar ei gyfer~~,~~ — er enghraifft unigolion sy'n talu am eu gofal eu hunain~~;~~ — ~~rhaid cynnal~~cynhelir asesiad cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth. Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys anghenion iechyd, gofal personol a chymorth, unrhyw gymorth arbenigol y bydd ei angen, anghenion cyfathrebu, emosiynol, addysgiadol, cymdeithasol, diwylliannol, crefydd ac ysbrydol, a dylai sefydlu beth yw eu canlyniadau personol a'u dyheadau.<br><br>• Os lleolir yr unigolyn mewn argyfwng, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau asesiadau perthnasol cyn ei leoli a sicrhau bod modd i'r gwasanaeth ddiwallu ei anghenion.<br><br>• Os darperir lleoliadau byr, bydd cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u diweddaru'n cael eu hadolygu i adlewyrchu unrhyw newidiadau cyn derbyn yr unigolyn yn y lleoliadau i sicrhau bod y darparwr gwasanaeth yn dal yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn. |

## 1.3 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth (Rhan 5)

Bwriad Rhan 5 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod modd i unigolion deimlo'n hyderus bod gan ddarparwyr gwasanaethau gynllun cywir wedi'i ddiweddaru (a elwir yn gynllun personol) sy'n dweud sut y darperir y gofal.

Bydd y darparwr yn datblygu cynllun personol cychwynnol cyn i'r gwasanaeth ddechrau gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael eisoes, asesiadau ac unrhyw gynlluniau gofal a chymorth sydd ar waith. Wedyn, datblygir y cynllun personol eto yn ystod wythnos gyntaf defnyddio'r gwasanaeth drwy gynnal asesiad llawn gan y darparwr (asesiad darparwr) gyda'r unigolyn a'i gynrychiolydd. Bydd asesiad y darparwr yn ystyried dymuniadau personol, dyheadau ac anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Defnyddir yr wybodaeth a geir yn sgil hyn i ddatblygu rhagor ar y cynllun personol.

Bydd y cynllun personol:

- yn darparu gwybodaeth ar gyfer unigolion a'u cynrychiolwyr ynglŷn â'r gofal a'r cymorth y cytunwyd arno a sut y darperir hyn:
- yn darparu arweiniad clir ac adeiladol i'r staff am yr unigolyn, ei anghenion gofal a chymorth a'r canlyniadau y byddai'n hoffi eu cyflawni;
- yn darparu'r sail ar gyfer adolygu parhaus;
- yn galluogi unigolion, eu cynrychiolwyr a'r staff i fesur cynnydd a gweld a yw'r canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.

| **Rheoliad 15** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Cynllun personol**<br><br>**15.**— (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio cynllun ar gyfer yr unigolyn sy'n nodi—<br>a) sut y bydd anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu diwallu o ddydd i ddydd,<br>b) sut y bydd yr unigolyn yn cael ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau personol, | • Pan benderfynir y gall gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion, bydd cynllun personol cychwynnol yn cael ei ddatblygu, ei gyd-lunio â'r unigolyn, yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolydd (os yw'n briodol) **cyn** i'r unigolyn ddechrau cael gofal a chymorth.<br><br>• Mewn achos o argyfwng, bydd y cynllun personol cychwynnol ar waith o fewn 24 awr i'r gwasanaeth yn cychwyn. |

| | |
|---|---|
| c) y camau a fydd yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau a nodir i lesiant yr unigolyn, a<br>d) y camau a fydd yn cael eu cymryd i gefnogi cymryd risgiau cadarnhaol ac annibyniaeth, pan benderfynwyd bod hyn yn briodol.<br>(6) Cyfeirir yn y Rheoliadau hyn at y cynllun y mae'n ofynnol iddo gael ei lunio o dan baragraff (1) fel cynllun personol.<br>(7) Rhaid i'r cynllun personol gael ei lunio cyn i'r ddarpariaeth o ofal a chymorth gael ei chychwyn i'r unigolyn, oni bai bod paragraff (4) yn gymwys.<br>(8) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achos pan fo ar yr unigolyn angen brys am ofal a chymorth ac nad oes amser wedi bod i lunio cynllun personol cyn i'r ddarpariaeth o ofal a chymorth gael ei chychwyn i'r unigolyn.<br>(9) Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r cynllun personol gael ei lunio o fewn 24 awr i'r ddarpariaeth o ofal a chymorth gael ei chychwyn i'r unigolyn.<br>(10) Wrth lunio cynllun personol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn, yr awdurdod lleoli (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—<br>a) os yw'r unigolyn yn oedolyn neu'n blentyn 16 oed neu drosodd ac nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu<br>b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.<br>(11) Wrth lunio'r cynllun personol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried—<br>a) cynllun gofal a chymorth yr unigolyn,<br>b) os nad oes cynllun gofal a chymorth, asesiad y darparwr gwasanaeth o dan reoliad 14(4), | • Bydd y cynllun personol cychwynnol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 7 niwrnod cyntaf defnyddio'r gwasanaeth yn unol â chanlyniad asesiad y darparwr (rheoliad 18).<br>• Bydd y cynllun personol yn nodi:<br>○ y camau sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion lles, gofal a chymorth yr unigolyn o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys manylion yr anghenion o ran gofal (gan gynnwys hunanfeddyginiaeth), yr hyn fyddai orau gan yr unigolyn a'r trefniadau ar gyfer darparu hyn;<br>○ sut y bydd yr unigolyn yn cael cymorth i gyflawni ei ganlyniadau personol;<br>○ sut y cefnogir dymuniadau, dyheadau a chredoau crefyddol yr unigolyn;<br>○ camau i sylwi ar y peryglon i lesiant unigolyn a sut y rheolir hyn;<br>○ camau i gefnogi mentro cadarnhaol;<br>○ camau i gynnal, ailalluogi a/neu sicrhau annibyniaeth.<br>• Pan fydd cynllun personol yn cael ei adolygu, caiff ei gyd-lunio â'r unigolyn sy'n cael y gofal a'r cymorth, yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol) neu unrhyw gynrychiolydd.<br>• Bydd copi o'r cynllun personol yn cael ei ddarparu i'r sawl sy'n cael y gwasanaeth ac mewn iaith a fformat sy'n briodol i'w anghenion, ei oedran a lefel ei ddealltwriaeth. Os bydd rheswm dros beidio â gwneud hyn, ~~dylid cofnodi hynny.~~caiff hynny ei gofnodi.<br>• Bydd y cynllun personol ar gael yn hwylus ac ar fformat clir i roi gwybod i'r staff sut y dylent ddarparu gofal a chymorth o ddydd i ddydd i ddiwallu anghenion unigolion a rhoi cymorth iddynt gyflawni eu canlyniadau personol. |

| | |
|---|---|
| c) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill,<br>d) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,<br>e) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn, ac<br>f) unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt. | • Bydd y cynllun personol yn ystyried unrhyw gynllun gofal a chymorth a gaiff ei baratoi gan awdurdod lleol i'r unigolyn o dan adran 54 o Ddeddf 2014.<br><br>• Bydd y cynllun personol yn ystyried unrhyw asesiadau iechyd neu asesiadau perthnasol eraill a/neu gynlluniau fel cynlluniau cymorth ymddygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br><br>• Wrth lunio cynllun personol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, bydd y darparwr gwasanaeth yn gweithio gyda'r awdurdod sy'n lleoli i sicrhau bod y cynllun yn ystyried cynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn (gan gynnwys y cynllun iechyd, cynllun addysg personol a'r cynllun lleoli ar gyfer y plentyn).<br><br>• Ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal sy'n 16 oed a hŷn ac unigolion sy'n gadael gofal hyd at 21 oed (neu 25 oed os ydynt yn dilyn rhaglen addysg neu hyfforddiant), bydd y darparwr yn ystyried cynllun llwybr yr unigolyn ifanc.<br><br>• Ar gyfer gwasanaeth mewn canolfannau preswyl i deuluoedd, bydd cynllun personol yn ymwneud â'r unigolyn neu'r teulu. |

| **Rheoliad 16** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Adolygu cynllun personol**<br><br>**16.** — (1) Rhaid i'r cynllun personol gael ei adolygu fel sy'n ofynnol, a phan fo'n ofynnol, ond o leiaf bob tri mis.<br><br>(2) Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, rhaid i unrhyw adolygiad o'r cynllun personol gael ei alinio â'r adolygiadau y mae'n ofynnol | • Bydd y cynllun personol yn cael ei adolygu'n barhaus ac yn cael ei ddiwygio a'i ddatblygu i adlewyrchu'r newidiadau yn anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol.<br><br>• Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob tri mis neu cyn hynny, os bydd anghenion yr unigolyn yn newid, ac yn unol ag unrhyw adolygiadau a gynhelir gan yr awdurdod sy'n lleoli. |

| | |
|---|---|
| iddynt gael eu cynnal gan yr awdurdod lleol o dan Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015([3]).<br><br>(3) Rhaid i adolygiadau o gynllun personol gynnwys adolygiad o'r graddau y mae'r unigolyn wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol.<br><br>(4) Wrth gynnal adolygiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn, yr awdurdod lleoli (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—<br>a) os yw'r unigolyn yn oedolyn neu'n blentyn 16 oed neu drosodd ac nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu<br>b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.<br><br>(5) Ar ôl cwblhau unrhyw adolygiad sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried a ddylai'r cynllun personol gael ei ddiwygio a diwygio'r cynllun yn ôl yr angen. | • Os bydd plentyn yn derbyn gofal, dylai'r darparwr sicrhau bod yr adolygiadau tri-mis ~~hyn~~ yn cydredeg â'r adolygiad 'plant sy'n derbyn gofal' ar gyfer y plentyn gan yr awdurdod sy'n ei leoli. ~~Rhaid adolygu'r~~Mae'r cynllun personol yn cael ei adolygu ar ôl pob adolygiad a gynhelir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.<br><br>• Bydd adolygiadau'n cael eu cynnal gyda'r unigolyn a, lle y bo hynny'n briodol, gyda'u cynrychiolydd, gyda chytundeb yr unigolyn.<br><br>• Yn ystod adolygiadau, ystyrir yr wybodaeth a gofnodir bob dydd sy'n ymwneud â sut y mae'r unigolyn yn cyflawni ei ganlyniadau personol. Os bydd hyn yn sylweddol wahanol i unrhyw asesiad gan gorff comisiynu ac i'r cynllun gofal a chymorth, ~~dylid hysbysu'r~~rhodddir gwybod i'r comisiynydd perthnasol.<br><br>• Lle bo hynny'n berthnasol, mae adolygiadau'n ystyried y cofnodion cyfredol diweddaraf ynghylch rheolaeth ac ataliaeth mewn perthynas â'r unigolyn. |

| **Rheoliad 17** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Cofnodion o gynlluniau personol**<br><br>**17.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>a) cadw cofnod—<br>i. o'r cynllun personol ac unrhyw gynllun diwygiedig, a<br>ii. o ganlyniad unrhyw adolygiad, a | • Bydd copi o'r cynllun personol ar gael ar fformat ac mewn iaith sy'n briodol ar gyfer anghenion yr unigolyn.<br><br>• Bydd unigolion, yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolwyr yn cael gwybod sut y gallant gael gafael ar y cynllun personol. |

3 O.S. 2015/1818 (Cy. 261) https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1818/pdfs/wsi_20151818_mi.pdf

| | |
|---|---|
| b) rhoi copi o'r cynllun personol ac unrhyw gynllun diwygiedig—<br>i. i'r unigolyn,<br>ii. i unrhyw gynrychiolydd, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant yr unigolyn, ac<br>iii. pan fo llety wedi ei ddarparu i blentyn fel rhan o wasanaeth cartref gofal, i'r awdurdod lleoli. | |

| **Rheoliad 18** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Asesiad darparwr**<br><br>**18.**— (1) O fewn 7 niwrnod i'r ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer unigolyn gael ei chychwyn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>a) asesu sut y gellir diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn orau,<br>b) asesu sut y gall yr unigolyn gael ei gefnogi orau i gyflawni ei ganlyniadau personol,<br>c) canfod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,<br>d) asesu unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn, ac<br>e) asesu unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt.<br>(6) Cyfeirir yn y Rheoliadau hyn at yr asesiad o dan baragraff (1) fel asesiad darparwr.<br>(7) Rhaid i asesiad darparwr gael ei gynnal gan berson sydd—<br>a) â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad, a<br>b) wedi cael hyfforddiant i gynnal asesiadau.<br>(8) Rhaid i asesiad darparwr ystyried— | • Bydd asesiad darparwr yn adeiladu ar yr wybodaeth sy'n sail i benderfyniad i ddarparu gwasanaeth ar gyfer yr unigolyn, gan gynnwys unrhyw gynllun gofal a chymorth sy'n bodoli eisoes. Bydd yr asesiad yn gymesur â natur y lleoliad ac amgylchiadau penodol yr unigolyn.<br><br>• Bydd asesiad y darparwr yn nodi:<br>○ canlyniadau personol yr unigolyn;<br>○ y gofal a chymorth sydd eu hangen i helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;<br>○ yr hyn sydd orau gan yr unigolyn (gan ystyried unrhyw gredoau crefyddol neu athronyddol, neu gefndir diwylliannol) o ran sut y gellir cyflawni'r rhain;<br>○ unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn neu'r risgiau i lesiant eraill a sut y mae mynd ati i'w lliniaru;<br>○ meysydd lle mae angen asesiad arbenigol neu asesiad mwy manwl.<br><br>• Bydd yr asesiad yn cael ei ~~gwblhau drwy ymgynghori~~gydgynhyrchu â'r unigolyn sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth neu'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd a/neu â'i gynrychiolydd. |

a) cynllun gofal a chymorth yr unigolyn, os oes un ar gael,

b) asesiad y darparwr gwasanaeth o dan reoliad 14(4), os yw'n gymwys,

c) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill,

d) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,

e) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn, ac

f) polisi a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth ar dderbyniadau a chychwyn y gwasanaeth.

(9) Wrth gynnal neu ddiwygio asesiad darparwr, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn, yr awdurdod lleoli (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—

a) os yw'r unigolyn yn oedolyn neu'n blentyn 16 oed neu drosodd ac nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu

b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.

(10) Bydd asesiadau'n cael eu hadolygu a'u diwygio os bydd anghenion

(11) Ar ôl cwblhau asesiad y darparwr ac unrhyw asesiad diwygiedig, rhaid i'r cynllun personol gael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen.

(12) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gadw cofnod o asesiad darparwr a rhoi copi o'r asesiad i'r unigolyn, i unrhyw gynrychiolydd a, phan fo llety wedi ei ddarparu i'r plentyn gan wasanaeth cartref gofal, i'r awdurdod lleoli.

- Bydd canlyniad asesiad y darparwr yn sail i ddatblygu'r cynllun personol yn 7 niwrnod cyntaf yr unigolyn wrth iddo gychwyn defnyddio'r gwasanaeth.

- Bydd y sawl sy'n cynnal asesiad y darparwr ar ran y darparwr gwasanaeth:
    - yn fedrus ac yn brofiadol wrth gynnal asesiadau;
    - yn meddu ar brofiad o ddarparu gofal i'r unigolion y mae'n eu hasesu a bydd wedi'i hyfforddi i wneud hynny.

- Os bydd anghenion unigolion yn gymhleth ac yn arbenigol, bydd y sawl sy'n cynnal yr asesiad wedi cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'r anghenion hynny neu bydd yn gofyn am gyngor ac arweiniad arbenigwr perthnasol.

- Os bydd gan unigolion anghenion nyrsio, bydd yr asesiad yn cael ei wneud gan nyrs gofrestredig sydd â'r sgiliau perthnasol.

- Os yw unigolion yn cael cymorth gan ystod o ddarparwyr gwasanaethau, dylent ~~gydweithio~~ maent yn cydweithio i sicrhau bod pob partner yn glir am eu cyfrifoldebau yng nghyswllt yr unigolyn hwnnw at ddibenion yr asesiad a'r adolygiad o'u hanghenion.

- Mae dulliau asesu yn adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau arfer da cyfredol.

- Mae asesiadau'n cael eu hadolygu a'u diwygio pan fydd newid o bwys yn anghenion unigolyn neu pan na fydd y cynllun personol yn helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

- Bydd y cynllun personol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen yn dilyn unrhyw asesiad gan y darparwr.

## 1.4 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran yr wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth (Rhan 6)

Bwriad Rhan 6 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth i'w galluogi:

- i ddeall diwylliant ac ethos y gwasanaeth yn glir;
- i wybod pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael;
- dealltwriaeth o'r modd y darperir y gwasanaethau; a thelerau ac amodau'r gwasanaeth.

Dylai hyn alluogi unigolion, yr awdurdodau sy'n eu lleoli, ac unrhyw gynrychiolwyr i ddeall yn dda sut y mae'r gwasanaeth yn gweithio o ran darparu gofal a chymorth. Bydd y canllawiau ysgrifenedig hefyd yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt ynglŷn â sut i ~~leisio~~ godi pryderon a chwyno wrth ddarparwyr gwasanaethau os na fyddant yn fodlon â'r gwasanaeth ac maent yn dweud sut y mae uwchgyfeirio'r pryderon hyn os na fyddant yn fodlon â'r ymateb.

| **Rheoliad 19** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Gwybodaeth am y gwasanaeth**<br><br>**19.**— (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth.<br>(2) Rhaid i'r canllaw—<br>a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a'i ddiweddaru yn ôl yr angen,<br>b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth,<br>c) cael ei roi i bob unigolyn sy'n cael gofal a chymorth,<br>d) yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, gael ei roi i'r awdurdod lleoli, ac | • Bydd canllaw ysgrifenedig ar gael i unigolion, yr awdurdod sy'n lleoli ac unrhyw gynrychiolwyr, sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth.<br><br>• Bydd y canllaw mewn iaith syml ac ar fformat sy'n adlewyrchu anghenion, oedran a lefel ddealltwriaeth y sawl y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer. Bydd y canllaw ar gael mewn fformatau a thrwy gyfryngau sydd ar gael yn hwylus ac yn briodol i'r gynulleidfa. Er enghraifft, iaith briodol ac iaith o ddewis yr unigolyn, print mawr, cymhorthion sain, cyfrifiadurol, gweledol. Os bydd gofyn, defnyddir y dull cyfathrebu a ffefrir gan yr unigolion i'w esbonio.<br><br>• Os bydd gofyn, rhoddir cymorth i unigolion ddeall cynnwys y canllaw a'r hyn mae'n ei olygu iddynt hwy. |

| | |
|---|---|
| e) cael ei wneud ar gael i eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai’n anghyson â llesiant unigolyn.<br>(3) Rhaid i’r canllaw gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—<br>a) gwybodaeth am sut i godi pryder neu wneud cwyn;<br>b) gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eirioli.<br>(4) Rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod pob unigolyn yn cael unrhyw gymorth sy’n angenrheidiol i’w alluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir yn y canllawiau. | • Bydd y canllaw yn rhestru'r meysydd sy'n ofynnol o dan reoliad 19(3) a bydd hefyd yn cynnwys y canlynol:<br>○ trefniadau ar gyfer croesawu a chefnogi unigolion;<br>○ ethos, diwylliant a blaenoriaethau'r gwasanaeth a reoleiddir, gan gynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben;<br>○ sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf a luniwyd gan y reoleiddiwr gwasanaethau;<br>○ sut i gael gafael ar y datganiad blynyddol diweddaraf ar gyfer y gwasanaeth;<br>○ y staff allweddol a fydd yn rhoi cymorth i'r unigolyn;<br>○ sut i gysylltu â'r unigolyn cyfrifol;<br>○ y cyfleoedd a'r mecanweithiau ar gyfer cynnwys teuluoedd, gofalwyr, gwirfoddolwyr a'r gymuned;<br>○ y weithdrefn gwyno a sut y mae gwneud cwyn;<br>○ manylion cyswllt a rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y rheoleiddiwr gwasanaethau, Corff Llais y Dinesydd (Llais), y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn (fel sy'n briodol);<br>○ mynediad, a help i gael mynediad at, wasanaethau eirioli perthnasol ac asiantaethau neu wasanaethau eraill, megis gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol (meddyg teulu; deintydd; optometrydd, fferyllydd, ciropodydd, ymweliadau â'r ysbyty);<br>○ mynediad, a help i gael mynediad at, ddyfeisiau cyfathrebu digidol perthnasol a/neu dechnoleg gynorthwyol<br>○ trefniadau ar gyfer mynegi barn a chymryd rhan yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynnal;<br>○ ffioedd – ystod, unrhyw ffioedd neu gostau ychwanegol sy’n daladwy gan yr unigolyn, dull talu, hysbysu ynghylch cynnydd; |

| | |
|---|---|
| | ○ telerau ac amodau, gan gynnwys o dan ba amgylchiadau y gellid rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth a chyfnodau rhybudd;<br>○ sut y gall unigolion gael gafael ar eu cofnodion eu hunain.<br><br>• Gofynion ychwanegol ar wasanaethau sy'n seiliedig ar lety:<br>○ polisi am ddarparu ar gyfer dymuniadau personol unigolion, e.e. anifeiliaid anwes, dodrefn ac ati;<br>○ a fydd y canlynol ar gael, a pha gymorth fydd ar gael i'w defnyddio – ffôn, wi-fi, rhyngrwyd ac ati;<br>○ gweithgareddau, gan gynnwys cymorth i fanteisio ar wasanaethau a gweithgareddau yn y gymuned;<br>○ cyfleusterau sydd ar gael fel rhan o'r gwasanaeth;<br>○ gwybodaeth am iechyd a diogelwch gan gynnwys gweithdrefnau gwagio adeilad a diogelwch tân. |

| **Rheoliad 20** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Cytundeb gwasanaeth**<br><br>**20.**— (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y rhoddir i bob unigolyn gopi wedi ei lofnodi o unrhyw gytundeb sy'n ymwneud â—<br>a) y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r unigolyn;<br>b) unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir i'r unigolyn.<br>(6) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolion yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir mewn unrhyw gytundeb o'r fath. | • Bydd unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael copi o'r cytundeb ~~sy'n nodi, lle y bo hynny'n briodol:~~/ contract sy'n rhoi manylion y gwasanaeth unigol sydd i'w ddarparu a, lle bo hynny'n berthnasol:<br>○ gwybodaeth am unrhyw~~y~~ g~~e~~ostau sy'n daladwy gan yr unigolyn a'r hyn y maent yn ei gwmpasu;<br>○ gwybodaeth am unrhyw g~~e~~ostau eraill ~~a delir~~sy'n daladwy gan yr awdurdod sy'n lleoli a'r hyn y maent yn ei gwmpasu;<br>○ trefniadau ar gyfer sut i wneud taliadau;<br>○ unrhyw ffioedd am daliadau hwyr;<br>○ t~~ a th~~elerau ac amodau'r gwasanaeth gan gynnwys terfynu contract~~au~~ a chyfnodau rhybudd;~~,~~<br>○ trefniadau ac amserlenni ar gyfer hysbysu unigolion am newidiadau contractiol; |

| | |
|---|---|
| | ○ yr ystafelloedd i'w defnyddio mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety.<br>er mwyn iddynt allu penderfynu gwneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.;<br>○ gwybodaeth am y gwasanaeth unigol a ddarperir.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau rhoi amcangyfrif ysgrifenedig i'r unigolion neu i'w cynrychiolwyr am gostau'r wythnosol y gofal a'r cymorth sy'n daladwy gan yr unigolyn, mewn fformat sy'n hygyrch i'r unigolyn ac yn addas ar gyfer eu hoedran a lefel eu dealltwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys manylion unrhyw gostau a ffioedd ychwanegol tebygol.<br><br>• O ran plant sy'n derbyn gofal, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi hefyd i'r awdurdod sy'n eu lleoli.<br><br>• Os bydd unigolion yn talu am eu gofal eu hunain yn llawn neu'n rhannol, byddant hwy, neu eu cynrychiolwyr yn cael contract ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys:<br>○ telerau ac amodau<br>○ ffioedd, gan gynnwys taliadau ychwanegol neu unrhyw ffioedd am dalu'n hwyr;<br>○ trefniadau ac amserlenni ar gyfer hysbysu unigolion am newidiadau i'r contract;<br>○ trefniadau ar gyfer talu;<br>○ a'r ystafelloedd a ddefnyddir mewn gwasanaethau seiliedig ar lety.<br>• Mae cytundebau gwasanaeth a chontractau yn unol â chyfraith defnyddwyr. |

## 1.5 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu (Rhan 7)

Bwriad Rhan 7 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael y gofal a'r cymorth o ansawdd sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r canlyniadau llesiant gorau posibl. Bydd y gwasanaeth yn cael ei gynllunio drwy ymgynghori â'r unigolyn a bydd yn ystyried ei ddymuniadau personol, ei ddyheadau a'i ganlyniadau ac unrhyw beryglon ac anghenion arbenigol sy'n llywio'u hangen am ofal a chymorth.

Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod gofal a chymorth yn galluogi unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol;
- darparu staff sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r medrusrwydd i ddiwallu anghenion llesiant unigolyn;
- sicrhau bod gan staff y sgiliau iaith a chyfathrebu priodol;
- cynllunio a rhoi staff ar waith i sicrhau dilyniant yn y gofal;
- ymgynghori â'r asiantaethau a'r arbenigwyr perthnasol lle bydd gofyn a cheisio cymorth ganddynt.

| Rheoliad 21 | Canllawiau |
|---|---|
| **Safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol**<br>**21.**— (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir y gofal a'r cymorth i bob unigolyn yn unol â chynllun personol yr unigolyn.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir y gofal a'r cymorth mewn ffordd—<br>a) sy'n cynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da ag unigolion a staff; a<br>b) sy'n annog ac yn cynorthwyo staff i gynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da ag unigolion. | • Bydd dulliau'r darparwr gwasanaeth o ran safonau gofal a chymorth, gan gynnwys unrhyw gymorth ymddygiad cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'u nodi'n glir yn y datganiad o ddiben.<br>• Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gymorth i gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn.<br>• Mae polisïau a gweithdrefnau yn cynnwys rheoli anghenion penodol sy'n unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol ac yn adlewyrchu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y gwasanaeth yn ymatebol ac yn rhagweithiol o ran sylwi ar risgiau a'u lliniaru, a |

| | |
|---|---|
| (4) Os nad yw'r darparwr gwasanaeth, o ganlyniad i newid yn anghenion asesedig yr unigolyn, yn gallu diwallu'r anghenion hynny mwyach, hyd yn oed ar ôl gwneud unrhyw addasiadau rhesymol, rhaid i'r darparwr roi hysbysiad ysgrifenedig o hyn i'r unigolyn, i unrhyw gynrychiolydd, i gomisiynydd y gwasanaeth ac i'r awdurdod lleoli ar unwaith. | chefnogi annibyniaeth a mentro cadarnhaol lle pennwyd bod hyn yn briodol.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unigolyn yn gofyn y gofynnir am gyngor meddygol a help proffesiynol i'r unigolyn (lle y bo hynny'n briodol) neu eu bod yn cael eu hatgyfeirio y gwneir atgyfeiriad at gomisiynwyr yn brydlon. Os nad yw llety yn cael ei ddarparu, rhaid caelceir trefniadau i atgyfeirio achosion at wasanaethau arbenigol i gael cymorth a chyngor, lle y bo hynny'n briodol<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eui ddarparu mewn modd urddasol gan ddangos parch, a bydd staff a gwirfoddolwyr yn rhyngweithio'n ystyrlon ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol llawn gofal at unigolion.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu'n unol ag unrhyw asesiad a chynllun personol, yn diwallu anghenion yr unigolyn ac yn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau personol gyda golwg ar y canlynol:<br>○ llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol;<br>○ dewisiadau diwylliannol, crefyddol, cymdeithasol neu ysbrydol;<br>○ anghenion o ran addysg, hyfforddiant a hamdden;<br>○ perthnasoedd personol a theuluol;<br>○ rheolaeth dros fywyd bob dydd a, lle y bo hynny'n berthnasol, cyfranogi mewn gwaith;<br>○ datblygiad deallusol, emosiynol ac ymddygiadol;<br>○ hawliau yn benodol yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;<br>○ amddiffyn rhag camdriniaeth ac, esgeulustod a thriniaeth amhriodol. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd cynlluniau personol yn cynnwys digon o fanylion i lywio a galluogi'r staff er mwyn iddynt ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a helpu unigolion i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Seilir hyn ar y canllawiau perthnasol, gwybodaeth neu arferion rhagnodedig.<br><br>• Os na all y darparwr gwasanaeth ddiwallu anghenion asesedig unigolyn mwyach, mae'r hysbysiad ysgrifenedig yn unol â chyfraith defnyddwyr.<br><br>**Dyma ambell enghraifft o hyn:**<br><br>**Rhoddir cymorth i unigolion gyda'ui gael annibyniaeth, dewis a rheolaeth o'uyn eu bywydau o ddydd i ddydd a chyda'u datblygiad personol**<br><br>• Bydd unigolion yn cael cymorth i wireddu eu potensial a gwneud pethau sydd o bwys iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Gall hyn gynnwys caelbod yn rhan o benderfyniadau bob dydd fel dewis eu prydau eu hunain, y gweithgareddau y byddant yn cymryd rhan ynddynt a'u harferion dyddiol, a chael cymorth i gwblhau neu i gymryd rhan mewn addysg neu ddysgu gydol oes, datblygu a chynnal diddordebau, ymuno â gweithgareddau yn y gymuned a gwirfoddoli.<br><br>• Bydd unigolion yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu dewisiadau gofal, addasiadau i'w hamgylchedd a'r cyfarpar y maent yn ei ddefnyddio.<br><br>• Bydd plant a phobl ifanc yn cael cymorth i fod yn iach ac yn heini a gwneud gweithgareddau sy'n eu helpu i fod yn iach. |

- ~~Bydd~~Anogir plant a phobl ifanc i ddatblygu arferion dyddiol sy'n hyrwyddo eu llesiant, fel amser bwyd ac amser gwely.

- Anogir a chefnogir unigolion ~~yn cael cefnogaeth a chymorth i'w galluogi~~ i fod mor annibynnol â phosibl, i wneud beth y gallant drostynt eu hunain, gan gynnwys cymorth i ofalu amdanynt eu hunain ~~fel rhoi~~, er enghraifft cymryd eu meddyginiaeth ~~iddynt hwy~~ eu hunain.

- Bydd plant a phobl ifanc yn cael cymorth i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol ~~a chael~~ .

- Cefnogir unigolion yn eu dewisiadau i gael ymweliadau gan deulu, ffrindiau ac eraill ac i gwrdd â nhw'n breifat os mai dyna yw eu dewis.

- Cefnogir unigolion yn eu dewisiadau i fynd allan oni bai nad yw hynny'n briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant unigolyn

- Bydd darparwyr gwasanaethau yn gweithio gyda'r unigolyn, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o fywyd yr unigolyn i sicrhau bod cymorth ~~pan fyddant~~ar gael os bydd yr unigolyn yn gadael ~~gofal, fel~~y gwasanaeth, megis cynllun llwybr gofal, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

- Bydd unigolion yn cael cymorth ac yn cael eu paratoi ar gyfer symud ymlaen.

- Bydd ~~darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod plant a phobl ifanc~~unigolion yn cael cymorth ~~pan fyddant yn~~ac yn cael eu paratoi ar gyfer symud ~~allan o ofal, er enghraifft cynllunio llwybr, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.~~ymlaen.

| | |
|---|---|
| | • Bydd unigolion yn cael cymorth ~~wrth~~<u>ac yn cael eu paratoi ar gyfer</u> ymadael â'r gwasanaeth, pan fydd hyn wedi'i gynllunio neu mewn argyfwng.<br><br>**Bydd unigolion yn cael cymorth <u>â'u</u>~~i sicrhau eu~~ llesiant emosiynol a meddyliol**<br><br>• Os yw unigolion mewn perygl o wynebu anawsterau emosiynol a lles, bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i unigolion wneud y canlynol:<br>  ○ teimlo eu bod yn cael eu parchu fel unigolion a bod pobl yn cydnabod pwy ydynt ac yn eu gwerthfawrogi;<br>  ○ teimlo bod ganddynt ddewis a rheolaeth a bod pobl yn gwrando arnynt;<br>  ○ teimlo'n ddiogel ac wedi'u gwarchod;<br>  ○ teimlo eu bod yn perthyn ac o bwys i bobl eraill;<br>  ○ mwynhau perthynas ddiogel ac iach â'r teulu a ffrindiau ac yn gallu datblygu perthynas newydd â phobl;<br>  ○ bod dilyniant i'r gofal.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n adnabod anghenion emosiynol unigolion ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt, yn enwedig pan fyddant yn wynebu anhawster, er enghraifft pan fydd unigolion yn unig, yn drallodus, yn mynd drwy gyfnod pontio neu brofedigaeth, neu'n teimlo'n bryderus, yn isel neu'n dioddef o fathau eraill o salwch meddwl.<br><br>• Bydd staff yn cael hyfforddiant priodol i ddeall ymddygiad a mabwysiadu strategaethau i roi cymorth i unigolion gyda'u hymddygiad i sicrhau canlyniadau a llesiant cadarnhaol.<br><br>• Bydd y polisi a'r gweithdrefnau yn cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y |

| | |
|---|---|
| | gwasanaeth o ran rhoi cymorth ymddygiad cadarnhaol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd hyn yn unol ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol cyfredol ac ymarfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth.<br><br>**Bydd unigolion yn cael cymorth i fwyta deiet iach ac i yfed digon o hylif**<br><br>• Pan fydd bwyd a/neu ddiod yn cael eu darparu ar gyfer unigolion, bydd dewis iddynt sy'n diwallu eu hanghenion a'u dymuniadau cyn belled ag y bydd hynny'n rhesymol ymarferol.<br><br>• Bydd dewisiadau bwyd iach ar gael a bydd y rhain yn cael eu hyrwyddo.<br><br>• Bydd amser bwyd yn brofiad cadarnhaol a phan fydd gofyn, rhoddir cymorth sensitif i unigolion fwyta ac yfed.<br><br>• Os gwneir asesiadau, bydd hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau sy’n cael eu cydnabod yn genedlaethol a chanllawiau sy’n seiliedig ar dystiolaeth i adnabod unrhyw berygl o ran faint o faeth neu hylif mae’r unigolyn yn ei gael.<br><br>• Os bydd perygl i unigolion golli pwysau neu ddadhydradu, bydd eu pwysau, y maeth a'r hylifau y byddant yn eu cael, yn cael eu monitro'n effeithiol. Cymerir camau i wneud iawn am hyn os bydd rhywbeth yn destun pryder neu os bydd problem barhaus.<br><br>• Os bydd angen, ceisir cyngor arbenigol ychwanegol i ategu'r gofal. Cedwir at driniaethau a chymorth rhagnodedig, gan gynnwys unrhyw ddeiet arbenigol a dulliau paratoi bwyd a diod. |

| | |
|---|---|
| | **Rhoddir cymorth i unigolion ofalu am iechyd eu croen yn briodol**<br><br>• Os bydd angen asesu iechyd croen, dylid defnyddio dulliau asesu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal yr asesiad. Os bydd asesiad yn dangos bod risg i unigolion, dylid eu rhoi ar fwndel SKIN (Iechyd Cyhoeddus Cymru).<br><br>• Bydd gan staff sy'n ~~cwblhau'r~~ gwneud yr asesiad iechyd croen y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer asesu'r croen, a rheoli wlserau/clwyfau pwyso a'u trin.<br>• Bydd y cyfarpar lliniaru pwysau yn briodol, yn gweithio'n effeithlon ac yn berthnasol i'r sgôr asesu risg.<br><br>• Os bydd angen, ceisir cyngor arbenigol ychwanegol i ategu'r gofal.<br><br>**Rhoddir cymorth i unigolion gynnal a rheoli eu hymataliaeth**<br><br>• Lle y bo hynny’n briodol, rhoddir cymorth i unigolion fod mor annibynnol ag y bo modd drwy ddilyn trefn bersonol ar gyfer mynd i'r toiled.<br><br>• Rhoddir gofal a chymorth i bobl reoli eu hymataliaeth gan wneud hynny mewn ffordd sy'n gwarchod urddas a phreifatrwydd yr unigolyn.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod ymataliaeth yn cael ei hasesu lle y bo hynny'n berthnasol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio dulliau cydnabyddedig, a gofynnir am gymorth a chyngor arbenigol ychwanegol lle bydd angen. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd yr argymhellion ynglŷn â rheoli ymataliaeth, gan gynnwys defnyddio cymhorthion a chynnyrch arbenigol, yn cael eu cynnwys yn y cynllun personol a bydd y staff yn dilyn y rheini.<br><br>**Rhoddir cymorth i unigolion adnabod a rheoli amhariad ar y synhwyrau yn briodol**<br><br>• Lle y bo hynny'n briodol, bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unigolion yn cael archwiliadau perthnasol a byddant yn rhoi cymorth i gael adolygiadau parhaus.<br><br>• Os bydd unigolion wedi cael cymhorthion fel cymhorthion clyw a sbectol, bydd staff yn deall eu pwysigrwydd a byddant yn rhagweithiol o ran rhoi cymorth i unigolion eu defnyddio.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unrhyw gymhorthion yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol fel eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n ystyried yr effaith bosibl ar unigolion sydd ag amhariad ar y synhwyrau wrth gynllunio'r amgylchedd, er enghraifft effeithiau sŵn mewn ardaloedd cymunedol ar unigolion sydd ag amhariad ar y clyw.<br><br>**Rhoddir cymorth i unigolion sydd ag amhariad gwybyddol**<br><br>• Mae darparwyr gwasanaethau yn cydnabod ac yn deall anghenion arbenigol unigolion sydd wedi cael eu nodi fel pobl ag amhariad gwybyddol.  Bydd y darparwr gwasanaeth yn darparu gweithgareddau therapi unigol a rhaglenni penodol er |

| | |
|---|---|
| | mwyn atal neu reoli cyflwr neu ymddygiad penodol ac er mwyn gwella ansawdd bywyd i unigolion.<br><br>• Seilir y gofal a'r cymorth ar ganllawiau cydnabyddedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ar fframweithiau sy'n berthnasol i amhariad yr unigolyn ac yn unol â datganiad o ddiben y darparwr gwasanaethau.<br><br>• Bydd staff yn cael hyfforddiant priodol i ddeall amhariad gwybyddol. Bydd hyn yn cynnwys adnabod poen a rheoli poen, a sut y mae cyfathrebu ag unigolion sydd ag amhariad gwybyddol, a defnyddio strategaethau i roi cymorth iddynt sicrhau canlyniadau a llesiant cadarnhaol.<br><br>• Rhoddir cymorth ac anogaeth barhaus i unigolion i'w cymell neu i'w galluogi i gymryd rhan mewn bywyd bob dydd.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau’n ceisio cyngor ac asesiadau gan arbenigwyr, lle y bo hynny’n briodol, i unigolion sy’n wynebu anawsterau parhaus a/neu fod eu cyflwr gwybyddol yn gwaethygu. Bydd canlyniad unrhyw asesiad yn sbarduno adolygu'r cynllun personol a'r cymorth a roddir i'r unigolyn.<br><br>**Bydd unigolion yn cael cymorth i gael hylendid y geg ac iechyd deintyddol effeithiol**<br><br>• Bydd unigolion yn cael eu hannog i ofalu am eu dannedd a'u ceg a, lle y bydd angen, rhoddir cymorth iddynt wneud hynny.<br><br>• Bydd cyflenwadau priodol ar gyfer gofal iechyd y geg ar gael yn rhwydd ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd gofal iechyd y geg yn cael ei fonitro fel rhan o'r camau gofal a gwella dyddiol a gymerir os bydd problemau'n codi.<br>• Lle y bo hynny'n briodol, rhoddir cymorth i unigolion fanteisio ar brofion iechyd deintyddol rheolaidd neu i ymweld â deintydd os amheuir eu bod mewn poen neu fod eu dannedd yn pydru.<br><br>**Rhoddir cymorth priodol i unigolion yn ystod diwrnodau olaf eu hoes**<br><br>• Lle y bo hynny'n briodol, fel rhan o asesiad y darparwr, bydd darparwyr gwasanaethau'n canfod beth yw dymuniadau a dewisiadau'r unigolyn ynghylch gofal a chymorth ddiwedd eu hoes.<br>• Bydd y cynllun personol yn adlewyrchu datganiadau ymlaen llaw a phenderfyniadau ymlaen llaw gan gynnwys manylion unrhyw bŵer atwrneiaeth barhaus gyfreithiol sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant.<br>• Bydd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn adlewyrchu unrhyw ganllawiau cenedlaethol cyfredol.<br>• Bydd unigolion yn cael treulio diwrnodau olaf eu hoes yn y gwasanaeth os dyna yw eu dymuniad, neu gartref, oni fydd rheswm meddygol dros beidio â gwneud hyn.<br>• Bydd unigolion yn cael cymorth yn eu hystafell eu hunain a bydd modd iddynt gael cwmni pobl eraill sy'n bwysig iddynt yn ôl eu dymuniad.<br>• Bydd y darparwyr gwasanaethau'n cydweithio ag asiantaethau eraill i ddarparu gofal diwedd oes ac unrhyw ymyriad lliniarol. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd y darparwyr gwasanaethau'n cyfathrebu'n effeithiol ag aelodau'r teulu a chynrychiolwyr ynghylch trefniadau gofal lliniarol a gofal diwedd oes. |

| **Rheoliad 22** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Parhad gofal**<br><br>**22.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod unigolion yn cael parhad gofal sy'n rhesymol i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth. | • Bydd gan y darparwyr gwasanaethau y staff a'r adnoddau ar gael i ddarparu gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben a diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn.<br><br>• Bydd unigolion yn adnabod y staff yn y gwasanaeth. Rhoddir gwybod iddynt am newidiadau i'r staff sy'n effeithio arnynt a bydd gweithwyr newydd yn cael eu cyflwyno iddynt fel mater o drefn.<br><br>• Bydd trefniadau staffio'n darparu cysondeb o ran gofal a chymorth. Os defnyddir staff ~~llanw~~cyflenwi, byddant yn gyfarwydd â'r unigolion y byddant yn gofalu amdanynt ac yn rhoi cymorth iddynt, ac yn eu deall yn dda.<br><br>• |

| **Rheoliad 23** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Gwybodaeth**<br><br>**23.**~~—~~ (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gan unigolion yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud neu i gymryd rhan mewn asesiadau, cynlluniau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt a sut y maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unigolion yn gallu gwneud penderfyniadau am eu bywydau, a'u bod yn cael cymorth i wneud hyn lle y bo angen.<br><br>• Caiff unigolion gyfle a chymorth i'w galluogi i gyfrannu eu barn am sut y mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal o ddydd i ddydd.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod trefniadau ar waith sy'n galluogi unigolion i gael gafael ar wasanaethau |

| | |
|---|---|
| (2) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod ar gael yn yr iaith, yr arddull, y cyflwyniad a'r fformat priodol, gan roi sylw i—<br>a) natur y gwasanaeth fel y'i disgrifir yn y datganiad o ddiben;<br>b) y lefel o ddealltwriaeth yr unigolyn a'i allu i gyfathrebu;<br>c) yn achos plentyn, oedran y plentyn.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod yr unigolyn yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w alluogi i ddeall yr wybodaeth a ddarperir. | eirioli perthnasol neu grwpiau hunan-eiriolaeth (os ydynt yn dymuno hynny) a chymorth ar gyfer eu hanghenion cyfathrebu i'w galluogi i wneud penderfyniadau am eu bywyd eu hunain. |

| Rheoliad 24 | Canllawiau |
|---|---|
| **Iaith a chyfathrebu**<br>**24.**— (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith unigolion.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir mynediad i unrhyw gymhorthion a chyfarpar sy'n angenrheidiol i unigolyn i hwyluso'r ffordd y mae'r unigolyn yn cyfathrebu ag eraill. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i helpu unigolion gyda'u hanghenion iaith a chyfathrebu penodol yn unol â'r datganiad o ddiben. Os bydd angen, bydd hyn yn cynnwys rhoi camau ar waith i sicrhau bod unigolion yn gallu cyfathrebu'n ystyrlon. Mae hyn yn cynnwys:<br>○ iaith yr unigolyn o ran angen, a'i ddewis iaith;<br>○ dulliau cyfathrebu ychwanegol fel y System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS), Triniaeth ac Addysg i Blant ac Awtistiaeth ac Anawsterau Cyfathrebu Cysylltiedig (TEACCH), Makaton, Iaith Arwyddion Prydain (BSL), lle bo'n briodol.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n nodi anghenion cyfathrebu unigolyn wrth benderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu ei anghenion.<br>• Gall unigolion ddeall staff pan fyddant yn cyfathrebu â hwy.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod cymhorthion a chyfarpar sydd eu hangen i helpu unigolyn i gyfathrebu ar |

| | |
|---|---|
| | gael, eu bod yn hygyrch, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod staff yn gwybod sut i'w defnyddio.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n dangos tystiolaeth o'u hymrwymiad i gynnig, neu i weithio tuag at gynnig, gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n cynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, neu'n gweithio tuag at gynnig hynny. |

| **Rheoliad 25** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Parch a sensitifrwydd**<br><br>**25.**—  (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd.<br>(2) Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i,—<br>a) parchu preifatrwydd ac urddas yr unigolyn;<br>b) parchu hawliau'r unigolyn i gyfrinachedd;<br>c) hybu ymreolaeth ac annibyniaeth yr unigolyn;<br>d) rhoi sylw i unrhyw nodweddion gwarchodedig perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yr unigolyn. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau:<br>  ○ bod pobl yn gwrando ar unigolion ac yn cyfathrebu â hwy mewn ffordd gwrtais a pharchus ac mai'r gofal a'r cymorth a roddir iddynt yw prif ffocws sylw'r staff;<br>  ○ a bod unigolion yn cael eu trin gyda pharch ac yn teimlo bod gwerth yn cael ei roi arnynt.<br><br>• Bydd unigolion y mae angen darparu gofal corfforol personol ar eu cyfer yn cael gofal o'r fath mewn ffordd urddasol gan barchu eu dymuniadau personol. Dylid cytunoCytunir ar hyn â'r unigolyn a'i gofnodi yn ei gynllun personol.<br><br>• Rhoddir anogaeth i unigolion gymryd rhan mewn tasgau bob dydd a chyfrannu eu barn, os ydynt yn dymuno, ynglŷn â'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg.<br><br>• Darperir cyfarpar arbenigol a thechnoleg neu sicrheir eu bod ar gael yn hwylus er mwyn galluogi unigolion i alw am gymorth a galluogi pobl i reoli eu hanghenion eu hunain. |

## 1.6 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu (Rhan 8)

Bwriad Rhan 8 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod gan ddarparwyr gwasanaethau y mecanweithiau effeithiol ar waith i ddiogelu unigolion agored i niwed y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer.

Bydd hyn yn cynnwys trefniadau sydd:

- yn rhoi cymorth ihybu diogelwch a llesiant unigolion agored i niwed sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- yn cefnogi ac yn sylfaen i wybodaeth y staff a gwirfoddolwyr, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o ran sylwi ar y peryglon a'r camau i'w cymryd pan gaiff cam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol ei amauganfod neu ei ganfodamau;
- yn sicrhau bod y darparwr gwasanaeth yn cydweithio â phartneriaid i atal a chymryd camau pan gaiff cam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol ei amauganfod neu ei ganfod.amau.

Mae'r trefniadau'n cydnabod y gallai risgiau godi o fewn y gwasanaeth neu gan eraill.

Mae Rheoliad 32 yn nodi'r diffiniadau o 'gamdriniaeth', 'esgeulustod' a 'thriniaeth amhriodol'. Mae'n esbonio mewn perthynas â phlentyn y gall 'camdriniaeth hefyd gynnwys unrhyw fath arall o 'niwed' o fewn ystyr adran 197(1) o Ddeddf 2014.

| Rheoliad 26 | Canllawiau |
|---|---|
| **Diogelu – gofyniad cyffredinol**<br><br>**26.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol. | • Pan fyddant yn dechrau defnyddio'r gwasanaeth, rhoddir gwybodaeth i unigolion a'u cynrychiolwyr am ddiogelu, sut y mae codilleisio pryder, gan ddweud wrthynt fod diogelu, a'r cymorth sydd ar gael i'w galluogi i wneud hynny. (gan gynnwys sut i gael gafael ar wasanaethau eirioli).<br><br>• Bydd y staff a gwirfoddolwyr yn gallu cael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu sydd wedi'u diweddaru ac yn cael cefnogaeth i weithredu yn unol â'r rhain.<br><br>• Adeg eu sefydlu, bydd y staff yn cael hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i ddeall eu cyfrifoldeb i ddiogelu ac amddiffyn unigolion agored i niwed.. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau diogelu mewnol a lleol gan gynnwys sut y mae lleisio codi |

| | |
|---|---|
| | pryder (diogelu a sut y mae polisi chwythu'r chwiban). y darparwr gwasanaeth yn cefnogi mynegi pryder am aelod o staff neu wirfoddolwr.<br><br>• Bydd y staff yn cael eu hyfforddi'n gyson yn unol â'r argymhelliontrefniadau diogelu lleol, ac yn unol â hyfforddiant diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru, a safonau dysgu a datblygu.<br><br>• Bydd y staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol am leisio prydergodi pryderon diogelu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i staff a gwirfoddolwyr sydd am leisio godi pryder ynghylch diogelu ( (gan gynnwys, yn unol â'u polisi chwythu'r chwiban).<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i asesu a rheoli risgiau i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i gymryd rhan yn y broses ddiogelu.<br><br>• Bydd cofnodion ynghylch atgyfeiriadau a chanlyniadau diogelu'n cael eu cadw er mwyn gallu goruchwylio diogelu o fewn y gwasanaeth a chraffu arno. Rhaid i'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol oruchwylio oedolion/plant agored i niweddiogelu unigolion a rhaid i hynny ddigwydd o fewn y strwythur llywodraethu, gan sefydlu trefniadau goruchwylio ar lefel y bwrdd.<br><br>• Bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod canlyniadau sy'n codi wrth atgyfeirio unrhyw achos yn ymwneud â diogelwch yn cael eu cyfleu i'r unigolyn mewn dull sy'n briodol i'w oed a lefel ei ddealltwriaeth ac yn ystyried ei gyflwr penodol ac unrhyw |

| | |
|---|---|
| | amhariad o ran cyfathrebu. Caiff hyn ei gyfleu hefyd i unrhyw gynrychiolwyr (lle bo hynny'n briodol). |

| Rheoliad 27 | Canllawiau |
|---|---|
| **Polisïau a gweithdrefnau diogelu**<br><br>**27.**— (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle—<br>a) ar gyfer atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, a<br>b) ar gyfer ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.<br>(6) Yn y rheoliad hwn, cyfeirir at bolisïau a gweithdrefnau o'r fath fel polisïau a gweithdrefnau diogelu.<br>(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.<br>(8) Yn benodol, pan fo honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>a) gweithredu yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu,<br>b) cymryd camau gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch pob unigolyn y darperir gofal a chymorth iddo,<br>c) gwneud atgyfeiriadau priodol at asiantaethau eraill,<br>d) cadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir. | • Bydd polisi a gweithdrefngweithdrefnau diogelu cyfredol ar waith.<br><br>• Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer oedolion a phlant. Dylent adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chyd-fynd â hwy.<br><br>• -Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth o ran nodi, derbynymateb i a rhoi gwybod am honiadau o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol neu unrhyw amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff a gwirfoddolwyr am y camau i'w cymryd a'r mecanweithiau ar gyfer cyfeirio pobl at yr awdurdod lleol ac at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill.<br><br>• Bydd y prosesau goruchwylio staff yn ailedrych ar weithdrefnau diogelu yn rheolaidd ac yn ceisio nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yng ngwybodaeth staff.<br><br>• Os bydd unrhyw honiad neu dystiolaeth o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol yn y gwasanaeth neu fel arall, bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau y cymerir camau ar unwaith i sicrhau diogelwch unigolion y darperir gofal a chymorth iddynt, a bydd yn atgyfeirio'n briodol i asiantaethau |

| | |
|---|---|
| (9) Pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i blant, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle—<br>a) polisi ar atal bwlio;<br>b) gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiad o fwlio;<br>c) y weithdrefn sydd i gael ei dilyn pan fo unrhyw blentyn y darperir llety iddo yn absennol heb ganiatâd. | eraill (a all gynnwys awdurdod lleol) i sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unigolion yn gwybod am eu hawl i gael eiriolaeth broffesiynol annibynnol wrth godi pryder diogelu. |

| **Rheoliad 28** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Cefnogi unigolion i reoli eu harian**<br>**28.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ynghylch cefnogi unigolion i reoli eu harian a rhaid iddo sicrhau y darperir y gwasanaeth yn unol â'r polisi hwnnw a'r gweithdrefnau hynny.<br>(2) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol gan y rheoliad hwn iddynt fod yn eu lle nodi'r camau sydd i gael eu cymryd i alluogi a chefnogi pobl i reoli eu harian eu hunain ac i amddiffyn unigolion rhag camdriniaeth ariannol.<br>(2A) Pan fo gwasanaeth yn darparu llety ar gyfer plant, rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn nodi'r camau y bydd y darparwr gwasanaeth yn eu cymryd i sicrhau y caiff cynilion a wneir gan neu ar ran plant eu goruchwylio a'u monitro'n ddigonol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cadw cofnodion o gynilion (a gwariant o gynilion) a throsglwyddo'r cofnodion hyn pan ddaw lleoliad i ben.<br>(3) Pan fo arian unigolyn yn cael ei ddal gan y darparwr gwasanaeth at unrhyw ddiben (ac eithrio arian a ddelir at ddiben talu ffioedd sy'n daladwy gan yr unigolyn yn unol ag unrhyw | • Bydd polisi a gweithdrefnau'n gosod trefniadau ar gyfer rhoi cymorth i unigolion reoli eu harian. Mae hyn yn cynnwys:<br>○ sut y mae unigolion yn cael anogaeth a chefnogaeth i ymdrin â'u materion ariannol eu hunain yn ôl eu dymuniad/lle bydd modd;<br>○ sut y rhoddir cymorth i unigolion, gan gynnwys agor a rheoli cyfrifon banc unigol, cyllidebu a gwneud penderfyniadau am wario;<br>○ sut y rhoddir cymorth i unigolion ddeall a rheoli unrhyw beryglon cysylltiedig;<br>○ sut y bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y staff hynny nad oes yn rhaid iddynt roi cymorth i'r unigolyn reoli ei arian neu eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth neu'n gysylltiedig ag ef yn cael eu hatal rhag ymwneud â materion ariannol yr unigolion.<br>• Os darperir llety i blant, bydd y darparwyr gwasanaethau yn gwneud yn siŵr bod trefniadau ar waith i oruchwylio a monitro cynilion y plant. |

| | |
|---|---|
| gytundeb â’r darparwr gwasanaeth), rhaid i’r polisi a’r gweithdrefnau sy’n ofynnol gan y rheoliad hwn ddarparu—<br>a) bod yr arian yn cael ei ddal mewn cyfrif yn enw’r unigolyn neu mewn cyfrif sy’n golygu bod modd gwahaniaethu’n glir rhwng arian pob unigolyn;<br>b) nad yw unrhyw gyfrif o’r fath yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â rheoli’r gwasanaeth.<br>(4) Rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau cyn belled ag y bo’n ymarferol nad yw personau sy’n gweithio yn y gwasanaeth yn gweithredu fel asiant i unigolyn. | • Os darperir llety i blant, bydd y polisïau a’r gweithdrefnau yn nodi:<br>○ sut y rhoddir cymorth i’r plentyn ddeall a chael gafael ar unrhyw lwfansau ariannol y gallai fod ganddo hawl iddynt, lle bo hynny’n berthnasol i’r plentyn;<br>○ sut y bydd cofnodion a derbynebau gwariant yn ymwneud â chynilion plentyn yn cael eu trin pan fydd lleoliad yn dod i ben.<br>• Os na fydd unigolion yn gallu rheoli eu materion ariannol eu hunain, cedwir cofnodion a derbynebau ar gyfer unrhyw drafodion ariannol a wneir ar eu rhan.<br>• Os bydd staff yn rhoi cymorth i unigolion reoli eu harian, bydd hyn yn cael ei gofnodi yng nghynllun personol yr unigolyn.<br>• Bydd trefniadau ar waith i oruchwylio ac adolygu'r gwaith o reoli materion ariannol gan y darparwr gwasanaethau.<br>• Os bydd y gwasanaeth yn ymdrin ag arian unigolion, bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau na fydd materion ariannol personol yr unigolion yn cael eu cronni gyda materion ariannol y gwasanaeth.<br>• Cedwir arian mewn cyfrif yn enw’r unigolyn (neu mewn cyfrif lle mae modd gwahaniaethu’n glir rhwng arian unigolion), a bydd yn cael ei wario yn ôl ei ddymuniad. Cedwir cofnodion a derbynebau priodol.<br>• Bydd trefniadau ar waith i gadw arian a phethau gwerthfawr yn ddiogel. Cedwir cofnodion o unrhyw eiddo a drosglwyddir i'w gadw'n ddiogel. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd trefniadau ar waith i unigolion gael gafael ar gymorth annibynnol a chyngor (gan gynnwys eiriolaeth, lle bo'n briodol) ynghylch eu materion ariannol, gan gynnwys ewyllysiau, cymynroddion neu etifeddiaeth.<br><br>• Ni fydd staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth neu'n ymwneud â'r gwasanaeth yn gweithredu fel asiant (ar ran yr unigolyn) oni bai fod ganddynt yr awdurdod cyfreithiol i wneud hynny.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau na chaiff arian a roddir neu a gesglir yn benodol er budd yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyffredinol. |

| **Rheoliad 29** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Y defnydd priodol o reolaeth ac ataliaeth**<br><br>**29.**— (1) Ni chaniateir darparu gofal a chymorth mewn ffordd sy'n cynnwys gweithredoedd y bwriedir iddynt reoli neu atal unigolyn oni bai bod y gweithredoedd hynny—<br>a) yn angenrheidiol i atal risg o niwed a berir i'r unigolyn neu i unigolyn arall,<br>b) yn ymateb cymesur i risg o'r fath.<br><br>(6) Ni chaniateir defnyddio rheolaeth neu ataliaeth oni bai ei bod yn cael ei chyflawni gan staff sydd wedi eu hyfforddi yn y dull rheolaeth neu ataliaeth a ddefnyddir.<br><br>(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi ar ddefnyddio rheolaeth neu ataliaeth a sicrhau bod unrhyw reolaeth neu ataliaeth a ddefnyddir yn cael ei chyflawni yn unol â'r polisi hwn. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod dull gweithredu cadarnhaol ac adeiladol yn cael ei fabwysiadu i roi cymorth gydag ymddygiad unigolyn. -Caiff hyn ei lywio gan waith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd sefyllfaoedd yn codi lle mae arferion cyfyngol yn gwbl angenrheidiol.<br><br>• Bydd unrhyw strategaethau neu gamau a gymerir i roi cymorth gydag ymddygiad yr unigolyn yn gyson â–:<br>  ○ diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn,<br>  ○ llesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt.<br><br>• Mae polisi ar waith er mwyn defnyddio dulliau rheoli, atal neu gyfyngu yn briodol sy'n adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol cyfredol. |

(8) Rhaid i gofnod o unrhyw ddigwyddiad y defnyddir rheolaeth neu ataliaeth ynddo gael ei wneud o fewn 24 awr.

(9) At ddibenion y rheoliad hwn, mae person yn rheoli neu'n atal unigolyn os yw'r person hwnnw—

a) yn defnyddio, neu'n bygwth defnyddio, grym i sicrhau bod gweithred yn cael ei gwneud y mae'r unigolyn yn ei gwrthsefyll, neu

b) yn cyfyngu ar ryddid symud yr unigolyn, pa un a yw'r unigolyn yn gwrthsefyll ai peidio, gan gynnwys defnyddio dulliau corfforol, mecanyddol neu gemegol.

- Bydd staff yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ynghylch defnyddio rheolaeth, ~~ac~~ ataliaeth neu arferion cyfyngol; a byddant yn eu deall ac yn eu dilyn.

- Fel rhan o'u rhaglen sefydlu, bydd staff yn cael hyfforddiant ar gymorth ymddygiad cadarnhaol sy'n berthnasol i'w rôl ~~er mwyn sicrhau mai~~. Dim ond pan fydd hynny'n gwbl angenrheidiol y defnyddir rheolaeth, ataliaeth ac arfer cyfyngol ~~dim ond mewn ffordd ragweithiol, a phan fydd hynny'n gwbl angenrheidiol, y defnyddir unrhyw ddulliau rheoli neu atal~~, a hynny yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol.

- Bydd staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y polisi a'r gweithdrefnau yn unol ag unrhyw newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth.

- Os bydd darparwyr gwasanaethau'n defnyddio mathau o reolaeth, ataliaeth neu arfer cyfyngol, ~~dulliau rheoli neu gyfyngu,~~ bydd modd iddynt wirio:
  - ~~eu bod yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ddull rhagweithiol i roi cymorth ar gyfer ymddygiad;~~
  - eu bod yn gymesur â'r risg o niwed, a difrifoldeb y niwed hwnnw, i'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu i rywun arall;
  - eu bod yn ystyried yr asesiad o anghenion yr unigolyn a'i allu i gydsynio i driniaeth o'r fath;
  - eu bod yn dilyn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.

- Os na fydd gan unigolyn alluedd meddyliol i gydsynio â'r trefniadau ar gyfer ei ofal a'r cymorth iddo, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ddilyn yr egwyddorion a'r darpariaethau statudol yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, lle y bo hynny'n briodol.

| | |
|---|---|
| | Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unrhyw weithredoedd o ofal a chymorth yn digwydd er budd pennaf yr unigolyn a bod awdurdod cyfreithiol ar waith os bydd angen hynny.<br><br>• Bydd y darparwyr gwasanaethau a'r staff yn monitro ac yn adolygu'n rheolaidd yr agwedd at ~~ddulliau atal a chyfyngu a'r~~reolaeth, ataliaeth neu arfer cyfyngol a'r ffordd y caiff y dulliau hyn eu defnyddio, gan adrodd am hyn o fewn eu fframwaith llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys:<br>  ○ manylion y digwyddiad a'r camau a gymerwyd i ymateb iddo;<br>  ○ digon o fanylion er mwyn gallu dadansoddi ac adolygu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, yn ogystal â llywio adolygiad ehangach o'r gwasanaethau a ddarperir.<br><br>• Bydd cofnodion ar ddefnyddio ~~dulliau rheoli ac atal~~rheolaeth, ataliaeth ac arfer cyfyngol yn cael eu hadolygu, a bydd adrodd yn eu cylch o fewn yr adolygiad o ansawdd gofal.<br><br>• Bydd darparwyr llety diogel yn gweithredu'n unol â thelerau'r Gorchymyn Llety Diogel a wneir gan y llys. |

| Rheoliad 30 |
|---|
| **Gwaharddiad ar y defnydd o gosb gorfforol**<br><br>**30.**—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth sy'n darparu gwasanaeth cymorth cartref, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd sicrhau nad yw personau sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol ar unrhyw adeg yn erbyn unrhyw blentyn y darperir llety iddo.<br><br>(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth sy'n darparu gwasanaeth cymorth cartref sicrhau nad yw personau sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol ar unrhyw adeg yn erbyn unrhyw blentyn y darperir gofal a chymorth iddo. |

| Rheoliad 31 | Canllawiau |
|---|---|
| **Amddifadu o ryddid**<br><br>**31.** Ni chaniateir amddifadu unigolyn o'i ryddid at ddiben cael gofal a chymorth heb awdurdod cyfreithlon. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n gweithredu bob amser yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ogystal â Chod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer atodol ar Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.<br><br>Bydd staff yn cael eu hyfforddi ar adegau priodol ac yn unol ag unrhyw newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth i ddeall eu cyfrifoldeb yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. |

| Rheoliad 32 |
|---|
| **Dehongli Rhan 8**<br><br>**32.** Yn y Rhan hon—<br><br>ystyr "camdriniaeth" ("*abuse*") yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol ac, mewn perthynas â phlentyn, unrhyw niwed arall.<br><br>At ddibenion y diffiniad hwn— |

a) mae “camdriniaeth ariannol” (“*financial abuse*”) yn cynnwys—
   i. bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;
   ii. bod person yn cael ei dwyllo;
   iii. bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;
   iv. bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;

b) mae i “niwed” (“*harm*”) yr un ystyr ag yn adran 197(1) o Ddeddf 2014;

mae “triniaeth amhriodol” (“*improper treatment*”) yn cynnwys gwahaniaethu neu ataliaeth anghyfreithlon, gan gynnwys amddifadu amhriodol o ryddid o dan delerau Deddf Galluedd Meddyliol 2005([4]).

mae i “esgeulustod ” (“*neglect*”) yr un ystyr ag yn adran 197(1) o Ddeddf 2014.

**4** 2005 p. 9. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/pdfs/ukpga_20050009_en.pdf

## 1.7 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau nad ydynt ond yn gymwys pan ddarperir llety (Rhan 9)

Bwriad Rhan 9 o'r Rheoliadau yw sicrhau, lle mae llety yn cael ei ddarparu, fod unigolion yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant yn barhaus.

| Rheoliad 33 | Canllawiau |
|---|---|
| **Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill**<br><br>**33.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i'w ddarparu.<br>(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo roi trefniadau yn eu lle er mwyn i unigolion—<br>a) cael eu cofrestru ag ymarferydd cyffredinol,<br>b) cael eu rhoi o dan ofal ymarferydd deintyddol cofrestredig,<br>c) gallu cael gafael ar driniaeth, cyngor a gwasanaethau eraill gan unrhyw broffesiynolyn gofal iechyd yn ôl yr angen, a<br>d) cael eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau o'r fath.<br>(3) Yn achos gwasanaeth cartref gofal sy'n darparu llety yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant neu yn achos gwasanaeth llety diogel, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddynodi aelod o staff i fod yn "gweithiwr cyswllt" ar gyfer pob plentyn a rhaid iddo sicrhau—<br>a) bod gweithiwr cyswllt plentyn yn cymryd rhan mewn unrhyw adolygiad sy'n ymwneud ag ystyried cynnydd addysgol y plentyn, pa un a yw'n cael ei gynnal o dan reoliadau a wneir o dan adran 102 o Ddeddf 2014, Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 neu fel arall; | • Pan fydd unigolion yn symud i gyfeiriad newydd, bydd darparwyr gwasanaethau'n eu helpu i gofrestru gyda meddyg teulu o ddewis yr unigolyn.<br><br>• Os bydd gofyn, darperir cymorth i gael gafael ar wasanaethau ychwanegol gan weithwyr proffesiynol iechyd a pherthynol i iechyd; ~~rhaid gwneud~~a gwneir hyn yn brydlon. Mae hyn yn cynnwys gofyn am gymorth ar ran unigolion neu eu helpu i gael gafael ar wasanaethau.<br><br>• Rhoddir cymorth i unigolion a chefnogaeth i fynd am brofion iechyd a chyfranogi ynddynt ac mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hybu iechyd, lle y bo hynny'n briodol.<br><br>• Bydd staff yn ymwybodol o'u rôl hybu iechyd.<br><br>• Bydd unigolion yn cael cymorth a chefnogaeth i fynd i apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a phroffesiynau perthynol. Bydd hyn yn cynnwys yn benodol, ond nid y rhain yn unig; gwasanaethau deintyddiaeth, offthalmoleg, lleferydd ac iaith, ffisiotherapi, seicoleg, podiatreg, gwasanaethau iechyd meddwl neu therapiwtig ac unrhyw wasanaethau gofal lliniarol.<br><br>• Cedwir cofnodion sy'n berthnasol i ymgyngoriadau proffesiynol (gan gynnwys, lle y bo'n bosibl, unrhyw gamau a gymerwyd yn |

| | |
|---|---|
| b) bod gweithiwr cyswllt plentyn yn cymryd rhan mewn unrhyw adolygiad sy'n ymwneud ag ystyried unrhyw agwedd ar iechyd y plentyn, pa un a yw'n cael ei gynnal o dan reoliadau a wneir o dan adran 102 o Ddeddf 2014, Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 neu fel arall.<br><br>(4) Ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwn, ystyr "gweithiwr cyswllt" yw aelod o staff gwasanaeth cartref gofal ar gyfer plant sydd ar lefel briodol uchel a chanddo gyfrifoldeb penodol am amddiffyn a hybu iechyd a lles addysgol plentyn unigol ac am gydgysylltu â darparwyr addysg a gofal iechyd ar ran y plentyn hwnnw. | sgil hyn) a chedwir gohebiaeth berthnasol, lle bo hynny ar gael, i ddarparu cofnod iechyd clir ar gyfer yr unigolyn.<br><br>• Os oes nifer o weithwyr proffesiynol yn ymwneud â gofal a chymorth unigolyn, bydd y darparwr gwasanaeth yn sefydlu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer atgyfeirio a chynghori. Cofnodir hyn a bydd yn glir i'r unigolyn a'r staff sy'n ymwneud â'r gofal a'r cymorth.<br><br>• Bydd unigolion yn cael cymorth i fanteisio ar gyfleusterau ychwanegol, lle bynnag y byddant ar gael, i hybu iechyd a llesiant neu eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol, er enghraifft, i fynd i ganolfannau hamdden, dosbarthiadau ffitrwydd neu weithgareddau therapiwtig eraill. |

## 1.8 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio (Rhan 10)

Bwriad Rhan 10 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael cymorth gan nifer briodol o staff sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau y canlynol ar waith:

- polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio;
- arferion trwyadl ar gyfer recriwtio ac archwilio cefndir staff;
- strwythur rheoli a staffio sy'n ategu'r datganiad o ddiben ac sy'n berthnasol i anghenion unigolyn;
- strwythur rheoli, systemau a phrosesau ar gyfer sefydlu staff, eu goruchwylio'n barhaus, eu hyfforddi a'u datblygu.

| Rheoliad 34 | Canllawiau |
|---|---|
| **Staffio – gofynion cyffredinol**<br><br>**34.** —(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad addas wedi eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth, gan roi sylw—<br>a) i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth;<br>b) i anghenion gofal a chymorth yr unigolion;<br>c) i gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;<br>d) i ofynion y rheoliadau yn Rhannau 3 i 15.<br>(6) Yn achos gwasanaeth cartref gofal pan fo unrhyw unigolyn y darperir llety iddo wedi cael ei asesu yn rhywun y mae angen gofal nyrsio 24 awr arno, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod nifer digonol o nyrsys cofrestredig sydd â'r cymwysterau addas wedi eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth ar bob adeg.<br>(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth allu dangos y ffordd y mae'r penderfyniad wedi ei wneud o ran— | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau ddull mesuradwy, systematig amlwg ar waith i bennu nifer y staff a'r ystod o sgiliau/cymwysterau sy'n ofynnol er mwyn darparu gofal a chymorth mewn ffordd ddibynadwy i ddiwallu anghenion unigolion a rhoi cymorth iddynt gyflawni eu canlyniadau personol. Mae hyn yn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>◦ y datganiad o ddiben;<br>◦ anghenion asesedig a lefelau dibyniaeth unigolion;<br>◦ yr amgylchedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddarperir;<br>◦ mewn gwasanaethau cymorth cartref, bydd hyn yn cynnwys ystyried lleoliadau daearyddol unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r amser teithio y bydd ei angen ar y staff.<br>◦ y gwahanol lefelau o wybodaeth, sgiliau a chymhwysedd sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion penodol unigolyn ar y cyd ac fel unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys y trefniadau rheoli a nifer y gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol cofrestredig y bydd eu hangen. |

| | |
|---|---|
| a) y mathau o staff a ddefnyddir, a<br>b) niferoedd y staff o bob math a ddefnyddir.<br>(8) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer cefnogi a datblygu staff.<br>(9) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau nad yw cyflogi neu gymryd ymlaen unrhyw bersonau ar sail dros dro neu ar gontract oriau heb eu gwarantu yn atal unigolion rhag cael y parhad gofal y mae'r darparwr wedi penderfynu yn unol â rheoliad 22 ei fod yn rhesymol i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth.<br>(10) Ym mharagraff (5) o'r rheoliad hwn, mae i "contract oriau heb eu gwarantu" yr un ystyr ag yn rheoliad 42. | • Mewn gwasanaethau cartrefi gofal lle gwelir bod gan unigolion anghenion gofal nyrsio, bydd digon o nyrsys cofrestredig ar gael sydd â'r cymhwyster, y profiad, y cymhwysedd a'r sgiliau perthnasol i weithio yn y gwasanaeth i oruchwylio a darparu ar gyfer anghenion yr unigolion hynny.<br>• Mewn gwasanaethau cartrefi gofal pan fo angen gofal nyrsio 24 awr ar unigolion yn dilyn eu hasesu (oherwydd dwysedd, cymhlethdod a/neu lefel acíwt eu hanghenion) bydd y darparwr yn:<br>○ sicrhau bod digon o nyrsys cofrestredig cymwysedig, cymwys a phrofiadol ar gael, yn bresennol ac yn gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal nyrsio'r unigolion bob amser.<br>○ dangos sut y mae wedi pennu nifer a chymhwysedd y nyrsys cofrestredig sy'n cael eu rhoi ar waith.<br>• Bydd lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau'n cael eu hadolygu'n barhaus ac yn cael eu haddasu i ymateb i anghenion ac amgylchiadau unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth i'r rheini newid.<br>• Bydd trefniadau ar waith i ymateb i salwch neu absenoldeb staff er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu a bod unigolion yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol.<br>• Bydd gweithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng sy'n sicrhau bod digon o staff addas ar gael i ymateb i waith brys ac i wneud gwaith arferol y gwasanaeth. |

| Rheoliad 35 | Canllawiau |
|---|---|
| **35. Addasrwydd staff**<br><br>(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth—<br>a) cyflogi person o dan gontract cyflogaeth i weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;<br>b) caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;<br>c) caniatáu i unrhyw berson arall weithio yn y gwasanaeth mewn swydd y gall, yng nghwrs ei ddyletswyddau, gael cysylltiad rheolaidd ynddi ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth neu â phersonau eraill sy'n hyglwyf oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.<br><br>(6) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i weithio yn y gwasanaeth oni bai—<br>a) bod y person yn addas o ran ei uniondeb ac o gymeriad da;<br>b) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i'w wneud;<br>c) bod y person oherwydd ei iechyd, ar ôl i addasiadau rhesymol gael eu gwneud, yn gallu cyflawni'n briodol y tasgau sy'n rhan annatod o'r gwaith y mae wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen ar ei gyfer;<br>d) bod y person wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â phob un o'r materion a bennir yn Rhan 1 i Atodlen 1 a bod yr | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau trwyadl ar waith ar gyfer dethol ac archwilio cefndir pob ymgeisydd am swyddi staff a gwirfoddolwyr er mwyn iddynt allu penderfynu a ddylid eu penodi ai peidio. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth sydd yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau cywirdeb y geirdaon a'r gyflogaeth.<br><br>• Os defnyddir staff asiantaeth, bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod yr un archwiliadau'n cael eu cynnal ar eu cyfer ag a gynhelir ar gyfer staff a gyflogir yn barhaol, a bydd ganddynt dystiolaeth i ddangos bod yr archwiliadau hyn wedi'u gwneud. Gallai hyn gynnwys cadarnhad a rhestrau gwirio a ddarperir gan unrhyw asiantaeth~~, os yw'r rheini'n ddigon dibynadwy a chadarn~~.<br><br>• Bydd gan y darparwr gwasanaeth broses ar waith i'w sicrhau ei hun bod yr asiantaeth yn ddibynadwy ac yn gadarn o ran cynnal y gwiriadau hyn.<br><br>• Rhoddir ystyriaeth gadarnhaol i gynnwys unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth recriwtio staff newydd.<br><br>• Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau broses ar waith i sicrhau bod staff wedi cofrestru'n briodol â rheoleiddiwr proffesiynol a'r cofrestriad hwnnw'n un cyfredol lle bydd gofyn neu, lle y bo hynny'n berthnasol, eu bod ar gofrestr wirfoddol achrededig.<br><br>• Wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, bydd darparwyr gwasanaethau yn penderfynu a oes gan yr unigolyn y sgiliau, |

wybodaeth hon neu'r ddogfennaeth hon ar gael yn y gwasanaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni;

e) yn ddarostyngedig i baragraff (10) o'r rheoliad hwn pan fo'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaeth i reoli'r gwasanaeth, fod y person wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru;

f) yn ddarostyngedig i baragraff (11) o'r rheoliad hwn, pan fo'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaeth (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) ac eithrio fel rheolwr er mwyn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad—

i. â gwasanaeth cartref gofal,
ii. â gwasanaeth llety diogel,
iii. â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, neu
iv. â gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd,

fod y person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru heb fod yn hwyrach na'r dyddiad perthnasol (gweler paragraff (8) am ystyr "y dyddiad perthnasol");";

g) yn ddarostyngedig i baragraff (11) o'r rheoliad hwn, pan fo'r person wedi ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, ac eithrio fel rheolwr, i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad—

i. â gwasanaeth cartref gofal,
ii. â gwasanaeth llety diogel,
iii. â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, neu
iv. â gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd,

fod y person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru heb fod yn hwyrach na'r dyddiad

y cymwysterau a'r cymeriad da sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rôl y mae'n cael ei gyflogi/ei roi ar waith i'w chyflawni.

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unrhyw un nad oes yn rhaid iddynt gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ond a fydd yn rhan o roi gofal a chymorth i ddefnyddiwr gwasanaeth, er enghraifft therapydd galwedigaethol, wedi cael ei wirio yn unol â'r gofynion a nodir yn rheoliad 35(2)(a)-(d).

- Os na fydd staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd mwyach a nodir yn rheoliad 35(2), bydd y darparwyr gwasanaethau yn cymryd camau priodol yn ddi-oed i sicrhau na fydd risg i unigolion. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:
    - hyfforddi a mentora;
    - darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol;
    - defnyddio gweithdrefnau disgyblu.

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r codau ymarfer proffesiynol a, lle y bo hynny'n briodol, bydd darparwyr yn atgyfeirio achosion at y cyrff proffesiynol perthnasol yn achos ~~staff~~ unigolion lle mae amheuaeth ynghylch pa mor addas ydynt.

- Os oes unrhyw bryderon bod ~~aelod o staff~~unigolyn sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi cam-drin neu wedi achosi niwed i unigolyn neu wedi rhoi unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei niweidio, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw gorff cofrestru proffesiynol perthnasol yn cael gwybod gan y darparwr gwasanaeth yn ddi-oed.

- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Grwpiau Agored i Niwed 2006 i gyfeirio aelod staff neu wirfoddolwr at y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd os yw'r

| | |
|---|---|
| perthnasol (gweler paragraff (8A) am ystyr “y dyddiad perthnasol”).<br>(7) Rhaid i gais gael ei wneud ar gyfer y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraffau 2 a 3 o Atodlen 1 (y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn fel tystysgrif GDG) gan neu ar ran y darparwr gwasanaeth at ddiben asesu addasrwydd person ar gyfer y swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1). Ond nid yw’r gofyniad hwn yn gymwys os yw’r person sy’n gweithio yn y gwasanaeth wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel gwasanaeth diweddaru’r GDG).<br>(8) Pan fo person sy’n cael ei ystyried ar gyfer swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru’r GDG, rhaid i’r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif GDG y person at ddiben asesu addasrwydd y person hwnnw ar gyfer y swydd honno.<br>(9) Pan fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru’r GDG, rhaid i’r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif GDG y person o leiaf bob blwyddyn.<br>(10) Pan nad yw person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru’r GDG, rhaid i’r darparwr gwasanaeth wneud cais am dystysgrif newydd GDG mewn cysylltiad â’r person hwnnw o fewn tair blynedd i ddyroddi’r dystysgrif y gwneir cais amdani yn unol â pharagraff (3) ac wedi hynny rhaid i geisiadau pellach o’r fath gael eu gwneud o leiaf bob tair blynedd.<br>(11) Os nad yw unrhyw berson sy’n gweithio yn y gwasanaeth yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach o ganlyniad i beidio â bodloni un neu ragor o’r gofynion ym mharagraff (2), rhaid i’r darparwr gwasanaeth—<br>a) cymryd camau gweithredu angenrheidiol a chymesur i sicrhau y cydymffurfir â’r gofynion perthnasol; | aelod staff neu wirfoddolwr wedi cael ei atal rhag gweithio yn y gwasanaeth (neu os yw gweithiwr wedi ymddiswyddo cyn cael ei ddiswyddo) a bod yr aelod staff neu wirfoddolwr wedi niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed, neu yr ystyrir ei fod yn risg i blentyn neu oedolyn agored i niwed. |

| | |
|---|---|
| b) pan fo'n briodol, roi gwybod—<br>i. i'r corff rheoleiddiol neu broffesiynol perthnasol;<br>ii. i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br>(12) Ym mharagraff (2)(f) o'r rheoliad hwn, "y dyddiad perthnasol" yw naill ai—<br>a) chwe mis o'r dyddiad y dechreuodd y person ei gyflogaeth, neu<br>b) dyddiad diweddarach y mae'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno arno o dan amgylchiadau eithriadol.<br><br>(8A) Ym mharagraff (2)(g) o'r rheoliad hwn, y "dyddiad perthnasol" yw naill ai—<br>a. 6 mis o'r dyddiad y cymerir person ymlaen gyntaf o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth mewn cysylltiad—<br>i. â gwasanaeth cartref gofal ~~a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant,~~,<br>~~â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant,~~<br>ii. â gwasanaeth llety diogel,<br>iii. ~~)~~â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, neu<br>~~—~~â gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, neu<br><br>iv. | |

——unrhyw ddyddiad diweddarach y mae'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno arno o dan amgylchiadau eithriadol.

b.

(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd" ("*the Disclosure and Barring Service*") a'r "GDG" ("*DBS*") yw'r corff a sefydlir gan adran 87(1) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012(5).

(10) Tan 1 Ebrill 2020, nid yw'r gofyniad o dan baragraff (2)(e) i reolwr fod wedi ei gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn gymwys i reolwr sydd wedi ei benodi i reoli ymgymeriad—

(a). y mae person wedi ei gofrestru, neu wedi gwneud cais i gofrestru, mewn cysylltiad ag ef, fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref, a

(b). yr oedd person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef i gynnal asiantaeth nyrsys o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(6) yn union cyn 2 Ebrill 2018 ond nad oedd hefyd wedi ei gofrestru i gynnal asiantaeth gofal cartref.

(11) Nid yw'r gofyniad bod person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â pharagraff (2)(f) ac (g) yn gymwys pan fo'r person wedi ei gyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) neu ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i weithio fel—

a. nyrs, neu

a. b. proffesiynolyn cofrestredig.

(5) 2012 p. 9.

(6) 2000 p. 14.

| Rheoliad 36 | Canllawiau |
|---|---|
| **Cefnogi a datblygu staff**<br><br>**36.** — (1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi yn ei le ar gyfer cefnogi a datblygu staff.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys person y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr)—<br>a) yn cael cyfnod sefydlu sy'n briodol i'w rôl;<br>b) yn cael ei wneud yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ei hun a chyfrifoldebau staff eraill.<br>c) yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n briodol;<br>d) yn cael hyfforddiant craidd sy'n briodol i'r gwaith sydd i gael ei wneud ganddo;<br>e) yn cael hyfforddiant arbenigol fel y bo'n briodol;<br>f) yn cael cymorth a chynhorthwy i gael unrhyw hyfforddiant pellach sy'n briodol i'r gwaith y mae'n ei wneud.<br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir i weithio yn y gwasanaeth yn cael ei gefnogi i gynnal ei gofrestriad â'r corff rheoleiddiol neu alwedigaethol priodol. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod ganddynt raglen sefydlu sy'n rhoi'r adnoddau i bob aelod newydd o staff (gan gynnwysa gwirfoddolwyr) i fod yn hyderus yn eu rolau ac ymarfer, a'u galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant a diogelwch unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.<br><br>• Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn cwblhau'r rhaglen sefydlu berthnasol sy'n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn yr amserlen sydd wedi'i diffinio yn ogystal ag unrhyw raglenni sefydlu sy'n benodol i'r gwasanaeth.<br><br>• Bydd staff yn gallu cael gafael ar gopïau o unrhyw godau ymarfer proffesiynol perthnasol a chanllawiau ymarfer, gan gynnwys unrhyw rhai sydd wedi'i cyhoeddi gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd y safonau sydd yn y codau a'r canllawiau ymarfer hyn yn cael eu hyrwyddo'n frwd.<br><br>• Pan ddefnyddir staff asiantaeth, rhoddir cyflwyniad i'r gwasanaeth iddynt sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:<br>  ○ y datganiad o ddiben;<br>  ○ polisïau a gweithdrefnau craidd;<br>  ○ trefniadau rheoli a goruchwylio.<br><br>• Bydd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ac yn eu deall wrth ddirprwyo gweithgaredd neu pan fydd gweithgaredd yn cael ei ddirprwyo iddynt hwy. Bydd hyn yn cynnwys nyrsys cofrestredig sy'n atebol am unrhyw achos o ddirprwyo gweithgaredd i weithwyr eraill.<br><br>• Dylai Mae staff sy'n cwblhau gwneud gweithgareddau nyrsio gofal iechyd sydd wedi'u dirprwyo fod yn ymwybodol o unrhyw |

god ymarfer a chanllawiau a gyhoeddwyd ~~ir~~ ynglŷn â ~~chwblhau~~ gwneud gweithgareddau wedi’u dirprwyo, ac maent yn cwboh~~h~~adw atynt.

- ~~Rhaid i~~Mae d~~d~~arparwyr gwasanaethau’n- p~~b~~archu annibyniaeth broffesiynol gweithwyr proffesiynol cofrestredig gyda golwg ar ddirprwyo gweithgareddau.

- Bydd staff yn cael eu goruchwylio yn eu rôl i i’w helpu i bwyso a mesur eu hymarfer a sicrhau eu bod yn cynnal safon eu cymhwysedd proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys adborth am eu perfformiad gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

- Bydd staff yn cyfarfod â'u rheolwr llinell neu swyddog cyfatebol, neu aelod uwch o’r staff, ar gyfer goruchwyliaeth un-i-un o leiaf bob chwarter.

- Bydd cyfle i staff nyrsio cofrestredig gael goruchwyliaeth glinigol.

- Bydd pob aelod o staff yn cael eu harfarnu bob blwyddyn a bydd hynny'n gyfle i roi adborth am eu perfformiad a nodi meysydd lle bydd angen hyfforddiant a datblygu er mwyn eu cynorthwyo yn eu rôl.

- Bydd anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu ychwanegol aelodau unigol o'r staff yn cael eu nodi yn ystod mis cyntaf eu cyflogi, ac fe'u hadolygir drwy gyfrwng y broses oruchwylio ac arfarnu.

- Bydd staff yn cael cymorth i ddilyn hyfforddiant, i ddysgu ac i ddatblygu i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl a diwallu anghenion unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i ddefnyddio unrhyw gyfarpar arbenigol.

| | |
|---|---|
| | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n dadansoddi'r anghenion hyfforddi bob blwyddyn (neu'n amlach os bydd angen) er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r cymhwysedd perthnasol i ddiwallu anghenion unigolion yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant a goruchwyliaeth y mae'r staff wedi'i wneud neu y byddant yn ei wneud.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n cynorthwyo'r holl staff i gwblhau, lle y bo hynny'n briodol:<br>  ○ hyfforddiant craidd, er enghraifft, hyfforddiant ar godi a chario a diogelu;<br>  ○ cymwysterau angenrheidiol a fyddai'n eu galluogi i barhau i gyflawni eu rôl;<br>  ○ hyfforddiant a gweithgareddau sy'n ofynnol er mwyn iddynt barhau i ddatblygu'n broffesiynol ac i gyflawni gofynion cofrestru cyrff rheoleiddio proffesiynol, lle bydd hyn yn berthnasol i'w rôl;<br>  ○ hyfforddiant arall y tybir ei fod yn briodol gan y darparwr gwasanaethau;<br>  ○ hyfforddiant craidd ac arbenigol y mae GCC wedi eu nodi ar gyfer eu rôl. |

| **Rheoliad 37** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Cydymffurfio â chod ymarfer y cyflogwr**<br><br>**37.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lynu wrth y cod ymarfer ar y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth bersonau sy'n cyflogi neu sy'n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol, y | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir gyda golwg ar y Cod Ymarfer i Gyflogwyr Staff Gofal Cymdeithasol (cyhoeddiad GCC) a/neu godau ymarfer eraill sy'n berthnasol i gyflogwyr, y gallai GCC eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd. |

| | |
|---|---|
| mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ei gyhoeddi o dan adran 112(1)(b) o'r Ddeddf. | |

| Rheoliad 38 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gwybodaeth ar gyfer staff**<br><br>**38.** . —(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gwybodaeth i bob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu.<br><br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle i wneud staff yn ymwybodol o unrhyw godau ymarfer ynghylch y safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol, y mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru eu cyhoeddi o dan adran 112(1)(a) o'r Ddeddf. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n casglu gwybodaeth ac yn ei darparu ar gyfer y staff a gwirfoddolwyr yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y materion a ganlyn–<br>○ ethos a diwylliant y gwasanaeth;<br>○ yr ymddygiad a ddisgwylir gan staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth;<br>○ rolau a chyfrifoldebau staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth;<br>○ polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth;<br>○ y gofynion o ran cadw cofnodion;<br>○ cyfrinachedd a gofynion diogelu data;<br>○ gweithdrefnau disgyblu;<br>○ trefniadau ar gyfer sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac wedi'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol (gan gynnwys rhoi gwybod am bryderon; diogelu);<br>○ trefniadau ar gyfer pobl yn gweithio ar eu pen eu hunain.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn gallu cael gafael ar y copïau diweddaraf o'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chodau ymarfer, a'u bod yn eu deall. Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff wedi darllen y rhain yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn profiasesu eu dealltwriaeth barhaus ohonynt drwy eu goruchwylio ac adolygu eu perfformiad. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cyflawni eu dyletswyddau'n unol â gofynion polisïau a gweithdrefnau.<br><br>• Bydd yr holl staff a gwirfoddolwyr yn cael disgrifiad swydd ysgrifenedig ~~sy'n~~sy'n datgan eu ~~cyfrifoldebau'n~~cyfrifoldebau'n glir, y dyletswyddau y disgwylir iddynt eu cyflawni ar y pryd ~~a'u~~a'u llinell atebolrwydd.<br><br>• Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd (o leiaf chwe chyfarfod y flwyddyn), caiff y materion a drafodir eu cofnodi a chymerir camau priodol yn eu sgil. |

| Rheoliad 39 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gweithdrefnau disgyblu**<br><br>**39.** —(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi gweithdrefn ddisgyblu yn ei lle a'i gweithredu.<br>(2) Rhaid i'r weithdrefn ddisgyblu gynnwys—<br>a) darpariaeth ar gyfer atal dros dro, a chymryd camau gweithredu heb fod mor bell ag atal dros dro, gyflogai er budd diogelwch neu lesiant pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth;<br>b) darpariaeth bod methiant ar ran cyflogai i adrodd am achos o gamdriniaeth, neu ar amheuaeth o gamdriniaeth, i berson priodol yn sail dros ganiatáu cychwyn achos disgyblu.<br>(3) At ddiben paragraff (2)(b), person priodol yw—<br>a) y darparwr gwasanaeth,<br>b) yr unigolyn cyfrifol,<br>c) swyddog i'r rheoleiddiwr gwasanaethau, | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi a gweithdrefnau disgyblu, yn unol â'r gyfraith cyflogaeth, i ymdrin â pherfformiad ac ymddygiad gweithiwr. Mae hyn yn cynnwys:<br>○ gwybodaeth am yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac annerbyniol a pha gamau a gymerir os bydd ymddygiad staff yn destun pryder.<br>○ Y trefniadau ar gyfer atal aelod staff o'i waith (neu ei drosglwyddo i ddyletswyddau eraill) tra bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i unrhyw honiadau o gamymddwyn difrifol, gan gynnwys honiadau o gam-drin neu bryder difrifol ynghylch diogelwch neu lesiant unigolion.<br>○ Y camau i'w cymryd i fynd i'r afael â phryderon am ymddygiad gwirfoddolwyr.<br><br>• Os bydd y darparwr gwasanaeth yn dilyn camau disgyblu yn erbyn gweithiwr a bod y gweithiwr yn ymadael cyn i'r broses ddisgyblu ddod i ben, ystyrir a fyddai'n briodol cyfeirio'r mater |

| | |
|---|---|
| d) swyddog i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y darperir y gwasanaeth ynddi,<br>e) yn achos cam-drin neu o amheuaeth o gam--drin plentyn, swyddog i'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, neu<br>f) swyddog heddlu. | at yr heddlu, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, GCC neu gorff proffesiynol arall.<br><br>• Os oes amheuaeth am addasrwydd gwirfoddolwr i ymarfer, yn sgil unrhyw gamymddwyn honedig /diffyg gallu sy'n peri pryder, mae'r darparwr gwasanaeth yn cymryd camau priodol ac amserol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:<br>○ darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol;<br>○ dod â'r trefniant gwirfoddoli i ben;<br>○ cyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'r heddlu, lle y bo ~~hynny'n briodol.~~angen.<br><br>• Bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau disgyblu ac unrhyw weithdrefnau cwyno, ac yn eu deall.<br><br>• Bydd adroddiad ysgrifenedig am unrhyw ymchwiliadau disgyblu a'r camau a gymerir yn cael ei gadw ar ffeil y gweithiwr yn unol â'r ddeddfwriaeth ar gyflogaeth a diogelu data. |

## 1.9 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran gwasanaethau cymorth cartref (Rhan 11)

Bwriad Rhan 11 o'r Rheoliadau yw nodi'r gofynion ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i'w ddarparu.

Mae hyn yn cynnwys:

- "amserlen ymweliadau" sy'n amlinellu'r amser a ganiateir ar gyfer pob ymweliad a'r amser a ganiateir ar gyfer teithio rhwng pob ymweliad;
- cynnig y dewis o drefniadau contractiol eraill i weithwyr gofal cartref sydd ar gontractau oriau heb eu gwarantu.

| **Rheoliad 40** |
| --- |
| **Cymhwyso rheoliadau yn y Rhan hon**<br><br>**40.** Nid yw'r rheoliadau yn y Rhan hon ond yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth cymorth cartref y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i'w ddarparu. |

| **Rheoliad 41** | **Canllawiau** |
| --- | --- |
| **Amlinellu amser teithio ac amser gofal**<br><br>**41.** —(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo—<br>a) llunio amserlen ymweliadau mewn cysylltiad â phob gweithiwr gofal cartref sy'n gweithio yn y gwasanaeth; a<br>b) darparu copi o'r amserlen ymweliadau berthnasol i'r gweithiwr gofal cartref y mae'r amserlen honno yn ymwneud ag ef. | • ~~Rhaid i ddarparwyr~~Bydd darparwyr gwasanaethau'n yn sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu amserlen ymweliadau ar gyfer pob gweithiwr gofal cartref yn unol â gofynion rheoliad 41.<br><br>**Ar gyfer amser teithio**<br><br>Bydd darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod yr amseroedd a neilltuir:<br><br>• Yn cydnabod yn realistig y pellter rhwng un lleoliad a'r un nesaf; |

(6) Rhaid i’r amserlen ymweliadau amlinellu’r amser a neilltuir ar gyfer amser teithio, yr amser a neilltuir ar gyfer pob ymweliad ac (os yw’n gymwys) yr amser a neilltuir ar gyfer seibiannau gorffwys.

(7) Rhaid i’r amser a neilltuir ar gyfer amser teithio fod yn ddigonol gan roi sylw i—

a) y pellter rhwng lleoliad un ymweliad sydd wedi ei amserlennu a’r ymweliad nesaf sydd wedi ei amserlennu; a

b) unrhyw ffactorau eraill y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt effeithio ar amser teithio, megis tagfeydd traffig ac argaeledd cyfleusterau parcio yn lleoliad yr ymweliadau sydd wedi eu hamserlennu.

(8) Rhaid i’r amser a neilltuir ar gyfer pob ymweliad—

a) bod yn ddigonol i alluogi i ofal a chymorth gael eu darparu i’r unigolyn yn unol â’i gynllun personol; a

b) peidio â bod yn llai na 30 munud oni bai y bodlonir naill ai amod A, B neu C, fel y’u disgrifir yn adran 8 o’r Ddeddf.

(9) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o’r amser a dreulir gan bob gweithiwr gofal cartref ar amser teithio, ymweliadau a seibiannau gorffwys.

(10) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr “gweithiwr gofal cartref” (“*domiciliary care worker*”) yw person sy’n darparu gofal a chymorth i unigolion fel rhan o wasanaeth cymorth cartref ac mae’n cynnwys—

(a) person a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth fel cyflogai neu weithiwr; a

(b) person a gymerir ymlaen gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract ar gyfer gwasanaethau.

At ddibenion y diffiniad hwn, mae i’r termau “a gyflogir” (“*employed*”), “cyflogai” (“*employee*”), a “gweithiwr” (“*worker*”)

- Yn ystyried ffactorau eraill a allai effeithio’n rhesymol ar amser teithio (e.e. tagfeydd traffig ar adegau penodol o’r dydd neu gyfyngiadau parcio) a chynnwys ystyriaeth resymol a fydd yn caniatáu digon o amser i weithwyr gofal cartref allu gweithio o’u cwmpas.

**Ar gyfer amser gofal**

Bydd darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod:

- Yr amser a neilltuir yn ddigonol i alluogi i ofal a chymorth gael eu darparu i unigolyn yn unol â’i gynllun personol.
- ~~Rhaid bod y~~<u>Nid yw’r</u> gofal a ddarperir beidio ~~â bod~~ yn llai na 30 munud oni bai y bodlonir naill ai amod A, B neu C, fel y’u nodir yn adran 8 o’r Ddeddf.

**Er enghraifft:**

- At ddibenion y canllawiau hyn, mae amod A yn ymwneud â'r cyfnod o ofal i gyflawni’r dasg a nodwyd yng nghynllun personol yr unigolyn neu yng nghynllun cymorth y gofalwr. Mae’r ymweliad cyntaf neu’r ymweliad cyntaf gan bob gweithiwr cymorth newydd o fewn yr un cyfnod o ofal yn 30 munud o leiaf. Dylai unrhyw ymweliadau ar ôl hynny fod yn o leiaf 30 munud hefyd, oni bai fod amodau B neu C yn berthnasol. Dylai rotas ond dangos yr amser sy’n ddigonol i gyflawni’r tasgau hynny.

- Mae amod B yn ymwneud â phan fydd yr ymweliad yn gyson â thelerau unrhyw drefniant i ddarparu'r gwasanaeth neu at y diben llwyr o weld a yw unigolyn yn ddiogel ac yn iach; neu fod y tasgau a wneir yn cael eu cwblhau gan gyrraedd safon sy’n bodloni’r gofynion a nodir yn y rheoliadau hyn. Os bydd amod B yn

| | |
|---|---|
| yr un ystyron ag yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996;<br>ystyr “amserlen ymweliadau” (“*schedule of visits*”) yw amserlen o’r ymweliadau y mae’n ofynnol i weithiwr gofal cartref eu cyflawni yn ystod diwrnod neu wythnos;<br>mae “amser teithio” (“*travel time*”) yn cynnwys yr amser a dreulir wrth deithio rhwng lleoliad un ymweliad sydd wedi ei amserlennu a lleoliad yr ymweliad nesaf sydd wedi ei amserlennu ond nid yw’n cynnwys unrhyw amser a dreulir wrth deithio o gartref y gweithiwr gofal cartref i leoliad yr ymweliad cyntaf sydd wedi ei amserlennu neu unrhyw amser a dreulir wrth deithio o leoliad yr ymweliad olaf sydd wedi ei amserlennu i gartref y gweithiwr gofal cartref;<br>ystyr “ymweliad” (“*visit*”) yw ymweliad ag unigolyn at ddiben darparu gwasanaeth cymorth cartref. | berthnasol, nid oes angen diwygio’r rotas ond mae angen cadw cofnod clir.<br>• Mae amod C yn ystyried ymweliad yn cael ei gwtogi ar gais yr unigolyn. Os bydd amod C yn berthnasol, nid oes angen diwygio’r rotas ond mae angen cadw cofnod clir |

| **Rheoliad 42** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Cynnig y dewis o drefniadau contractiol eraill i weithwyr gofal cartref sydd ar gontractau oriau heb eu gwarantu**<br>**42.** —(1) Os yw’r amodau ym mharagraff (2) wedi eu bodloni, rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddo gynnig i weithiwr gofal cartref y dewis o barhau i gael ei gyflogi o dan y naill neu’r llall o’r mathau a ganlyn o drefniant contractiol—<br>a) contract cyflogaeth pan fo nifer yr oriau y mae’n ofynnol iddynt gael eu gweithio yr wythnos o leiaf yn gyfwerth â nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd yr wythnos yn ystod y tri mis blaenorol; | • Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod gweithwyr gofal cartref a gyflogir ganddynt yn cael cynnig y dewis o barhau i gael eu cyflogi yn unol â gofynion rheoliad 42.<br>• At ddibenion 42(2)(b), yr oriau rheolaidd yw’r oriau y mae gweithiwr yn ei weithio’n gyson dros gyfnod o dri mis, boed yr oriau hynny yn rhan o gwota wythnosol neu fisol (h.y. 37 awr yr wythnos neu 148 awr y mis).<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod trefniadau contractiol yn cael eu hadolygu, ar ôl cyfnod pellach o dri mis, ar gyfer unrhyw weithiwr gofal cartref sy’n dewis aros ar |

| | |
|---|---|
| b) contract cyflogaeth pan fo nifer yr oriau y mae'n ofynnol iddynt gael eu gweithio yr wythnos yn llai na nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd yr wythnos yn ystod y tri mis blaenorol.<br>Ond nid yw'r gofyniad hwn yn atal y darparwr gwasanaeth rhag cyflogi gweithiwr gofal cartref ar unrhyw fath arall o drefniant contractiol y cytunwyd arno rhwng y darparwr a'r gweithiwr, gan gynnwys contract oriau heb eu gwarantu pellach.<br>(6) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—<br>a) bod y gweithiwr gofal cartref wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract oriau heb eu gwarantu ar gyfer y cyfnod cymhwysol,<br>b) bod y gweithiwr gofal cartref wedi gweithio oriau rheolaidd yn ystod y tri mis cyn diwedd y cyfnod cymhwysol,<br>c) bod y darparwr wedi penderfynu bod angen o hyd i'r oriau gael eu gweithio ar sail barhaus, a<br>d) bod y gweithiwr gofal cartref wedi perfformio'n foddhaol yn ystod y cyfnod cymhwysol.<br>(7) At ddibenion y rheoliad hwn—<br>ystyr "gweithiwr gofal cartref" ("*domiciliary care worker*") yw person sy'n darparu gofal a chymorth i unigolion fel rhan o wasanaeth cymorth cartref ac mae'n cynnwys person a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth fel cyflogai neu weithiwr ond nid yw'n cynnwys person a gymerir ymlaen gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract ar gyfer gwasanaethau.<br>ystyr "contract oriau heb eu gwarantu" ("*non-guaranteed hours contract*") yw contract cyflogaeth neu gontract gweithiwr arall—<br>a) y mae'r ymgymeriad i wneud gwaith neu i gyflawni gwasanaethau odano yn ymgymeriad i wneud hynny ar yr amod bod y cyflogwr yn gwneud gwaith neu wasanaethau ar gael i'r gweithiwr, a<br>b) nad oes unrhyw sicrwydd odano y bydd unrhyw waith o'r fath neu unrhyw wasanaethau o'r fath yn cael eu gwneud ar gael i'r gweithiwr. | gontract oriau heb eu gwarantu.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r drafodaeth am y contract.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau yn cynnal adolygiadau o'r contract fel rhan o ymarfer gwerthuso staff neu adolygiadau rheoli eraill, lle y bo hynny'n berthnasol neu'n briodol. |

| | |
|---|---|
| At ddiben y diffiniad hwn, mae cyflogwr yn gwneud gwaith neu wasanaethau ar gael i weithiwr os yw'r cyflogwr yn gofyn i'r gweithiwr wneud y gwaith neu gyflawni'r gwasanaethau neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny;<br>"y cyfnod cymhwysol" ("*the qualifying period*") yw—<br>c) mewn unrhyw achos pan fo'r gweithiwr wedi dechrau cyflogaeth ar ôl y dyddiad perthnasol, y cyfnod o dri mis o ddyddiad dechrau'r gyflogaeth;<br>d) mewn unrhyw achos pan ddechreuodd y gweithiwr gyflogaeth cyn y dyddiad perthnasol, y cyfnod o dri mis sy'n dod i ben gyda'r dyddiad cychwyn;<br>e) mewn unrhyw achos pan fo'r gweithiwr wedi, yn flaenorol, gael cynnig y dewis o drefniant contractiol arall yn unol â gofynion y rheoliad hwn ac wedi dewis aros ar gontract oriau heb eu gwarantu, y cyfnod o dri mis o ddyddiad gwneud unrhyw ddewis o'r fath.<br>At ddibenion y diffiniad hwn—<br>"y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw'r dyddiad y daw'r rheoliad hwn i rym;<br>"y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw'r dyddiad sy'n dod tri mis cyn y dyddiad cychwyn;<br>(8) At ddibenion y rheoliad hwn—<br>~~a)~~ Mae i'r termau "contract cyflogaeth" ("*contract of employment*"), "cyflogwr" ("*employer*"), "cyflogai" ("*employee*"), "cyflogaeth" ("*employment*") a "cael ei gyflogi", "wedi ei gyflogi", "a gyflogir" ("*employed*", yr un ystyr ag yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996;<br>a)<br>b) mae i "gweithiwr" ("*worker*") yr un ystyr ag yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, ac eithrio nad yw person a gymerir ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau yn weithiwr at ddiben y rheoliad hwn. Mae unrhyw gyfeiriad at gontract gweithiwr i gael ei ddehongli yn unol â hynny. | |

## 1.10 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar (Rhan 12)

Bwriad Rhan 12 o'r Rheoliadau yw rhestru'r hyn sy'n ofynnol gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer unigolion mewn lleoliad ac amgylchedd â chyfleusterau a, lle y bo hynny'n berthnasol, cyfarparu sy’n helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae gofynion Rhan 12 yn gymwys i bob darparwr gwasanaeth cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel neu wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith sy'n hybu amgylchedd diogel o safon uchel lle darperir y gwasanaethau;
- sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn darparu lle i unigolion a mannau cymunedol i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth;
- cyfleusterau a chyfarpar sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n briodol ar gyfer yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

| **Rheoliadau 43 a 44** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Gofyniad cyffredinol**<br><br>**43.** Rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a’r cyfarpar yn addas ar gyfer y gwasanaeth, gan roi sylw i’r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.<br><br>**Mangreoedd – gwasanaethau llety yn unig**<br><br>**44.** —(1) Nid yw’r gofynion yn y rheoliad hwn ond yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd.<br><br>(2) Rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod dyluniad ffisegol, cynllun a lleoliad y fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu’r gwasanaeth yn addas i— | • Rhaid i leoliad, cynllun a maint y fangre fod yn addas ar gyfer y gwasanaeth, fel y caiff ei ddisgrifio yn y datganiad o ddiben.<br><br>• Bydd y fangre wedi'i lleoli, ei chynllunio a'i chyflenwi â chyfarpar i ddiwallu anghenion yr unigolion y bwriedir y gwasanaeth ar eu cyfer. a bydd yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau:<br>  ○ bod anghenion unigolion a, lle y bo modd, eu barn yn cael eu hystyried wrth gynllunio, adeiladu, cynnal a chadw, adnewyddu neu addasu mangre;<br>  ○ wrth bennu'r lleoliad ar gyfer darparu’r gwasanaeth, bod y darparwr gwasanaeth yn ystyried yr angen i unigolion allu cyrraedd cyfleusterau perthnasol a'r gymuned leol yn rhwydd, fel y rheini sy’n ymwneud ag addysg, iechyd, cyflogaeth a hamdden, a bod modd iddynt ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn hwylus. Os nad yw defnyddio |

a) cyflawni’r nodau a’r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben;

b) diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion;

c) cefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol.

(3) Yn benodol, rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu’r gwasanaeth yn bodloni gofynion paragraffau (4) i (6) o’r rheoliad hwn.

(4) Rhaid i’r fangre—

a) bod yn hygyrch ac wedi ei goleuo, ei gwresogi a’i hawyru’n ddigonol;

b) bod yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig;

c) bod wedi ei dodrefnu a’i chyfarparu’n addas;

d) bod o adeiladwaith cadarn ac wedi ei chadw mewn cyflwr strwythurol da yn allanol ac yn fewnol;

e) bod wedi ei ffitio a’i haddasu yn ôl yr angen, er mwyn diwallu anghenion unigolion;

f) bod wedi ei threfnu fel bod y cyfarpar a ddefnyddir i ddarparu’r gwasanaeth wedi ei leoli’n briodol;

g) bod yn rhydd rhag peryglon i iechyd a diogelwch unigolion ac unrhyw bersonau eraill a all wynebu risg, i’r graddau y bo’n rhesymol ymarferol;

h) bod wedi ei chynnal a’i chadw’n briodol;

i) bod wedi ei chadw’n lân yn unol â safon sy’n briodol at y diben y caiff ei defnyddio.

(5) Rhaid i’r fangre gael ystafelloedd gwely sydd—

a) yn cynnwys cyfleusterau priodol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn (os yw’r ystafell yn ystafell meddiannaeth sengl) neu’r unigolion (os yw’r ystafell yn cael ei rhannu) sy’n meddiannu’r ystafell wely;

cludiant cyhoeddus yn hwylus iawn, rhaid i ddarparwr y gwasanaeth hwyluso hyn;

- nad yw preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd unigolion yn cael eu tanseilio oni bai bod hyn yn unol â’u cynllun personol, er enghraifft defnyddio unrhyw oruchwyliaeth;
- bod diogelwch unigolion yn cael ei sicrhau, gan gynnwys eu gallu i fynd i mewn ac allan o'r fangre a symud o amgylch y fangre’n rhwydd;
- bod modd defnyddio’r holl gyfarpar sydd wedi’i osod ar waliau / cyfarpar sefydlog, fel system godi, yn ddiogel;
- y bydd modd iddynt gyrraedd pob rhan briodol o'r gwasanaeth yn annibynnol a bydd y fangre’n cael ei haddasu i sicrhau hyn lle bydd angen.

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau diogelwch ar waith sy'n sicrhau bod unigolion yn saff a diogel heb amharu ar eu hawliau, eu preifatrwydd a'u hurddas. ~~Rhaid i~~Mae lefel y ~~warchodaeth~~ diogelwch a ~~ddarperir fod yn~~ddefnyddir yn briodol i'r unigolyn ac i'r gwasanaeth a gynigir. Mae hyn yn cynnwys:
  - gwarchod eiddo personol a/neu arian;
  - darparu mynediad priodol i'r fangre ac oddi yno heb gyfyngu'n ddiangen ar ryddid yr unigolyn i symud o amgylch;
  - trafod â phartneriaid perthnasol, er enghraifft swyddogion atal troseddu am lefel y diogelwch a allai fod yn briodol.

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi ysgrifenedig ynglŷn â defnyddio teledu cylch cyfyng gan y gwasanaeth a chan unigolion, teuluoedd a staff.

- Pan ddefnyddir cyfarpar gwyliadwriaeth mewn gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, bydd hyn yn cael ei wneud mewn

b) o faint digonol, gan roi sylw i—

i. a yw'r ystafell yn cael ei rhannu neu'n ystafell meddiannaeth sengl;

ii. y cynllun a'r dodrefn;

iii. y cyfarpar sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion yr unigolyn (os yw'r ystafell yn ystafell meddiannaeth sengl) neu'r unigolion (os yw'r ystafell yn cael ei rhannu);

iv. nifer y staff sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion yr unigolyn (os yw'r ystafell yn ystafell meddiannaeth sengl) neu'r unigolion (os yw'r ystafell yn cael ei rhannu);

c) yn gyfforddus ar gyfer yr unigolyn (os yw'r ystafell yn ystafell meddiannaeth sengl) neu'r unigolion (os yw'r ystafell wedi ei rhannu):

d) yn rhoi rhyddid symud a phreifatrwydd i'r unigolyn (os yw'r ystafell yn ystafell meddiannaeth sengl) neu'r unigolion (os yw'r ystafell yn cael ei rhannu).

(6) Rhaid i'r fangre gael lle eistedd, hamdden a bwyta a ddarperir ar wahân i ystafelloedd preifat yr unigolyn ei hun a rhaid i unrhyw le o'r fath fod—

a) yn addas ac yn ddigonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben;

b) wedi ei leoli er mwyn galluogi pob person sy'n defnyddio'r lle i gael mynediad iddo yn hawdd ac yn ddiogel.

(7) Rhaid i unrhyw le cymunedol a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth fod yn addas ar gyfer darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol sy'n briodol i amgylchiadau'r unigolion.

(8) Rhaid i gyfleusterau addas gael eu darparu er mwyn i unigolion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat mewn lle sydd ar wahân i ystafell breifat yr unigolyn ei hun.

ffordd agored, bwrpasol a chyfreithlon. Nodir yn glir fod hyn yn cael ei ddefnyddio yn yr adeilad ac yn y canllaw i ddefnyddwyr.

- Bydd cyfarpar gwyliadwriaeth yn cydymffurfio â'r gofynion o dan y Rheoliadau sy'n ymwneud â phreifatrwydd, urddas a pharch. Bydd yn cydymffurfio hefyd â phob gofyniad cyfreithiol arall e.e. o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

- Os yw plant yn cael eu lletya, ni fydd unrhyw beth yn y fangre i ddangos hynny.

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod awyru naturiol yn digwydd yn yr adeilad a'i fod yn cael ei wresogi i adlewyrchu anghenion yr unigolion sy'n byw ynddo.

- Bydd dodrefn a chyfarpar yn cael eu darparu i gyflawni nodau ac amcanion y datganiad o ddiben ac i ddiwallu anghenion a, lle y bo modd, yr hyn sydd orau gan yr unigolion sy'n cael gofal a chymorth.
  Mae hyn yn cynnwys:
  - gwelyau a matresi arbenigol, systemau galw, cyfarpar codi a symud, arwyddion, canllawiau a/neu gyfarpar i helpu ag anghenion corfforol, gwybyddol a synhwyraidd unigolyn;
  - darparu cyfarpar a dodrefn addas i helpu pobl wrth iddynt ddysgu, er enghraifft cyfrifiaduron a desgiau;
  - darparu cyfarpar chwaraeon a hamdden;
  - darparu cyfleusterau ffôn (a chyfle i ddefnyddio ffôn yn breifat), e-bost a rhyngrwyd sy'n addas i anghenion unigolyn.

- Trefnir i gael gafael ar gyngor arbenigol ychwanegol, cymhorthion a chyfarpar i ddiwallu anghenion unigolyn drwy gysylltu ag asiantaethau statudol perthnasol.

| | |
|---|---|
| (9) Rhaid i'r fangre gael toiledau, ystafelloedd ymolchi a chawodydd sydd—<br>a) o nifer digonol ac o fath addas i ddiwallu anghenion yr unigolion;<br>b) wedi eu cyfarparu'n briodol;<br>c) wedi eu lleoli er mwyn galluogi pob person i gael mynediad iddynt yn hawdd ac yn ddiogel.<br>(10) Rhaid i'r fangre gael tiroedd allanol sy'n hygyrch ac sy'n addas ac sy'n ddiogel i unigolion eu defnyddio a rhaid iddynt gael eu cynnal a'u cadw'n briodol.<br>(11) Rhaid i'r fangre gael cyfleusterau addas ar gyfer staff y mae rhaid iddynt gynnwys—<br>a) cyfleusterau storio addas, a<br>b) pan fo'n briodol, llety cysgu a chyfleusterau newid addas. | • Bydd polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod systemau mecanyddol a thrydanol adeiladau mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w defnyddio.<br>• Bydd system monitro ac archwilio ar waith i ategu cynllun ac amserlen cynnal a chadw a rhaglen i adnewyddu adeiledd ac addurno'r fangre.<br>• Bydd trefniadau i sicrhau bod unrhyw waith atgyweirio a gwaith arall sy'n codi'n cael ei nodi a'i adrodd a bod camau'n cael eu cymryd i ymateb i lefel y brys. Bydd hyn yn cefnogi diogelwch a llesiant unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ymwelwyr, gwirfoddolwyr a staff.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau yn dyrannu'r gyllideb sydd ar gael i sicrhau bod y fangre, y cyfleusterau, y dodrefn a'r cyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw drwy'r amser.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gan yr ystafelloedd gwely gyfarpar sy'n diwallu anghenion yr unigolyn yn unol â'r datganiad o ddiben.<br>• Bydd y darparwyr gwasanaethau'n ystyried dymuniadau unigolion a'r hyn sydd orau ganddynt o ran sut y bydd eu hystafelloedd yn cael eu dodrefnu a'u haddurno.<br>• Bydd ystafelloedd personol yr unigolion yn gweddu i'w hanghenion a'u ffordd o fyw ac yn hybu eu hannibyniaeth.<br>• Bydd y goleuadau yn llety unigolion yn unol â'u hanghenion ac unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd unigolion yn gallu addasu'r gwres yn eu hystafelloedd gwely eu hunain a, lle y bo hynny'n berthnasol, bydd goleuadau a systemau awyru ychwanegol yn cael eu gosod i ddiwallu eu hanghenion, yn unol â safonau cenedlaethol ar gyfer mynediad cynhwysol.<br><br>• Bydd digon o le a digon o ddodrefn mewn ystafelloedd gwely, ni waeth a yw'r rhain ar gyfer un preswylydd neu ystafelloedd i'w rhannu er mwyn:<br>  ○ gallu defnyddio cyfarpar yn ddiogel heb amharu ar staff, unigolion, nac ar ddodrefn ac eitemau personol;<br>  ○ galluogi'r staff i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn mewn modd diogel ac urddasol;<br>  ○ darparu preifatrwydd;<br>  ○ darparu lle i bobl wneud gweithgareddau annibynnol, er enghraifft, gwneud gwaith cartref, dilyn diddordebau a threulio amser ar eu pen eu hunain.<br><br>• Bydd cloeon ar ddrysau ystafelloedd gwely sy'n addas ar gyfer gallu'r unigolion, a rhoddir allweddi iddynt oni fydd eu hasesiad risg yn nodi na ddylid gwneud hynny.<br><br>• Bydd staff yn gallu agor y drysau i ystafelloedd gwely o'r tu allan os bydd argyfwng.<br><br>• Bydd gan unigolion gyfleusterau storio diogel i'w heiddo personol gan gynnwys arian, nwyddau gwerthfawr a, lle y bo hynny'n briodol, meddyginiaeth.<br><br>• Bydd mannau cymunedol ar gael sy'n diwallu anghenion unigolion sydd yn y llety, yn unol â'r datganiad o ddiben, a byddant yn rhai sy'n hawdd i bobl eu cyrraedd yn annibynnol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth a |

| | |
|---|---|
| | chanllawiau cyfredol eraill. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth i unigolion gyfarfod yn breifat ag ymwelwyr, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, chwarae a hamdden, mewn modd na fydd yn effeithio ar drefniadau arferol neu breifatrwydd unigolion eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth.<br><br>• Wrth ystyried patrwm, mynediad, dyluniad/addurniadau, arwyddion ac addasiadau i'r mannau cymunedol, bydd darparwyr gwasanaethau’n cadw mewn cof anghenion a dibyniaethau’r unigolion sy'n byw yno fel y rheini sy’n gysylltiedig â dementia, ac amhariadau corfforol a synhwyraidd. Bydd darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod mannau cymunedol wedi’u seilio ar ganllawiau cydnabyddedig sy’n seiliedig ar dystiolaeth.<br><br>• Bydd annibyniaeth yn cael ei hybu a'i chynnal drwy sicrhau bod unigolion yn cael mynediad priodol at gyfleusterau a chyfarpar, er enghraifft, cyfleusterau hwylus ar gyfer cegin/coginio a golchi dillad.<br><br>• Bydd bath neu gawod ar gael i unigolion eu defnyddio, yn unol â'u hanghenion a'r datganiad o ddiben.<br><br>• Bydd ystafelloedd ymolchi, cawodydd a thoiledau'n cael eu lleoli a'u cynllunio i ystyried preifatrwydd, urddas, diogelwch ac anghenion a galluoedd unigolion, yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Bydd cymhorthion a chyfarpar yn cael eu darparu mewn ystafelloedd ymolchi, cawodydd a thoiledau i ddiwallu anghenion unigolion a letyir, er enghraifft canllawiau cydio, gosod basnau ar uchder hwylus a systemau galw mewn argyfwng. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd cyfleusterau yn hawdd eu cyrraedd o'r mannau cysgu a hamdden yn y cartref.<br><br>• Bydd staff yn gallu agor y drysau i ystafelloedd ymolchi, cawodydd a thoiledau o'r tu allan os bydd argyfwng.<br><br>• Bydd y gerddi'n cael eu cadw'n daclus, yn ddiogel, yn ddeniadol ac yn hwylus i unigolion fynd iddynt.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n adolygu diogelwch a chyflwr y gerddi'n rheolaidd fel rhan o'r rhaglen cynnal a chadw.<br><br>• Bydd y gofod tu allan wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion pob unigolyn, gan gynnwys y rheini sydd ag amhariad corfforol, synhwyraidd a gwybyddol.<br><br>• Os darperir llety i staff, lleolir hyn o fewn y gwasanaeth gan eu galluogi i ymateb yn hawdd i anghenion unigolion.<br><br>• Lle y bo hynny'n briodol, bydd llety cysgu a chyfleusterau newid addas yn cael eu darparu ar gyfer staff.<br><br>• Darperir man diogel i'r staff gadw eu heiddo personol. |

| **Rheoliad 45** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Ystafelloedd meddiannaeth sengl ac ystafelloedd a rennir - oedolion**<br><br>**45.** —(1) Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth cartref gofal sy'n cynnwys darparu llety i unigolion sy'n oedolion, | • Bydd ystafelloedd gwely sengl yn cael eu darparu ym mhob gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety.<br><br>• Dim ond pan fydd rheoliad 45(2) a 45(3) yn berthnasol y rhennir ystafelloedd gwely. |

| | |
|---|---|
| rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gan bob oedolyn ystafell sengl. Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys naill ai—<br>a) os yw'r amodau ym mharagraff (2) wedi eu bodloni, neu<br>b) os yw paragraff (3) yn gymwys.<br>(6) Yr amodau yw—<br>a) bod oedolyn yn cytuno i rannu ystafell ag oedolyn arall;<br>b) bod rhannu ystafell yn gyson â llesiant y ddau oedolyn;<br>c) bod cynlluniau personol y ddau oedolyn wedi cael eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen;<br>d) nad yw nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir yn fwy na 15% o gyfanswm nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth.<br>(7) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—<br>a) roedd y gwasanaeth cartref gofal wedi ei gofrestru fel cartref gofal o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000;<br>b) roedd nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir ar yr adeg berthnasol yn fwy na 15% o gyfanswm nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth ar yr adeg berthnasol;<br>c) roedd yr holl oedolion sy'n cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir yn rhannu ystafell ag oedolyn arall ar yr adeg berthnasol.<br>(8) Ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwn, ystyr "yr adeg berthnasol" yw'r adeg yr oedd y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru o dan y Ddeddf yn ddarparwr y gwasanaeth cartref gofal. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod ystafelloedd a rennir yn cael eu rheoli yn unol â gofynion y Rheoliadau.<br>• Mewn amgylchiadau lle mae rhannu ystafell yn cael ei ystyried, bydd y darparwr gwasanaeth yn cofnodi'r drafodaeth gyda'r unigolion dan sylw neu eu cynrychiolwyr, ynghyd â'r penderfyniad. |

| Rheoliad 46 | Canllawiau |
|---|---|
| **Ystafelloedd meddiannaeth sengl ac ystafelloedd a rennir – plant**<br><br>**46.** —(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo’r darparwr gwasanaeth yn darparu—<br>a) gwasanaeth cartref gofal sy’n cynnwys darparu llety i unigolion sy’n blant, neu<br>b) gwasanaeth llety diogel.<br>(6) Os yw’r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod pob plentyn yn cael ei letya mewn ystafell sengl. Ond nid yw’r gofyniad hwn yn gymwys os yw’r amodau ym mharagraff (3) wedi eu bodloni.<br>(7) Yr amodau yw—<br>a) bod y llety yn cael ei ddarparu mewn gwasanaeth cartref gofal a oedd wedi ei gofrestru fel cartref plant o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000,<br>b) bod y llety a ddarperir wedi ei feddiannu ar yr adeg yr oedd y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru o dan y Ddeddf,<br>c) bod y plentyn yn rhannu ystafell â dim mwy nag un plentyn arall,<br>d) (ac eithrio yn achos brodyr neu chwiorydd) nad yw’r plentyn arall o’r rhyw arall neu o oedran sylweddol gwahanol iddo, ac<br>e) y bydd rhannu ystafell yn hybu llesiant y plentyn, y darperir ar ei gyfer yng nghynllun gofal a chymorth y plentyn ac y cytunir arno pryd bynnag y bo’n ymarferol â’r plentyn. | • Bydd ystafelloedd gwely sengl yn cael eu darparu ym mhob gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety.<br><br>• Dim ond pan fydd rheoliad 46(3) yn berthnasol y rhennir ystafelloedd gwely.<br><br>• Mewn amgylchiadau lle mae rhannu ystafell yn cael ei ystyried, bydd y darparwr gwasanaeth yn cofnodi’r drafodaeth gyda’r unigolion dan sylw neu eu cynrychiolwyr, ynghyd â’r penderfyniad. |

| Rheoliad 47 | Canllawiau |
| --- | --- |
| **Mangreoedd – pob gwasanaeth**<br><br>**47.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gan y fangre a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth gyfleusterau digonol ar gyfer—<br>a) goruchwylio staff;<br>b) storio cofnodion yn ddiogel. | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau le addas yn y fangre, fel ystafell gyfarfod a rennir, i sicrhau preifatrwydd ar gyfer goruchwylio staff.<br><br>• Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol. |

| Rheoliad 48 | Canllawiau |
| --- | --- |
| **Cyfleusterau a chyfarpar**<br><br>**48.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth—<br>a) yn addas ac yn ddiogel at y diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio;<br>b) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel;<br>c) wedi eu cynnal a'u cadw'n briodol;<br>d) wedi eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol at y diben y cânt eu defnyddio;<br>e) wedi eu storio'n briodol. | Ar gyfer pob gwasanaeth:<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael ar gyfer storio cyfarpar sydd ar gael yn hwylus i staff, heb fod yn peri perygl i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu'n gweithio yno.<br><br>• Bydd cyfleusterau, gosodion, addasiadau a chyfarpar ar gael i gyflawni nodau ac amcanion y datganiad o ddiben, a helpu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau, a'u helpu i gyflawni eu canlyniadau personol.<br><br>• Bydd trefniadau ar waith i brynu, rhoi gwasanaeth, cynnal a chadw, adnewyddu a newid cyfarpar lle y bo hynny'n briodol. Bydd y trefniadau hyn yn diwallu gofynion unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol, cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr, a pholisïau neu weithdrefnau'r darparwr gwasanaethau.<br><br>• Bydd yr holl gyfarpar yn cael ei ddefnyddio, ei storio a'i gynnal a'i gadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd cyfarpar yn cael ei ddefnyddio at y diben y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio a dim ond ar gyfer yr unigolyn y'i darparwyd ar ei gyfer.<br><br>• Bydd staff a phobl eraill sy'n defnyddio'r cyfarpar yn cael eu hyfforddi i'w ddefnyddio'n briodol cyn iddynt ei ddefnyddio.<br><br>• Ymgynghorir ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y cyfleusterau, y gwasanaethau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan y gwasanaeth ar eu rhan, a lle bydd modd, perchir dewisiadau'r unigolyn a'r hyn sydd orau ganddo, gan weithredu ar sail hynny. |

## 1.11 Gofynion ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau o ran mangreoedd – llety newydd (Rhan 13)

Bwriad Rhan 13 o'r Rheoliadau yw datblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety i ddarparu amgylcheddau o safon gyson uchel i unigolion sy'n cael gofal a chymorth. Bwriad hyn yw rhoi dewis a chymorth i unigolion i gadw eu hurddas, eu hannibyniaeth a'u preifatrwydd. Mae gofynion Rhan 13 yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel neu wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

| Rheoliad 49 | Canllawiau |
|---|---|
| **Cymhwyso Rhan 13**<br><br>— —(1) ~~Mae'r Rhan hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth llety a bod y fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn dod o fewn un o'r categorïau ym mharagraff (2). Ond nid yw'r Rhan hon yn gymwys os yw'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i bedwar neu lai o unigolion.~~<br><br>**49.**~~(1)~~ Mae'r Rhan hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth llety—<br><br>(a) (i) pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i bump neu ragor o unigolion, a<br><br>(ii) pan fo'r fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn dod o fewn un o'r categorïau ym mharagraff (2), neu<br><br>(b) pan fo'r darparwyr gwasanaethau yn bersonau y mae rheoliad 49A(1) neu reoliad 49B(1) yn gymwys iddynt.<br><br>(2) Y categorïau yw—<br><br>**Categori A:** Mae'r fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn adeilad newydd neu adeilad presennol sydd wedi cael ei addasu at ddiben darparu'r gwasanaeth, ac, yn y | • Mae gwasanaethau seiliedig ar lety, lle bydd gofynion ychwanegol yn berthnasol, wedi'u diffinio yn rheoliadau 45 a 46.<br><br>• Mae Categori A yn ymwneud ag adeilad newydd neu adeilad wedi'i drosi at ddiben darparu gwasanaeth rheoleiddiedig.<br><br>• Mae Categori B yn ymwneud ag estyniad newydd i adeilad sydd eisoes yn bodoli sydd wedi'i gynnwys yng nghofrestriad darparwr gwasanaethau. Mae'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Rhan 13 yn berthnasol i'r estyniad yn unig, o dan Gategori B.<br><br>• Mae Categori C yn ymwneud ag adeilad heb ei feddiannu, a oedd wedi'i gofrestru'n flaenorol o dan enw un darparwr gwasanaeth ond sy'n rhan erbyn hyn o gais gan ddarparwr gwasanaeth newydd. |

| | |
|---|---|
| naill achos neu'r llall, nad yw'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen at ddiben darparu gwasanaeth llety.<br><br>**Categori B:** Mae'r fangre yn adeilad neu adeiladau yr ychwanegir estyniad ato neu atynt ac mae'r estyniad yn cael ei ddefnyddio at ddiben darparu'r gwasanaeth mewn man a bennir fel amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth.<br><br>**Categori C:** Mae'r fangre yn adeilad a oedd heb ei feddiannu yn union cyn cofrestriad y darparwr gwasanaeth ond a oedd yn cael ei ddefnyddio o'r blaen at ~~ddiben darparu gwasanaeth llety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad darparwr gwasanaeth arall.~~unrhyw un neu ragor o'r dibenion a ganlyn—<br>a) at ddiben darparu gwasanaeth llety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad darparwr gwasanaeth arall;<br>b) fel sefydliad yr oedd person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i ddarparu llety mewn cartref plant, cartref gofal, neu ganolfan breswyl i deuluoedd;<br>c) fel sefydliad yr oedd person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan Ran 1 neu 2 o Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984 i ddarparu llety preswyl i bersonau y mae angen gofal personol arnynt (oherwydd henaint, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau neu anhwylder meddwl);<br>d) fel sefydliad yr oedd person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef mewn cofrestr a gedwir at ddibenion adran 60 o Ddeddf Plant 1989, neu o dan Ran 8 o'r Ddeddf honno, i ddarparu llety preswyl i blant.<br><br>(3) Os yw'r Rhan hon yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadau 50 i 54 ond yn achos mangre Categori B, nid yw'r gofynion ond yn gymwys i'r rhan o'r fangre sy'n cynnwys yr estyniad (neu yn achos rheoliad 53, i unrhyw rannau o'r tiroedd allanol sydd wedi eu datblygu ar y cyd â'r estyniad). | |

(4) (a) Yn y rheoliad hwn, ystyr “gwasanaeth seiliedig ar lety” yw gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd.

(b) ~~(b)~~ mae i “cartref plant”, “cartref gofal” a “canolfan breswyl i deuluoedd” yr ystyron a roddir i “children’s home”, “care home” a “residential family centre” yn ôl eu trefn yn adrannau 1, 3 a 4 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 fel yr oedd yn cael effaith yng Nghymru yn union cyn 1 Ebrill 2017.

**Ailgyflunio mangre**

**49A.** —(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth—

(a) sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth llety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth, a

(b) nad oedd Rhan 13 yn gymwys iddo mewn perthynas â’r man hwnnw yn ystod cyfnod pan oedd y gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i bedwar neu lai o unigolion.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fo darparwr gwasanaeth y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddo

(a) wedi cael caniatâd am amrywiad i’w amodau cofrestru ar neu ar ôl 31 Mawrth 2024 o ganlyniad i ailgyflunio mangre a ddefnyddir mewn perthynas â’r man, a

(b) mai effaith yr amrywiad yw y gellir darparu llety yn y man hwnnw i bump neu ragor o unigolion, rhaid i’r darparwr gwasanaeth gydymffurfio â gofynion rheoliadau 50 i 54 mewn cysylltiad â’r man hwnnw.

| | |
|---|---|
| (3) Nid yw'r gofyniad i gydymffurfio â rheoliadau 50 a 51 mewn perthynas â'r man hwnnw ond yn gymwys i unrhyw ystafelloedd gwely ychwanegol ar gyfer unigolion.<br><br>(4) Yn y rheoliad hwn a rheoliad 49B—<br><br>ystyr "ailgyflunio mangre" ("*reconfiguration of premises*") yw ad-drefnu neu newid cynllun ffisegol presennol y fangre er mwyn cynyddu nifer yr unigolion y gellir darparu llety iddynt yn y gwasanaeth.<br><br>**49B.** —(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth—<br><br>a) sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth llety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth, a<br><br>b) nad oedd Rhan 13 yn gymwys iddo mewn perthynas nad oeddâ'r man hwnnw yn ystod cyfnod pan nad oedd y fangre a ddefnyddir gan y gwasanaeth yn dod o fewn Categori A, B nac C a phan oedd yn cynnwys darparu llety i bump neu ragor o unigolion.<br><br>(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fo darparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo—<br><br>a) wedi cael caniatâd am amrywiad i'w amodau cofrestru ar neu ar ôl 31 Mawrth 2024 o ganlyniad i ailgyflunio mangre a ddefnyddir mewn perthynas â'r man,-ac<br><br>a)<br><br>b) mai effaith yr amrywiad yw bod nifer yr unigolion y gellir darparu llety ar eu cyfer yn y man hwnnw wedi ei gynyddu<br><br>,rhaid i'r darparwr gwasanaeth gydymffurfio â gofynion rheoliadau 50 i 54 mewn cysylltiad â'r man hwnnw. | |

| | |
|---|---|
| Nid yw'r gofyniad i gydymffurfio â rheoliadau 50 a 51 mewn perthynas â'r man hwnnw ond yn gymwys i unrhyw ystafelloedd gwely ychwanegol ar gyfer unigolion. | |

| Rheoliad 50 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofynion ychwanegol – ystafelloedd ymolchi en-suite**<br><br>~~49.~~50. Rhaid i bob ystafell wely a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth gael ystafell ymolchi en-suite sy'n cynnwys basn golchi dwylo, toiled a chawod hygyrch. | • Mae cyfleusterau en-suite ar gael yn hwylus i ddiwallu anghenion unigolion. Er enghraifft, ystafelloedd gwlyb, cawodydd neu fath. |

| Rheoliad 51 |
|---|
| **Gofynion ychwanegol – maint ystafelloedd**<br><br>~~50.~~51. ~~—~~(1) Rhaid i bob ystafell a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth gael o leiaf 12 o fetrau sgwâr o le llawr y gellir ei ddefnyddio oni bai bod paragraff (2) neu (3) yn gymwys.<br>(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo rhaid i'r person sy'n byw yn yr ystafell ddefnyddio cadair olwyn yn barhaol ac yn gyson. ~~oherwydd natur ei anabledd.~~<br>(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo ystafell wely yn cael ei rhannu.<br>(4) Os yw paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r ystafell wely gael o leiaf 13.5 o fetrau sgwâr o le llawr y gellir ei ddefnyddio.<br>(5) Os yw paragraff (3) yn gymwys, rhaid i'r ystafell wely gael o leiaf 16 o fetrau sgwâr o le llawr y gellir ei ddefnyddio. |

| Rheoliad 52 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofynion ychwanegol – lle cymunedol**<br><br>~~51.~~52. (1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r lle eistedd, hamdden a bwyta a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn unol â rheoliad 44(6) fod o leiaf—<br>a) 4.1 metr sgwâr ar gyfer pob unigolyn;<br>b) 5.1 metr sgwâr ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.<br>~~52~~(2) Ar gyfer mangre Categori B, mae'r rheoliad hwn yn gymwys fel bod rhaid i'r gofyniad o ran lle gael ei fodloni mewn perthynas ag unrhyw ystafelloedd ychwanegol i unigolion. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod mannau cymunedol yn cadw at y gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 52. |

| Rheoliad 53 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofynion ychwanegol – lle yn yr awyr agored**<br><br>~~52.~~53. Rhaid i'r tiroedd allanol (neu, yn achos mangre Categori B, unrhyw ran o'r tiroedd allanol a ddatblygir ar y cyd ag adeiladu'r estyniad) a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn unol â rheoliad 44(10)—<br>a) bod yn hygyrch i unigolion sy'n defnyddio cadair olwyn neu sydd â phroblemau symudedd eraill,<br>b) bod â digon o seddi addas, ac<br>c) wedi eu dylunio i ddiwallu anghenion pob unigolyn gan gynnwys y rhai sydd â namau corfforol, synhwyraidd a gwybyddol. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod patrwm a chynllun y mannau tu allan a'r mynediad atynt yn unol â'r datganiad o ddiben ac anghenion unigolion.<br><br>• Gall pobl gyrraedd y mannau tu allan yn annibynnol a/neu gyda chymorth os bydd gofyn. Ystyrir a oes angen:<br>○ addasiadau er mwyn i bobl eu cyrraedd;<br>○ llwybrau a phafin sy'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri/cyfarpar symud;<br>○ diogelwch a gwarchodaeth i unigolion pan fyddant y tu allan;<br>○ digon o seddi er mwyn i unigolion allu gorffwyso / mwynhau bod yn yr awyr agored;<br>○ cyfarpar chwarae a hamdden;<br>mannau therapiwtig a synhwyraidd. |

| Rheoliad 54 | Canllawiau |
| --- | --- |
| **Gofynion ychwanegol – lifft i deithwyr**<br><br>**54**. Pan fo'r llety a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth ar fwy nag un llawr a bod hyn yn gyson â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth, rhaid i lifft i deithwyr fod ar gael. | Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod lifftiau i deithwyr yn hwylus i'w defnyddio ac yn cynnwys arwyddion a hysbysiadau sain sy'n briodol i oed, lefel dealltwriaeth, cyflwr yr unigolyn, ac unrhyw amhariad o ran cyfathrebu sy'n berthnasol i'r unigolyn sy'n defnyddio'r lifft. |

## 1.12 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran cyflenwadau, hylendid, iechyd a diogelwch a meddyginiaethau (Rhan 14)

Bwriad Rhan 14 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael cymorth gan wasanaeth sydd:

- â digon o gyflenwadau ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth;
- â systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau;
- yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch;
- yn hybu arferion hylan ac yn rheoli risg haint.

| Rheoliad 55 | Canllawiau |
|---|---|
| **Cyflenwadau**<br><br>**55.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod cyflenwadau ar gael o nifer digonol ac o fath addas i gyflenwi'r gwasanaeth yn effeithiol ac i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod digon o gyflenwadau ar gael i fodloni'r ansawdd gofal uchel sy'n ofynnol i helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol.<br><br>• Rhoddir cymorth i unigolion gael gafael ar gyflenwadau personol lle y bo hynny'n berthnasol.<br><br>• Bydd trefniadau ar waith i oruchwylio ac adolygu'r cyflenwadau sy'n ofynnol gan y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd argyfwng |

| Rheoliad 56 | Canllawiau |
|---|---|
| **Hylendid a rheoli heintiau**<br><br>**56.** —(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i sicrhau—<br>a) safonau hylendid boddhaol wrth gyflenwi'r gwasanaeth; | • Bydd polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n hyrwyddo hylendid ac sy'n ystyried y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, er enghraifft y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>    ○ trin bwyd;<br>    ○ golchi dwylo; |

| | |
|---|---|
| b) bod gwastraff cyffredinol a chlinigol yn cael ei waredu'n briodol.<br>(6) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer rheoli heintiau a lleihau heintiau rhag lledaenu a rhaid iddo sicrhau y darperir y gwasanaeth yn unol â'r polisïau hyn a'r gweithdrefnau hyn. | ○ trefniadau glanhau a golchi dillad (lle y bo hynny'n berthnasol).<br>• Bydd y staff a'r gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w rôl a byddant wedi'u hyfforddi i ddeall arferion gweithio diogel i sicrhau hylendid ac atal heintiau.<br>• Mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety:<br>○ bydd rhaglenni glanhau ar waith, gyda staff a chyfarpar priodol ar gyfer y gofal a'r cymorth a ddarperir, i sicrhau bod safonau hylendid yn cael eu cynnal;<br>○ bydd systemau'n cael eu sefydlu i fonitro lefelau glendid ac i gymryd camau os gwelir bod diffygion.<br>○ bydd systemau ar waith i oruchwylio a monitro safonau hylendid.<br>• Darperir cyfarpar sy'n berthnasol i'r datganiad o ddiben i gynnal safonau hylendid uchel, er enghraifft:<br>○ mewn cartrefi gofal, cyfleusterau golchi dillad a golchi dwylo sydd ar gael yn hwylus ac wedi'u lleoli'n briodol;<br>○ ym mhob gwasanaeth, bod dillad ~~gwarchod~~diogelu, menig a ffedogau ar gael.<br>• bydd gan y darparwr gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n bodloni gofynion yr awdurdodau rheoleiddio perthnasol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr.<br>• Bydd gweithdrefnau ar gyfer rheoli gwastraff peryglus yn cyflawni gofynion deddfwriaeth a chanllawiau Iechyd a Diogelwch perthnasol.<br>• Bydd polisïau a gweithdrefnau ar waith i atal heintiau ac i atal heintiau rhag lledaenu, yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a |

| | |
|---|---|
| | chanllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ ymdrin â gwastraff clinigol a'i waredu'n ddiogel;<br>○ ymdrin â gollyngiadau;<br>○ darparu dillad ~~gwarchod;~~diogelu, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol (PPE);<br>○ golchi dwylo.<br><br>• Bydd y cyfarpar a ddarperir ar gyfer glanhau a dadhalogi yn addas i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol ac yn berthnasol i'r datganiad o ddiben. Bydd y cyfarpar:<br>○ yn hawdd cael gafael arno;<br>○ yn cael ei lanhau a'i ddadhalogi ar ôl ei ddefnyddio bob tro'n unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol a chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr. |

| **Rheoliad 57** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Iechyd a diogelwch**<br><br>**57.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch unigolion yn cael eu nodi a'u lleihau i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y fangre'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cenedlaethol cyfredol gyda golwg ar iechyd a diogelwch, diogelwch rhag tân, iechyd yr amgylchedd ac unrhyw safonau a bennir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Dyma ambell enghraifft:<br>○ tymheredd dŵr diogel sy'n ofynnol;<br>○ gosod rhwystrau ar ffenestri a'u cynnal a'u cadw;<br>○ gwagio'r adeilad adeg tân a driliau gwagio;<br>○ gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel;<br>○ storio, paratoi bwyd yn ddiogel;<br>○ asesiadau risg iechyd a diogelwch rheolaidd ar y fangre gan gynnwys y gerddi a'r cyfarpar.<br><br>• Pan welir bod angen gwelliannau, gweithredir ar hynny'n unol â lefel y risg. |

| | |
|---|---|
| | • Lle y bo hynny'n berthnasol, bydd darparwyr gwasanaethau'n gweithredu ar sail barn cyrff allanol megis y gwasanaeth tân, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Iechyd yr Amgylchedd a chyrff eraill sy'n darparu canllawiau arfer gorau. |

| **Rheoliad 58** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Meddyginiaethau**<br><br>**58.** —(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio a'u gweinyddu'n ddiogel.<br><br>(2) Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys y trefniadau ar gyfer—<br>a) cynnal cyflenwad digonol o feddyginiaethau;<br>b) archebu, ail-archebu, cofnodi, trin a gwaredu meddyginiaethau yn effeithiol;<br>c) archwilio storio a gweinyddu meddyginiaethau yn rheolaidd.<br><br>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle mewn perthynas â storio a gweinyddu meddyginiaethau yn ddiogel a rhaid iddo sicrhau y darperir y gwasanaeth yn unol â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau hyn. | • Bydd polisi a gweithdrefn meddyginiaeth ar waith yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol. Bydd hyn yn cynnwys y systemau sydd ar waith i reoli a goruchwylio'r gwaith o archebu, ailarchebu, storio (meddyginiaeth sy'n cael ei rheoli a heb ei rheoli), gweinyddu (gan gynnwys gweinyddu'n gudd), cysoni, cofnodi, a gwaredu meddyginiaethau.<br><br>• Wrth storio a gweinyddu meddyginiaethau, cedwir at ganllawiau cenedlaethol statudol ac anstatudol.<br><br>• Bydd trefniadau ar waith i gynorthwyo'r unigolyn i reoli ei feddyginiaeth yn annibynnol, ac i hybu hynny, gan gynnwys cysylltu â gweithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn galluogi hyn.<br><br>• Os bydd meddyginiaeth yn cael ei gweinyddu'n gudd, bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'r canllawiau arfer gorau cyfredol.<br><br>• Cyn rheoli, gweinyddu neu gynorthwyo unigolion i reoli eu meddyginiaeth eu hunain, bydd staff yn cael hyfforddiant a byddant yn gymwys i wneud hynny.<br><br>• Bydd systemau ar waith i sicrhau bod trefniadau rheoli meddyginiaethau'n cael eu goruchwylio a'u harchwilio. |

| | |
|---|---|
| | • Os bydd staff yn ysgwyddo gweithgareddau wedi'u dirprwyo gan weithwyr proffesiynol eraill i reoli meddyginiaethau, bydd hyn yn gyson ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol cyfredol a/neu godau ymarfer proffesiynol. |

## 1.13 Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau (Rhan 15)

Bwriad Rhan 15 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael eu gwarchod gan wasanaeth sy'n gweithio'n rhagweithiol i sicrhau eu bod yn cael gofal a chymorth ac i ddiogelu eu hawliau a’u llesiant drwy:

- gadw cofnodion cywir sydd ar gael iddynt hwy a'u cynrychiolwyr;
- cyfathrebu â'r cyrff rheoleiddio perthnasol ac asiantaethau statudol lle ~~bydd~~bo pryderon (gan gynnwys pryderon diogelu) a digwyddiadau arwyddocaol yn effeithio ar unigolion.
- hyrwyddo gwasanaeth agored a thryloyw drwy gyhoeddi polisi a gweithdrefn gwyno hawdd i bobl eu defnyddio;
- cefnogi staff a gwirfoddolwyr i ~~leisio pryderon~~godi unrhyw bryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu’r chwiban;
- dangos eu bod yn dysgu yn sgil ~~pryderon~~yr holl bryderon a chwynion er mwyn gwella'r gwasanaeth.

| **Rheoliad 59** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Cofnodion**<br><br>**59.** ~~—~~(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaeth gadw a chynnal y cofnodion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 2 mewn cysylltiad â phob man y darperir y gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.<br>(2) Pan fo’r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd, rhaid i’r darparwr gwasanaeth hefyd gadw a chynnal y cofnodion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 2 mewn cysylltiad â phob man y darperir y gwasanaeth hwnnw ynddo.<br>(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaeth—<br>a) sicrhau bod cofnodion sy’n ymwneud ag unigolion yn gywir ac yn gyfredol;<br>b) cadw pob cofnod yn ddiogel; | • Bydd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer rheoli cofnodion. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, cofnodion sy’n ymwneud ag asesiad arbenigol o unigolyn, prawf galluedd meddyliol, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac ati.<br><br>• Bydd y staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall yn glir y gweithdrefnau ar gyfer rheoli cofnodion. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ym maes gwarchod gwybodaeth a'r camau i'w cymryd pan fydd perygl i wybodaeth bersonol gael ei datgelu.<br><br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n cadw'r holl gofnodion sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn unigolion a chynnal y gwasanaeth yn effeithlon yn unol â'r hyn a bennir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.<br><br>• Mewn gwasanaethau cartrefi gofal sy'n lletya plant: |

| | |
|---|---|
| c) gwneud trefniadau er mwyn i'r cofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel os bydd y gwasanaeth yn cau;<br>d) yn achos cofnodion am blentyn sy'n cael ei letya mewn gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, sicrhau bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r awdurdod lleoli pan fo'r gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu mewn cysylltiad â'r plentyn y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef;<br>e) gwneud y cofnodion ar gael i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ar gais;<br>f) cadw cofnodion sy'n ymwneud ag oedolion am dair blynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf;<br>g) cadw cofnodion sy'n ymwneud â phlant am bymtheng mlynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf, oni bai bod y cofnodion yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleoli yn unol ag is-baragraff (d);<br>h) sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth—<br>i. yn gallu cael mynediad i'w cofnodion; a<br>ii. yn cael eu gwneud yn ymwybodol eu bod yn gallu cael mynediad i'w cofnodion. | ○ cedwir cofnod parhaol, preifat a diogel o hanes y plentyn, cynlluniau addysgol, cynnydd a chyflawniadau, unrhyw ddatganiad o anghenion addysgol arbennig;<br>○ caiff y plentyn a rhieni'r plentyn weld y cofnod fel sy'n briodol ac yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol cyfredol neu orchmynion llys sydd ar waith.<br><br>• Bydd pob cofnod yn cael ei gadw'n ddiogel, yn cael ei ddiweddaru a bydd trefn dda arno. Bydd y cofnodion yn cael eu paratoi, eu cynnal a'u defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data a gofynion statudol eraill ac fe'u cedwir am y cyfnod sy'n ofynnol yn unol â rheoliad 59(3)(f) a (g).<br><br>• Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel, gan gynnwys cofnodion electronig a ddiogelir gan gyfrinair.<br><br>• Bydd unigolion, eu gofalwyr neu eu cynrychiolwyr a'r staff yn cael gweld unrhyw gofnodion a'r wybodaeth a gedwir amdanynt gan y darparwyr gwasanaethau yn unol â gofynion cyfreithiol cyfredol. |

| **Rheoliad 60** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Hysbysiadau**<br><br>**60.** —(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 3.<br>(2) Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth cartref gofal i blant, rhaid i'r darparwr— | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau priodol ar waith er mwyn i'r awdurdod perthnasol gael hysbysiad am y digwyddiadau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau.<br><br>• Bydd hysbysiadau'n cael eu gwneud yn ddi-oed, o fewn 24 awr i'r digwyddiad fel arfer. |

| | |
|---|---|
| a) hysbysu’r awdurdod lleoli am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 3;<br>b) hysbysu’r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae’r cartref ynddi am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 3;<br>c) hysbysu’r swyddog heddlu priodol am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 5 o Atodlen 3;<br>d) hysbysu’r bwrdd iechyd y mae’r cartref yn ei ardal am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 6 o Atodlen 3.<br>(3) Rhaid i’r hysbysiadau sy’n ofynnol gan baragraffau (1) a (2) gynnwys manylion y digwyddiad.<br>(4) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.<br>(5) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a’r ffurf sy’n ofynnol gan y rheoleiddiwr gwasanaethau. | • Bydd y canlynol yn berthnasol gyda golwg ar Atodlen 3 (17). ~~a (33).~~ Bydd darparwyr gwasanaethau’n hysbysu'r rheoleiddiwr am unrhyw ddamwain neu~~,~~ anaf ~~neu salwch~~ i unigolyn sydd, ym marn resymol gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, ag angen triniaeth gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol hwnnw, neu weithiwr arall, ac sydd wedi arwain neu a allai fod wedi arwain at–<br>○ niwed neu amhariad (naill ai’n barhaol neu’n debygol o bara fwy na 28 diwrnod) i weithgarwch synhwyraidd, echddygol neu ddeallusol yr unigolyn,<br>○ newidiadau i strwythur corff yr unigolyn,<br>○ yr unigolyn yn cael poen am gyfnod maith neu niwed seicolegol am gyfnod maith, neu<br>○ farwolaeth yr unigolyn neu gwtogi ei ddisgwyliad oes.<br>• Mae’r canlynol yn gymwys o ran Atodlen 3 (33). Mae darparwyr gwasanaethau yn hysbysu'r awdurdod lleoli am unrhyw ddamwain neu anaf i blentyn sydd, ym marn resymol gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, ag angen triniaeth gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol hwnnw, neu weithiwr arall, ac sydd wedi arwain neu a allai fod wedi arwain at:<br>○ niwed neu amhariad (naill ai’n barhaol neu’n debygol o bara fwy na 28 diwrnod) i weithgarwch synhwyraidd, echddygol neu ddeallusol yr unigolyn,<br>○ newidiadau i strwythur corff yr unigolyn,<br>○ yr unigolyn yn cael poen am gyfnod maith neu niwed seicolegol am gyfnod maith, neu<br>○ farwolaeth neu gwtogi disgwyliad oes yr unigolyn.<br>• Bydd y canlynol yn berthnasol gyda golwg ar Atodlen 3 (20). Bydd darparwyr gwasanaethau yn hysbysu'r rheoleiddiwr am unrhyw ddigwyddiadau sy'n eu hatal, neu a allai eu hatal rhag |

| | |
|---|---|
| | parhau i ddarparu'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ nifer annigonol o staff sydd wedi'u cymhwyso a'u hyfforddi'n ddigonol ac sy'n fedrus, yn hyfedr ac yn brofiadol ar gael i weithio yn y gwasanaeth,<br>○ tarfu ar y cyflenwad trydan, nwy, dŵr neu garthffosiaeth yn y fangre sydd ym mherchnogaeth y darparwr gwasanaeth neu a ddefnyddir ganddo at ddibenion darparu'r gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio, a'r tarfu hwnnw wedi para'n hwy na chyfnod di-dor o 24 awr,<br>○ difrod ffisegol i'r fangre sydd ym mherchnogaeth y darparwr gwasanaeth neu a ddefnyddir ganddo at ddibenion darparu'r gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio sydd wedi, neu sy'n debygol o amharu er gwaeth ar y gofal a'r cymorth a roddir i unigolion,<br>○ system gwresogi'r fangre sydd ym mherchnogaeth y darparwr gwasanaeth neu a ddefnyddir ganddo at ddibenion darparu'r gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio wedi methu neu'n ddiffygiol a'r methiant neu'r diffyg hwnnw wedi para'n hwy na chyfnod di-dor o 24 awr.<br>○ system larwm tân neu ddyfeisiau diogelwch eraill mangre o sydd ym mherchnogaeth y darparwr gwasanaeth neu a ddefnyddir ganddo at ddibenion darparu'r gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio wedi methu neu'n ddiffygiol, a'r methiant neu'r diffyg hwnnw wedi para'n hwy na chyfnod di-dor o 24 awr.<br><br>• Bydd y canlynol yn berthnasol gyda golwg ar Atodlen 3 (30)(42) (44)(46). Bydd darparwyr gwasanaethau'n hysbysu'r awdurdodau perthnasol am unrhyw ddigwyddiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) neu gamfanteisio'n droseddol ar blant (CCE), neu amheuaeth o'r naill neu'r llall. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: |

- pan fydd plentyn a nodwyd fel un sy’n wynebu risg o CSE neu CCE yn mynd ar goll;
- pan fydd plentyn yn rhoi gwybod am ddigwyddiad sy'n awgrymu y gallai fod wedi dioddef CSE neu CCE; neu
- pan fydd rheswm dros gredu y gall plentyn fod yn destun CSE neu CCE.
- ~~Bydd y canlynol yn berthnasol gyda golwg ar Atodlen 3 (30) (42) (44) (46). Bydd darparwyr gwasanaethau yn hysbysu'r awdurdodau perthnasol am unrhyw ddigwyddiad o gamfanteisio’n rhywiol neu’n droseddol ar blant neu amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu’n droseddol ar blant. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i’r canlynol:~~
- ~~pan fydd plentyn y gwelwyd bod perygl i rywun gamfanteisio'n rhywiol arno’n mynd ar goll;~~
- ~~pan fydd plentyn yn rhoi gwybod am ddigwyddiad sy'n awgrymu y gall fod rhywun yn cam-fanteisio’n rhywiol arno;~~
- ~~pan fydd rheswm dros gredu y gall rhywun fod yn camfanteisio'n rhywiol ar blentyn.~~

- Os bydd plentyn y nodwyd ei fod yn wynebu risg o CSE neu CCE yn mynd ar goll, dim ond un hysbysiad a wneir o dan Atodlen 3 (30)(42)(44)(46).
- ~~Os bydd plentyn y gwelwyd bod perygl i rywun gam-fanteisio’n rhywiol arno'n mynd ar goll, dim ond un hysbysiad a wneir o dan Atodlen 3 (30) (42) (44)(46).~~

- Bydd y canlynol yn berthnasol gyda golwg ar Atodlen 3 (31) (40) (45). Bydd darparwyr gwasanaethau yn hysbysu'r awdurdodau perthnasol am unrhyw achos lle bydd plentyn a letyir yn mynd ar goll neu'n absennol heb esboniad.  Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i’r canlynol:

| | |
|---|---|
| | ○ Pan na fydd neb yn gwybod lle mae'r plentyn na'r rheswm dros ei absenoldeb a bod achos i bryderu yn ei gylch am ei fod yn agored i niwed neu'n risg iddo'i hun neu eraill. Bydd y pwynt pan fydd y cartref yn pryderu ac yn cymryd camau yn ei gylch, gan gynnwys rhoi gwybod i'r heddlu bod plentyn ar goll, yn amrywio yn ôl asesiad risg unigol y plentyn. |

**Rheoliad 61**

**Hysbysu mewn cysylltiad â phlant sy'n cael eu derbyn i fan, neu ei ryddhau o fan, y darperir llety i blant ynddo**

**61.** —(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu—

a) gwasanaeth cartref gofal sy'n darparu llety i blant (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel "gwasanaeth cartref gofal i blant"), neu
b) gwasanaeth llety diogel.

(6) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at "y llety" yn gyfeiriadau at y man y mae gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth llety diogel wedi ei ddarparu ynddo.

(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu, yn ddi-oed, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r llety ynddi, am bob plentyn sy'n cael ei dderbyn i'r llety ac am bob plentyn sy'n cael ei ryddhau o'r llety.

(8) Nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r awdurdod lleol ym mharagraff (3) os yr awdurdod lleol hwnnw yw'r awdurdod lleoli ar gyfer y plentyn o dan sylw hefyd.

(9) Rhaid i hysbysiad o dan y rheoliad hwn fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo ddatgan—

a) enw a dyddiad geni'r plentyn;
b) a yw llety wedi ei ddarparu i'r plentyn o dan adran 76 neu 77 o Ddeddf 2014 neu, yn achos plentyn a leolir gan awdurdod lleol yn Lloegr, a yw llety yn cael ei ddarparu i'r plentyn o dan adran 20 neu 21 o Ddeddf Plant 1989;
c) a yw'r plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989;
d) manylion cyswllt—
    i. awdurdod lleoli'r plentyn; a
    ii. y swyddog adolygu annibynnol a benodir ar gyfer achos y plentyn; ac
e) a oes gan y plentyn ddatganiad anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal ac, os felly, fanylion yr awdurdod lleol a chanddo gyfrifoldeb am gynnal y datganiad anghenion addysgol arbennig neu'r cynllun addysg, iechyd a gofal.

| |
|---|
| (5) Yn y rheoliad hwn, mae i "cynllun addysg, iechyd a gofal" yr ystyr a roddir i "EHC plan" yn adran 37(2) (cynlluniau addysg, iechyd a gofal) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014([7]). |

| Rheoliad 62 | Canllawiau |
|---|---|
| **Hysbysu mewn cysylltiad â marwolaeth plentyn sy'n cael ei letya mewn cartref diogel i blant**<br><br>**62.** —(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo plentyn y darperir gwasanaeth llety diogel([8]) iddo yn marw.<br><br>(2) Mae unrhyw ofynion a osodir gan y rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth y gwasanaeth llety diogel a oedd yn darparu llety i'r plentyn ar adeg ei farwolaeth.<br><br>(3) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth yn ddi-oed hysbysu—<br>a) swyddfa briodol y rheoleiddiwr gwasanaethau;<br>b) yr awdurdod lleoli;<br>c) yr awdurdod lleol y mae'r gwasanaeth llety diogel yn ei ardal;<br>d) y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r gwasanaeth llety diogel yn ei ardal;<br>e) Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth Cymru a Lloegr ("yr OCPh"); ac<br>f) rhiant y plentyn neu'r person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n hysbysu'r awdurdodau perthnasol ynghylch marwolaeth plentyn sy'n cael ei letya mewn cartref diogel i blant yn unol â rheoliad 62.<br><br>• Mae'r rheoliad hysbysu hwn yn berthnasol i ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau llety diogel a chartrefi gofal sy'n darparu llety i blant.<br><br>• Pan fydd plentyn yn symud i mewn neu'n gadael y gwasanaeth, bydd darparwyr gwasanaethau'n hysbysu'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r cartref gofal neu'r llety diogel wedi'i leoli ynddi.<br><br>• ~~Rhaid i'r~~Mae'r hysbysiad hwn yn cg~~g~~ynnwys yr wybodaeth sydd yn rheoliad 62 (5). |

7 2014 p. 6. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/6/pdfs/ukpga_20140006_en.pdf
8 Mae gwasanaethau llety diogel yn wasanaeth rheoleiddiedig o dan y Ddeddf (gweler adran 2(1)(b) o'r Ddeddf.) Mae paragraff 2 o Atodlen 1 o'r ddeddf yn diffinio "gwasanaethau llety diogel" fel darpariaeth o lety at ddiben cyfyngu ar ryddid plant mewn mangreoedd preswyl yng Nghymru lle y darperir gofal a chymorth i'r plant hynny.

| | |
|---|---|
| (4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ganiatáu i'r OCPh ymchwilio i'r farwolaeth drwy—<br>a) rhoi i'r OCPh fynediad i—<br>i. mangre'r gwasanaeth; a<br>ii. dogfennau a chofnodion y gwasanaeth;<br>b) caniatáu i'r OCPh fynd â chopïau, o'r fangre, o unrhyw ddogfennau neu gofnodion y ceir mynediad iddynt o dan is-baragraff (a)(ii) ar yr amod bod gan yr OCPh drefniadau diogel ar gyfer gwneud hynny; ac<br>c) os byddant yn cydsynio, ganiatáu i'r OCPh gyf-weld yn breifat ag unrhyw blant, rhieni (neu bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhiant) neu berthnasau, neu bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth.<br>(5) Rhaid i hysbysiad o dan y rheoliad hwn—<br>a) cynnwys manylion—<br>i. amgylchiadau'r farwolaeth;<br>ii. y personau, y cyrff neu'r sefydliadau eraill (os oes rhai) y mae'r darparwr gwasanaeth wedi eu hysbysu neu'n bwriadu eu hysbysu; a<br>iii. unrhyw gamau gweithredu y mae'r darparwr gwasanaeth wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r farwolaeth;<br>b) cael ei wneud neu ei gadarnhau yn ysgrifenedig.<br>(6) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at yr OCPh yn cynnwys person sydd wedi ei benodi gan, neu sy'n gweithio ar ran, yr OCPh at ddibenion ymchwiliad o dan baragraff (2). | |

| Rheoliad 63 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gwrthdaro buddiannau (gan gynnwys gwaharddiadau)**<br><br>**63.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i nodi, cofnodi a rheoli achosion posibl o wrthdaro buddiannau.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau nad yw person a chanddo fuddiant ariannol ym mherchnogaeth gwasanaeth cartref gofal yn gweithredu fel ymarferydd meddygol ar gyfer unrhyw unigolyn y darperir y gwasanaeth hwnnw ar ei gyfer. | • Bydd darparwyr gwasanaethau'n cynnal systemau priodol ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwrthdaro gwirioneddol neu wrthdaro ymddangosiadol rhwng buddiannau'n cael eu nodi, eu hatal a'u cofnodi'n agored.<br><br>• Os bydd gan ymarferydd meddygol fudd ariannol mewn gwasanaeth cartref gofal, ni fydd yr ymarferydd yn gweithredu fel ymarferydd meddygol ar ran unigolyn sy'n cael gofal gan y gwasanaeth. Bydd budd ariannol yn cynnwys:<br>  ○ bod yn berchen ar y sefydliad darparu, neu'n bartner neu'n gyfarwyddwr arno;<br>  ○ bod yn gyfranddaliwr neu'n dal stociau yn y sefydliad darparu. |

| Rheoliad 64 | Canllawiau |
|---|---|
| **Polisi a gweithdrefn gwyno**<br><br>**64.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi cwyno yn ei le a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei weithredu yn unol â'r polisi hwnnw.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer ymdrin â chwynion gan gynnwys trefniadau ar gyfer—<br>a) nodi cwynion ac ymchwilio iddynt;<br>b) rhoi ymateb priodol i berson sy'n gwneud cwyn, os yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r person hwnnw;<br>c) sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd yn dilyn ymchwiliad;<br>d) cadw cofnodion sy'n ymwneud â'r materion yn is-baragraffau (a) i (c). | • Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi cwyno hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys, lle bo'n briodol, gam datrys anffurfiol, a bydd yn esbonio –<br>  ○ at bwy y dylid mynd i drafod pryder/cwyn;<br>  ○ sut y gellir helpu unigolion i wneud cwyn;<br>  ○ gwybodaeth am gael eiriolaeth annibynnol, os bydd ar gael~~;~~, gan gynnwys Corff Llais y Dinesydd (Llais);<br>  ○ sut yr ymdrinnir â chwynion;<br>  ○ camau ac amserlenni'r broses.<br><br>• Bydd y polisi a'r gweithdrefnau mewn fformat hawdd ei ddarllen. Bydd wedi'i hysbysebu'n dda, ac ar gael yn rhwydd ac yn hwylus i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd, pobl eraill sy'n bwysig iddynt, ymwelwyr, staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| (3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu crynodeb o gwynion, ymatebion a chamau gweithredu dilynol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.<br>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>a) dadansoddi gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion a phryderon; a<br>b) rhoi sylw i'r dadansoddiad hwnnw, gan nodi unrhyw feysydd i'w gwella. | • Bydd gwybodaeth am lwybrau cwyno eraill yn cael ei chynnwys i helpu achwynwyr os na fyddant yn fodlon ar y camau a gymerir gan y darparwr gwasanaethau. Er enghraifft, gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r awdurdod comisiynu, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ~~Cymru~~Cymru, Corff Llais y Dinesydd (Llais) ac, yn achos plant, Comisiynydd Plant Cymru.<br>• Bydd unigolion yn gallu cwyno yn ysgrifenedig neu ar lafar wrth y staff a dylid cydnabod y cwynion hyn oni fyddant yn ddienw.<br>• Bydd staff yn ymwybodol o'r polisi cwyno ac yn deall sut y mae ymateb yn briodol i gwynion.<br>• Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unrhyw sylwadau neu gwynion yn cael eu cadarnhau, yn cael sylw'n ddi-oed a bod yr achwynydd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.<br>• Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r achwynydd yn nodi canlyniad y gŵyn ac unrhyw gamau i'w cymryd.<br>• Lle bo'n ymarferol, ~~dylid cael~~gofynnir am g~~c~~aniatâd i ddatgelu manylion achwynydd lle bo angen, er mwyn galluogi i ymchwiliad effeithiol gael ei gynnal.<br>• Caiff cyfrinachedd ei gadw drwy gydol y broses gwyno oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, er enghraifft rhai'n ymwneud â diogelu.<br>• Ni fydd unigolion yn wynebu unrhyw erledigaeth nac unrhyw anfantais arall oherwydd iddynt gyflwyno sylwadau neu gwynion, ac ni roddir y gorau i ddarparu gwasanaeth na chyfyngu ar y gwasanaeth a ddarperir yn sgil hynny ychwaith. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd systemau ar waith i sicrhau ~~bod pob~~<u>yr ymchwilir i bob</u> cwyn ~~yn cael ei hymchwilio~~ yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u nodi ym mholisi cwynion y darparwr gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:<br>    ○ cynnal adolygiad i bennu lefel yr ymchwiliad a'r camau y bydd gofyn eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys a oes gofyn cyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol er mwyn cynnal ymchwiliad. Gallai hyn gynnwys y rheoleiddiwr gwasanaethau neu dimau diogelu'r awdurdod lleol.<br>    ○ os gwelir bod meysydd lle mae angen gwella neu lle mae'r gwasanaeth yn methu, gweithredu ar y rhain ar unwaith.<br><br>• Bydd gan staff a phobl eraill sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion y lefel gywir o wybodaeth a sgiliau i wneud hyn. Byddant yn deall proses gwyno'r darparwr gwasanaeth a byddant yn gyfarwydd ag unrhyw ganllawiau cyfredol cysylltiedig.<br><br>• Bydd cofnodion o gwynion yn cael eu cadw a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau rhagataliol.<br><br>• Bydd adroddiad ynghylch y camau a gymerir i ymateb i gwynion fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth. |

| **Rheoliad 65** | **Canllawiau** |
|---|---|
| | • Bydd polisi a gweithdrefn hygyrch ar gyfer chwythu'r chwiban. Mae hyn yn cynnwys:<br>    ○ y drefn ar gyfer ~~lleisio~~ <u>codi</u> pryder; |

**Chwythu'r chwiban**

**65.** ~~—~~(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod pob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) yn gallu codi pryderon am faterion a all effeithio'n andwyol ar iechyd, diogelwch neu lesiant unigolion y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer.

(2) Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys—

a) cael polisi chwythu'r chwiban yn ei le a gweithredu yn unol â'r polisi hwnnw, a

b) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o'r fath.

(3) Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y trefniadau sy'n ofynnol o dan y rheoliad hwn yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

(4) Pan godir pryder, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau—

a) yr ymchwilir i'r pryder;

b) y cymerir camau priodol yn dilyn ymchwiliad;

c) y cedwir cofnod o'r ddau bwynt uchod.

- y dulliau diogelu sydd ar waith ar gyfer staff sy'n ~~lleisio~~codi pryder;
- sut yr ymchwilir i'w pryderon.

- Bydd staff yn ymwybodol o sut y mae ~~lleisio~~ codi pryderon~~,~~ (gan gynnwys pryderon am ddiogelu), a byddant wedi cael hyfforddiant ar sut y mae gwneud hyn, a bydd mecanweithiau a chymorth ar gael i'w galluogi i wneud hyn.

- ~~Dylid cael~~Gofynnir am ~~g~~caniatâd (lle bo hynny'n ymarferol) i ddatgelu manylion am bryder er mwyn galluogi i ymchwiliad effeithiol gael ei gynnal.

- Bydd cyfrinachedd yn cael eu sicrhau drwy gydol y broses ymchwilio oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy'n ymwneud â diogelu.

- Ni fydd unigolion yn wynebu unrhyw erledigaeth nac unrhyw anfantais yn sgil mynegi eu pryderon.

- Dilynir trywydd pob honiad ~~o gam-drin a phob~~, digwyddiad neu dystiolaeth o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol yn ddi-oed yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaeth a'r trefniadau diogelu lleol.

- Bydd systemau ar waith i sicrhau bod pob pryder diogelu yn cael ei ystyried yn ddi-oed yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys:
  - cynnal adolygiad i bennu lefel yr ymchwiliad a'r camau y bydd gofyn eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys cyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol er mwyn cynnal ymchwiliad (gallai hyn gynnwys ceisio cyngor gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu staff diogelu'r awdurdod lleol).

| | |
|---|---|
| | <ul><li>os gwelir bod meysydd lle mae angen gwella neu lle mae'r gwasanaeth yn methu, gweithredu ar y rhain ar unwaith.</li><li>sicrhau bod gan staff a phobl eraill sy'n ymwneud â'r ymchwiliad yn deall y prosesau sy'n ymwneud â diogelu ac ymateb i bryderon.</li></ul><br>• Cedwir cofnodion o bryderon a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau rhagataliol. Bydd camau a gymerir wrth ymateb i chwythu'r chwiban yn cael eu hadrodd o fewn y trefniadau llywodraethu. |

# Pennod 2: Gofynion ar Unigolion Cyfrifol (rhannau 16 i 20 o'r Rheoliadau)

Bwriad Rhannau 16 i 20 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolyn dynodedig ar lefel uwch briodol yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a hefyd am gydymffurfio. Bydd y Rheoliadau'n gosod gofynion penodol ar yr unigolyn cyfrifol a bydd yn galluogi'r rheoleiddiwr gwasanaethau i gymryd camau yn erbyn y darparwr gwasanaeth ond hefyd yn erbyn yr unigolyn cyfrifol oni chydymffurfir â'r gofynion rheoliadol. Mae'r rheoliadau yn y Rhannau hyn wedi eu gwneud o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am **oruchwylio** rheolaeth y gwasanaeth ac am roi sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am sicrhau bod gan y gwasanaeth reolwr, a digon o adnoddau a chefnogaeth. Nid yr unigolyn cyfrifol fydd yn gyfrifol am reolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd (heblaw ei fod yn rheolwr hefyd); y rheolwr fydd yn gyfrifol am hyn.

## 2.1 Gofynion ar unigolion cyfrifol o ran sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol (Rhan 16)

| Rheoliad 66 | Canllawiau |
|---|---|
| **Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth**<br><br>**66.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, sy'n cynnwys cymryd y camau a ddisgrifir yn rheoliadau 64, 72 a 73. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dilyn y ~~systemau a'r~~polisïau, y prosesau a'r systemau a ragnodwyd gan y darparwr gwasanaeth er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol, ond nid dim ond hynny:<br>○ canolbwyntio ar lesiant a chanlyniadau personol unigolion;<br>○ gwrando ar unigolion;<br>○ ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon neu gwynion;<br>○ sicrhau nad yw unigolion yn cael eu rhoi mewn perygl diangen;<br>○ sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion;<br>○ cyflawni'r datganiad o ddiben;<br>○ cyflogi nifer ddigonol o staff sydd wedi'u hyfforddi, sy'n gymwys ac yn fedrus i gyflawni eu rôl; |

| | |
|---|---|
| | ○ bod gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau, cyfleusterau a chyfarpar.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau i adolygu ac asesu sut y mae'r rheolwr yn rhoi camau ar waith a nodwyd yng nghanfyddiadau adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac arolygu allanol, o fewn yr amserlenni a bennwyd.<br><br>• Bydd llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb clir ar gael yn ysgrifenedig rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd).<br><br>• Bydd trefniadau ar waith i'r rheolwr allu cysylltu'n uniongyrchol â'r unigolyn cyfrifol yn ogystal â'r cyfle i gyfarfod yn ffurfiol fel rhan o adolygiadau ansawdd yr unigolyn cyfrifol (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd).<br><br>• Bydd trefniadau ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn cael cymorth drwy ei oruchwylio a'i hyfforddi, a rhoi cyfle iddo feddu ar sgiliau ar gyfer ei ddatblygiad proffesiynol sy'n gefn iddo yn ei rôl. |

| **Rheoliad 67** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Dyletswydd i benodi rheolwr**<br><br>**67.** —(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth. Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r amodau ym mharagraff (2) neu (3) yn gymwys.<br><br>(2) Yr amodau yw—<br><br>a) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn; | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei benodi ac yn ei le i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ar gyfer pob man y darperir y gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. |

| | |
|---|---|
| b) bod y darparwr gwasanaeth yn bwriadu rheoli'r gwasanaeth;<br>c) bod y darparwr gwasanaeth yn addas i reoli'r gwasanaeth;<br>d) bod y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru; ac<br>e) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i'r darparwr gwasanaeth reoli'r gwasanaeth.<br>(3) Yr amodau yw—<br>a) bod y darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, yn gorff corfforaethol neu'n gorff anghorfforedig;<br>b) bod y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd mewn dim mwy na dau leoliad neu ei fod wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cymorth cartref mewn perthynas â dim mwy na dwy ardal;<br>c) bod y darparwr gwasanaeth yn cynnig bod yr unigolyn sydd wedi ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth i gael ei benodi i reoli'r gwasanaeth;<br>d) bod yr unigolyn hwnnw yn addas i reoli'r gwasanaeth;<br>e) bod yr unigolyn hwnnw wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru; ac<br>f) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i'r unigolyn hwnnw reoli'r gwasanaeth.<br>(4) At ddibenion paragraff (2)(c), nid yw'r darparwr gwasanaeth yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 35(2) (addasrwydd staff) yn cael eu bodloni mewn cysylltiad â'r darparwr gwasanaeth.<br>(5) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (1) wedi ei chyflawni os yw'r person a benodir i reoli'r gwasanaeth yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd dros benodi'r rheolwyr, ni waeth a yw'n rhan uniongyrchol o'r broses recriwtio neu beidio.<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dawel ei feddwl bod yr unigolyn a benodir i fod yn rheolwr y gwasanaeth yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i reoli'r gwasanaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion y Rheoliadau.<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dangos bod diwydrwydd dyladwy wedi'i ddangos wrth benodi'r rheolwr yn ogystal â dilyn gofynion rheoliad 35 (addasrwydd staff).<br><br>• Os bydd rheolwr yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis, bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod rheolwr sydd â'r cymwysterau, y profiad a'r cymhwysedd priodol, ac wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ei le i reoli'r gwasanaeth. |

| Rheoliad 68 | Canllawiau |
|---|---|
| **Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr**<br><br>**68.**—(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.<br>(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 35(2) (addasrwydd staff) yn cael eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw. | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i sicrhau bod y rheolwr yn addas ac yn alluog i redeg y gwasanaeth yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau:<br>○ bod gan y rheolwr y cymwysterau priodol;<br>○ bod y rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru;<br>○ bod y rheolwr yn brofiadol o ran rheoli gwasanaethau gofal a darparu'r math o ofal a ddarperir;<br>○ bod y broses o archwilio cefndir darpar reolwyr yn cynnwys yr archwiliadau perthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau i dawelu meddwl yr unigolyn cyfrifol bod yr unigolyn yn addas ac yn alluog i weithio gydag unigolion agored i niwed. |

| Rheoliad 69 | Canllawiau |
|---|---|
| **Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth**<br><br>**69.**—(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli mwy nag un gwasanaeth, oni bai bod paragraff (2) yn gymwys.<br>(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os—<br>a) yw'r darparwr gwasanaeth wedi gwneud cais i'r rheoleiddiwr gwasanaethau i gael caniatâd i benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth, a<br>b) yw'r rheoleiddiwr gwasanaethau wedi ei fodloni o ran y trefniadau rheoli arfaethedig— | • Pan gaiff rheolwr ei benodi i reoli mwy nag un gwasanaeth, cytunir ar hyn ymlaen llaw â'r rheoleiddiwr gwasanaethau. |

| | |
|---|---|
| i. na fyddant yn cael effaith andwyol ar iechyd neu lesiant unigolion, a<br>ii. y byddant yn darparu goruchwyliaeth ddibynadwy ac effeithiol o bob gwasanaeth. | |

| **Rheoliad 70** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i'r darparwr gwasanaeth**<br>**70.** Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 67(1), rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad i'r darparwr gwasanaeth o—<br>a) enw'r person a benodir, a<br>b) y dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith. | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i:<br>○ hysbysu'r darparwr gwasanaeth am fanylion penodiad y rheolwr;<br>○ darparu'r wybodaeth a bennir gan y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r unigolyn;<br>○ hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau a Gofal Cymdeithasol Cymru pan benodir rheolwr newydd. |

| **Rheoliad 71** |
|---|
| **Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau**<br>**71.**—(1) Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 67(1), rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau o—<br>a) enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y person a benodir, a<br>b) y dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith.<br>(6) Mewn achos pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn a bod y rheoleiddiwr gwasanaethau wedi cytuno i'r darparwr gwasanaeth reoli'r gwasanaeth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi hysbysiad i reoleiddiwr y gweithlu o—<br>a) enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y darparwr gwasanaeth, a<br>b) y dyddiad y mae'r darparwr gwasanaeth i reoli'r gwasanaeth ohono. |

| Rheoliad 72 | Canllawiau |
|---|---|
| **Y trefniadau pan fydd rheolwr yn absennol**<br><br>**72.**—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol ar unrhyw adeg pan nad oes rheolwr neu pan nad yw'r rheolwr yn bresennol yn y gwasanaeth.<br><br>(2) Os nad oes rheolwr neu os nad yw'r rheolwr yn bresennol yn y gwasanaeth am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r unigolyn cyfrifol—<br>a) hysbysu'r darparwr gwasanaeth a'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a<br>b) rhoi gwybod iddynt am y trefniadau sydd wedi eu rhoi yn eu lle ar gyfer rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol strwythurau ar waith sy'n sicrhau, os na fydd y rheolwr ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm, y bydd system ddirprwyo effeithiol a chymwys ar waith i ddarparu arweiniad o ddydd i ddydd sydd:<br>○ yn parhau i helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;<br>○ yn cynnal diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth;<br>○ yn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar unigolion sy'n cael y gwasanaeth;<br>○ yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;<br>○ yn cynnal datblygiad proffesiynol staff.<br><br>• Os na fydd y rheolwr, wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm am fwy na 28 diwrnod, bydd yr unigolyn cyfrifol yn hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn ysgrifenedig ac yn ddi-oed am y rheswm dros yr absenoldeb a'r trefniadau i ddarparu rheolwr yn ei le. |

| Rheoliad 73 | Canllawiau |
|---|---|
| **Ymweliadau**<br><br>**73.**—(1) Yn achos gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd([9]), rhaid i'r unigolyn cyfrifol— | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol i fonitro perfformiad y gwasanaeth yng nghyswllt ei ddatganiad o ddiben ac i lywio'r adolygiad o ansawdd y gofal. Bydd yr ymweliad yn cynnwys y canlynol:<br>○ siarad, gyda chydsyniad ac yn breifat, ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu |

(9) Gweler Atodlen 1 i'r Ddeddf i gael darpariaeth bellach ynghylch ystyr gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

| | |
|---|---|
| a) ymweld â phob man y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef, a<br>b) cwrdd â staff ac unigolion ym mhob man o'r fath.<br>(6) Yn achos gwasanaeth cymorth cartref ([10]), rhaid i'r unigolyn cyfrifol—<br>a) cwrdd ag aelodau o staff sydd wedi eu cyflogi i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig ym mhob man y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef, ohono neu mewn perthynas ag ef, a<br>b) cwrdd ag unigolion y mae gwasanaeth rheoleiddiedig yn cael ei ddarparu ym mhob man o'r fath, ohono neu mewn perthynas ag ef.<br>(7) Mae amlder ymweliadau a chyfarfodydd o'r fath i gael ei benderfynu gan yr unigolyn cyfrifol gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ond rhaid iddynt gael eu cynnal o leiaf bob tri mis. | cynrychiolwyr (os yw'n berthnasol) a staff. Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref, gall hyn gynnwys ymweld â sampl cynrychioladol o unigolion yn eu cartrefi eu hunain.<br>○ archwilio'r fangre, y dewis o gofnodion o ddigwyddiadau ac unrhyw gofnodion o gwynion.<br>○ Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu tystiolaeth bod ymweliadau wedi'u logio a'u cofnodi. , gan gynnwys tystiolaeth o:<br>○ ddyddiad yr ymweliad<br>○ manylion y trafodaethau â staff ac unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth<br>○ manylion y cofnodion a adolygwyd, a<br>○<br>○ manylion canlyniad yr ymweliad, megis y camau a gymerwyd i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol. |

(10) Gweler adran 2(1) o'r Ddeddf ar gyfer y gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys o fewn y diffiniad o "gwasanaeth rheoleiddiedig".

## 2.2 Gofynion ar unigolion cyfrifol o ran sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol (Rhan 17)

| Rheoliad 74 | Canllawiau |
|---|---|
| **Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**<br><br>**74.** —(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd i'r darparwr gwasanaeth am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau yn Rhannau 3 i 15 o'r Rheoliadau hyn.<br>(2) Rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn chwarterol.<br>(3) Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod ganddo systemau a phrosesau ar waith sy'n ei alluogi i gasglu gwybodaeth am y gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen arsylwi/ystyriaeth fwy gofalus a/neu wella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ trosiant staff;<br>○ lefelau salwch staff;<br>○ cwynion;<br>○ materion diogelu;<br>○ adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth,<br>○ canlyniadau arolygiadau a neu adroddiadau gan asiantaethau perthnasol eraill, h.y. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r gwasanaeth tân.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod ar unwaith i'r darparwr gwasanaeth os bydd y gwasanaeth:<br>○ yn methu â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau;<br>○ yn methu cyflawni neu roi sylw i faterion a godwyd mewn adroddiadau arolygu neu os na all wneud hynny;<br>○ yn darparu gwasanaeth mewn ffordd sy'n groes i'r datganiad o ddiben. |

| Rheoliad 75 | Canllawiau |
|---|---|
| **Adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth**<br><br>**75.**—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol, yn ddi-oed, adrodd i'r darparwr gwasanaeth—<br>a) am unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu'r gwasanaeth;<br>b) am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu;<br>c) am unrhyw bryderon nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.<br>(6) Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i roi gwybod i'r darparwr gwasanaeth yn unol â gofynion Rheoliadau 75 a 80(4).<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol system ar waith i gyflwyno adroddiadau i'r darparwr gwasanaeth sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i'r unigolyn cyfrifol roi adborth ac i roi gwybod am unrhyw faterion brys y mae gofyn cymryd camau yn eu cylch ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>  ○ Unrhyw honiad, digwyddiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol<br>  ○ marwolaeth annisgwyl neu heb esboniad unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth;<br>  ○ argyfwng naturiol;<br>  ○ afreoleidd-dra ariannol;<br>  ○ achosion sylweddol o haint;<br>  ○ pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu'r comisiynwyr;<br>  ○ unrhyw ddigwyddiad, sy'n effeithio ar y staff sydd ar gael. |

| Rheoliad 76 | Canllawiau |
|---|---|
| **Ymgysylltu ag unigolion ac eraill**<br><br>**76.**—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—<br>a) yr unigolion sy'n cael gofal a chymorth, | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i alluogi adborth ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir a sicrhau bod y trefniadau hyn yn hygyrch, ac yn ystyried barn pob un o'r rheini a restrir o dan reoliad 76(1). |

| | |
|---|---|
| b) unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny,<br>c) yn achos plentyn y darperir llety iddo, yr awdurdod lleoli,<br>d) comisiynwyr gwasanaethau, ac<br>e) staff sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth,<br>ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.<br>(6) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd am y safbwyntiau a geir i'r darparwr gwasanaeth er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr gwasanaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i gysylltu ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol neu angen o ran cyfathrebu.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol berthynas gadarnhaol â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn hwylus i'r bobl hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<br>○ teuluoedd neu gynrychiolwyr enwebedig;<br>○ comisiynwyr;<br>○ rheoleiddwyr;<br>○ cyrff proffesiynol. |

## 2.3 Gofynion ar unigolion cyfrifol o ran sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth (Rhan 18)

| Rheoliad 77 | Canllawiau |
|---|---|
| **Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion**<br><br>**77.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi digwyddiadau, cwynion a materion y mae rhaid gwneud hysbysiadau yn eu cylch yn unol â rheoliadau 60 i 62 a 84. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi'r materion a restrir yn rheoliad 77.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion yn glir, yn gywir ac yn cael eu cadw'n ddiogel. |

| Rheoliad 78 | Canllawiau |
|---|---|
| **Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion**<br><br>**78.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â chadw cofnodion, sy'n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod cofnodion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cadw gan reoliad 59 yn gywir ac yn gyflawn. | • Os bydd y cofnodion yn cael eu storio'n electronig, byddant yn ddiogel a bydd gan y staff godau mynediad unigol sy'n creu trywydd archwilio clir a fydd yn dangos pwy sydd wedi cofnodi neu ddiwygio unrhyw wybodaeth. |

| Rheoliad 79 | Canllawiau |
|---|---|
| **Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol**<br><br>**79.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau yn unol â rheoliad 12 a 79.<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod staff a gwirfoddolwyr yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau i'w helpu i sicrhau'r canlyniadau |

| | |
|---|---|
| | gorau posibl i unigolion, a'u bod yn gwybod am y polisïau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall. |

## 2.4 Gofynion ar unigolion cyfrifol o ran monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth rheoleiddiedig (Rhan 19)

<table>
<tr><th>Rheoliad 80</th><th>Canllawiau</th></tr>
<tr><td>

**Adolygiad o ansawdd y gofal**

**80.** —(1) Rhaid i’r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.

(2) Rhaid i’r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gofal a’r cymorth gael ei adolygu mor aml ag sy’n ofynnol ond o leiaf bob chwe mis.

(3) Fel rhan o unrhyw adolygiad a gynhelir, rhaid i’r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau ar gyfer—

a) ystyried canlyniad yr ymgysylltiad ag unigolion ac eraill, fel sy’n ofynnol gan reoliad 76;

b) dadansoddi’r data cyfanredol ar ddigwyddiadau, digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu’r chwiban, pryderon a chwynion;

c) adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chwynion;

d) ystyried canlyniad unrhyw archwiliad o gywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion.

(4) Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a’r cymorth yn unol â’r rheoliad hwn, rhaid i’r unigolyn cyfrifol lunio adroddiad i’r darparwr gwasanaeth y mae rhaid iddo gynnwys—

a) asesiad o safon y gofal a’r cymorth a ddarperir, a

b) argymhellion ar gyfer gwella’r gwasanaeth.

</td><td>

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
  - casglu a dadansoddi'r adborth gan y rheini a restrir o dan rheoliad 76(1);
  - materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu;
  - patrymau a thueddiadau a welwyd drwy ddadansoddi digwyddiadau neu ddamweiniau a fu bron â digwydd, er enghraifft cwympo neu wallau wrth roi meddyginiaeth;, risgiau diogelu, cofnodion o reolaeth ac ataliaeth, ac ati;
  - canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth;
  - canlyniad ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol i fonitro’r gwasanaeth;
  - archwiliadau o gyfrifon, gan gynnwys cynlluniau personol.

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau a phrosesau archwilio ar gyfer monitro'r gwasanaeth yn rhoi tawelwch meddwl bod y gwasanaeth yn darparu gofal o safon uchel, yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i unigolion ac yn gwella'u llesiant.

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod systemau a phrosesau yn cael eu hadolygu’n rheolaidd i alluogi'r unigolyn cyfrifol i weld ymhle y mae neu y gallai ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau fod dan fygythiad, gan ymateb yn briodol ac yn ddi-oed.

</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| (5) Ond nid yw'r gofyniad ym mharagraff (4) yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn. | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau y cydnabyddir pob adborth, a'i gofnodi ac ymateb iddo fel sy'n briodol.<br><br>• Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod meysydd dysgu yn sgil cwynion, diogelu a chwythu'r chwiban yn cael eu rhannu gyda'r staff i wella'r gwasanaeth ac i annog arferion diogel a thosturiol ym maes gofal.<br><br>• Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod meysydd dysgu yn cael eu dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i'r darparwr gwasanaeth ynghylch sut ac ymhle y gellir gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth.  Bydd yr adroddiad, sy'n cynnwys yr wybodaeth sydd wedi bod yn sail iddo (yn ymwneud â'r meysydd hynny a nodir uchod) yn llywio neu'n ffurfio rhan o'r datganiad cydymffurfio i'w cynnwys yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau. |

| **Rheoliad 81** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth**<br><br>**81.** —(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio'r datganiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gynnwys yn y datganiad blynyddol o dan adran 10(2)(b) o'r Ddeddf, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r man neu'r mannau y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef neu â hwy. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol wedi paratoi'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad cydymffurfio a datganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau, a bydd yn atebol am ei hansawdd a'i chywirdeb. |

| | |
|---|---|
| (2) Wrth lunio'r datganiad, rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi sylw i'r asesiad o safon y gofal a'r cymorth a gynhwysir mewn adroddiad a lunnir yn unol â rheoliad 80(4). | |

## 2.5 Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol (Rhan 20)

| Rheoliad 82 | Canllawiau |
|---|---|
| **Cymorth ar gyfer staff sy'n codi pryderon**<br><br>**82.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban y darparwr a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi unrhyw bryderon yn cael eu gweithredu'n effeithiol. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod:<br>○ staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn ei ddeall;<br>○ staff a gwirfoddolwyr yn deall na fydd gofal gwael na methiant i ddiogelu llesiant unigolion yn cael ei oddef,<br>○ sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i roi gwybod am faterion;<br>○ sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn deall bod croeso ac anogaeth iddynt fynegi pryderon, ac na fydd hynny'n cael ei anwybyddu. |

| Rheoliad 83 | Canllawiau |
|---|---|
| **Dyletswydd gonestrwydd**<br><br>**83.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol weithredu mewn ffordd agored a thryloyw—<br>a) ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth;<br>b) ag unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny;<br>c) yn achos plentyn y darperir llety iddo, â'r awdurdod lleoli. | • Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw gan sicrhau bod trefniadau addas ar waith i sicrhau ~~cydymffurfiaeth~~ cydymffurfedd â gofynion rheoliad 83. |

| Rheoliad 84 | Canllawiau |
|---|---|
| **Hysbysiadau**<br><br>**84.**—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Atodlen 4<br><br>(2) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan baragraff (1) gynnwys manylion y digwyddiad.<br><br>(3) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.<br><br>(4) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr gwasanaethau. | • Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth am ddigwyddiadau a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau. |

# Atodiad A: Rhannau o'r Rheoliadau nad ydynt yn destun y Canllawiau hyn

RHAN 1

Cyffredinol

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

1 (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 2 Ebrill 2018 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addasiadau rhesymol" ("*reasonable adjustments*") yw unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**11**);

ystyr "asesiad darparwr" ("*provider assessment*") yw'r asesiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gynnal gan y darparwr gwasanaeth o dan reoliad 18;

ystyr "awdurdod lleoli" ("*placing authority*") mewn perthynas â phlentyn y darperir llety iddo fel rhan o wasanaeth cartref gofal neu wasanaeth llety diogel yw—

a) yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol neu gan awdurdod lleol yn Lloegr, yr awdurdod lleol hwnnw;
b) yn achos plentyn nad yw'n derbyn gofal gan awdurdod lleol neu gan awdurdod lleol yn Lloegr—
   i. os yw llety yn cael ei ddarparu i'r plentyn gan sefydliad gwirfoddol, y sefydliad gwirfoddol hwnnw;
   ii. os yw'r plentyn wedi ei letya mewn ysgol gymhwysol o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol (pa un ai wrth arfer swyddogaethau addysg o fewn ystyr adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996(**12**) neu fel arall), yr awdurdod lleol hwnnw;
   iii. mewn unrhyw achos arall, rhiant y plentyn;

ac at ddibenion y diffiniad hwn, ystyr "ysgol gymhwysol" ("*qualifying school*") yw ysgol sy'n wasanaeth cartref gofal yn rhinwedd cymhwyso paragraff 1(3) o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

ystyr "canlyniadau personol" ("*personal outcomes*")—

(a) mewn perthynas ag oedolyn, yw'r canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu cyflawni mewn bywyd o ddydd i ddydd;
(b) mewn perthynas â phlentyn, yw—
   i. y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni, neu
   ii. y canlyniadau y mae unrhyw bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhiant yn dymuno eu cyflawni mewn perthynas â'r plentyn;

ystyr "comisiynydd y gwasanaeth" ("*service commissioner*") yw'r awdurdod lleol neu'r corff GIG sy'n gyfrifol am wneud trefniadau â'r darparwr er mwyn i ofal a chymorth gael eu darparu i unigolyn:

ystyr "cynllun gofal a chymorth" ("*care and support plan*") yw cynllun o dan adran 54 neu adran 83 o Ddeddf 2014;

ystyr "cynllun personol" ("*personal plan*") yw'r cynllun y mae'n ofynnol iddo gael ei lunio yn unol â rheoliad 15(1);

(**11**) 2010 p. 15.
(**12**) 1996 p. 56.

ystyr "cynrychiolydd" ("*representative*") yw unrhyw berson a chanddo awdurdod cyfreithiol neu sydd wedi cael cydsyniad yr unigolyn i weithredu ar ran yr unigolyn;

mae i "darparwr gwasanaeth" ("*service provider*") yr un ystyr ag yn adran 3(1)(c) o'r Ddeddf;

ystyr "y datganiad o ddiben" ("*the statement of purpose*") yw'r datganiad o ddiben ar gyfer y man y mae'r gwasanaeth wedi ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef(**13**);

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**14**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "y gwasanaeth" ("*the service*") yw—

(a) mewn perthynas â gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, y gwasanaeth a ddarperir mewn lleoliad penodedig;

(b) mewn perthynas â gwasanaeth cymorth cartref, y gwasanaeth a ddarperir mewn perthynas ag ardal benodedig.

At ddiben y diffiniad hwn—

i. ystyr "lleoliad penodedig" ("*specified location*") yw lleoliad a bennir mewn amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth fel man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo(**15**);

ii. ystyr "ardal benodedig" ("*specified area*") yw ardal a bennir mewn amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth fel man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef.

Ond nid yw'r diffiniad hwn yn gymwys i gyfeiriadau at "y gwasanaeth" ("*the service*") yn Rhan 22;

ystyr "gwasanaethau rheoleiddiedig" ("*regulated services*") yw gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel neu wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person sydd o dan 18 oed;

mae i "plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol" ("*child who is looked after by a local authority*") yr un ystyr ag yn adran 74 o Ddeddf 2014;

mae i "proffesiynolyn cofrestredig" yr ystyr a roddir i "*registered professional*" ym mharagraff 1 o Atodlen 3 i Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001;

ystyr "proffesiynolyn gofal iechyd" ("*health care professional*") yw person sydd wedi ei gofrestru'n aelod o unrhyw broffesiwn y mae adran 60(2) o Ddeddf Iechyd 1999(**16**) yn gymwys iddo;

ystyr "nyrs" ("*nurse*") yw nyrs gymwysedig neu fydwraig gymwysedig sydd wedi ei chofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;

ystyr "y rheoleiddiwr gwasanaethau" ("*the service regulator*") yw Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol(**17**);

ystyr "rheoleiddiwr y gweithlu" ("*the workforce regulator*") yw Gofal Cymdeithasol Cymru;

mae "staff" ("*staff*") yn cynnwys—

(a) personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth i weithio yn y gwasanaeth fel cyflogai neu weithiwr, a

---

(**13**) Mae rheoliad 3 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd ddarparu datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo; rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaethau lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli ddarparu datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ohono; rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth cymorth cartref ddarparu datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef.

(**14**) 2014 dccc 4.

(**15**) Mae adran 7(3)(a)(i) o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i ganiatáu cais o dan adran 6 o'r Ddeddf fod yn ddarostyngedig i amod sy'n pennu'r mannau y mae'r darparwr gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy.

(**16**) 1999 p. 8.

(**17**) Mae "swyddogaethau rheoleiddiol" wedi eu diffinio yn adran 3(1)(b) o'r Ddeddf.

(b) personau sydd wedi eu cymryd ymlaen gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract ar gyfer gwasanaethau,

ond nid yw'n cynnwys personau y caniateir iddynt weithio fel gwirfoddolwyr.

At ddiben y diffiniad hwn, mae i "cyflogai" a "gweithiwr" yr un ystyron ag "employee" a "worker" yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**18**);

ystyr "yr unigolyn" ("*the individual*"), oni noda'r cyd-destun yn wahanol, yw'r plentyn neu'r oedolyn sy'n cael gofal a chymorth;

mae i "yr unigolyn cyfrifol" ("*the responsible individual*") yr un ystyr ag yn adran 21(1) o'r Ddeddf;

ystyr "ymarferydd cyffredinol" ("*general practitioner*") yw ymarferydd meddygol cofrestredig(**19**) sydd—

(a) yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan Ran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**20**), neu

(b) yn darparu gwasanaethau sy'n cyfateb i wasanaethau a ddarperir o dan Ran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac eithrio yn unol â'r Ddeddf honno;

ystyr "ymarferydd deintyddol cofrestredig" ("*registered dental practioner*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o ddeintyddion a gedwir o dan Ddeddf Deintyddion 1984(**21**) sydd—

(a) yn darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol o dan Ran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, neu

(b) yn darparu gwasanaethau sy'n cyfateb i wasanaethau a ddarperir o dan Ran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac eithrio yn unol â'r Ddeddf honno.

## RHAN 2

## Eithriadau

### Gwasanaethau cartrefi gofal

**2.**—(1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth cartref gofal, er gwaethaf paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau cartrefi gofal)—

a) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn—
   i. mewn perthynas deuluol neu bersonol, a
   ii. ar gyfer dim ystyriaeth fasnachol;
b) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion am gyfnod o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis neu am nifer o gyfnodau sy'n gyfanswm o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis;
c) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio, pan fo'r llety wedi ei freinio—
   i. yng Ngweinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
   ii. mewn ymddiriedolaeth GIG;
   iii. mewn Bwrdd Iechyd Lleol.
d) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu—

(**18**) 1996 p. 18.
(**19**) Amnewidiwyd y diffiniad o "registered medical practitioner" yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) gan O.S. 2002/3135, Atodlen 1, paragraff 10 ag iddo effaith o 16 Tachwedd 2009.
(**20**) 2006 p. 42.
(**21**) 1984 p. 24.

i. gan sefydliad o fewn y sector addysg bellach; neu

ii. gan brifysgol.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os yw nifer y personau y darperir y llety hwnnw iddynt yn fwy na degfed ran o nifer y myfyrwyr y mae'n darparu addysg a llety iddynt.

At ddibenion y paragraff hwn, mae i "sector addysg bellach" yr un ystyr â "further education sector" yn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**22**);

e) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r gofal a ddarperir yn gyfystyr â gwarchod plant o fewn ystyr adran 19(2), neu ofal dydd o fewn ystyr adran 19(3), o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**23**) ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys—

(i) os oes, mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, 28 neu ragor o gyfnodau o 24 awr y darperir mwy na 15 awr o warchod plant neu ofal dydd ynddynt mewn perthynas ag unrhyw un plentyn; neu

(ii) os darperir y gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant anabl;

f) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant 16 oed a throsodd a dim ond at ddibenion galluogi'r plant i ymgymryd â hyfforddiant neu brentisiaeth. Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os darperir gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant anabl;

g) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant mewn hostel fechnïaeth a gymeradwyir neu hostel brawf a gymeradwyir;

h) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety yn sefydliad i droseddwyr ifanc a ddarperir o dan neu yn rhinwedd adran 43(1) o Ddeddf Carchardai 1952(**24**);

i) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant at ddibenion—

i. gwyliau;

ii. gweithgaredd hamdden, adloniant, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol;

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys—

iii. mewn unrhyw achos pan fo gofal yn cael ei ddarparu yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant anabl oni bai bod y darparwr gwasanaeth yn gyntaf wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig am y trefniadau;

iv. os yw'r llety wedi ei ddarparu i unrhyw un plentyn am fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, os nad yw'r llety ond wedi ei ddarparu i blant dros 16 oed;

j) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, i un plentyn neu i grŵp o frodyr a chwiorydd gan berson yng nghartref y person hwnnw ei hunan a phan na fo gofal a llety yn cael eu darparu gan y person hwnnw am gyfanswm o fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

(5) At ddibenion paragraff (1)(e), (f) ac (i) o'r rheoliad hwn, mae plentyn yn "anabl" os oes gan y plentyn anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010.

(6) Gweler rheoliad 5 am ystyr perthynas deuluol neu bersonol.

(7) Yn is-baragraff (1)(j) o'r rheoliad hwn, mae "grŵp o frodyr a chwiorydd" yn cynnwys brodyr a chwiorydd a hanner brodyr a hanner chwiorydd.

**Gwasanaethau cymorth cartref**

**3.** (1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth cymorth cartref, er gwaethaf paragraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau cymorth cartref)—

a) y ddarpariaeth o gymorth yn unig;

b) y ddarpariaeth o ofal a chymorth i bedwar neu lai o unigolion ar unrhyw un adeg;

(**22**) 1992 p. 13.
(**23**) 2010 mccc 1.
(**24**) 1952 p. 52.

c) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer oedolyn—

   i. mewn perthynas deuluol neu bersonol, a

   ii. ar gyfer dim ystyriaeth fasnachol;

d) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer plentyn gan riant, perthynas neu riant maeth;

e) y ddarpariaeth o ofal a chymorth gan ofalwr pan fo gofal a chymorth o'r fath yn cael ei ddarparu heb ymglymiad ymgymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi (o fewn yr ystyr a roddir i'r ymadroddion "employment agency" neu "employment business" gan adran 13 o Ddeddf Asiantaethau Cyflogi 1973(**25**)), a phan fo'r gofalwr yn gweithio'n gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth trydydd parti cysylltiedig;

f) trefniadau ar gyfer cyflenwi gofalwyr i ddarparwr gwasanaeth gan ymgymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi at ddiben darparu gwasanaeth rheoleiddiedig gan y darparwr gwasanaeth;

g) y ddarpariaeth o ofal a chymorth pan fo'r gofal a'r cymorth wedi eu darparu gan berson sy'n rheoli carchar neu sefydliad carcharu tebyg arall;

h) y ddarpariaeth o ofal nyrsio gan nyrs gofrestredig;

i) y ddarpariaeth o ofal a chymorth gan Fwrdd Iechyd Lleol i ddiwallu anghenion sy'n gysylltiedig ag anghenion unigolion am ofal nyrsio.

(8) Ym mharagraff (1)(e) ac (f), ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu gofal i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(9) Ym mharagraff (1)(e), ystyr "trydydd parti cysylltiedig" yw—

a) unigolyn a chanddo gyfrifoldeb rhiant (o fewn ystyr "parental responsibility" yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989(**26**)) ar gyfer plentyn y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddo;

b) unigolyn a chanddo atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithlon arall i wneud trefniadau ar ran yr unigolyn y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddo;

c) grŵp o unigolion a grybwyllir naill ai yn is-baragraff (a) neu yn is-baragraff (b) sy'n gwneud trefniadau ar ran dim mwy na phedwar unigolyn a enwir y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddynt;

d) ymddiriedolaeth a sefydlir at ddiben darparu gwasanaethu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a enwir.

(10) Gweler rheoliad 5 am ystyr perthynas deuluol neu bersonol.

### Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

**4.** Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, er gwaethaf paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd)—

a) y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni pan fo'r llety wedi ei ddarparu mewn ysbyty(**27**);

b) y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni pan fo'r llety wedi ei ddarparu mewn hostel neu mewn lloches rhag trais domestig;

c) mewn unrhyw achos arall, y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni sydd â'r prif ddiben o ddarparu llety ynghyd â gwasanaethau a chyfleusterau eraill i unigolion sy'n oedolion ac mae'r ffaith y gall yr unigolion hynny fod yn rhieni, neu y gall eu plant fod gyda hwy, yn ail i'r prif ddiben o ddarparu'r llety.

---

(**25**) 1973 p. 35.
(**26**) 1989 p. 41.
(**27**) Mae "ysbyty" wedi ei ddiffinio ym mharagraff 9 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ac yn cynnwys clinig annibynnol.

### Ystyr perthynas deuluol neu bersonol

**5.** At ddibenion y Rhan hon—

d) mae perthynas deuluol yn cynnwys perthynas rhwng dau berson sydd—

  i. yn byw yn yr un aelwyd, a

  ii. yn trin ei gilydd fel pe baent yn aelodau o'r un teulu;

e) mae perthynas bersonol yn berthynas rhwng neu ymhlith ffrindiau;

f) mae ffrind i berson (A) yn cynnwys person sy'n ffrind i aelod o deulu A.

## RHAN 3

## Troseddau

### Troseddau – darparwyr gwasanaethau

**85.**—a) Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2)(**28**).

(1) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 7(3), 7(5), 11(3), 12(1), 12(2), 19(1), 19(2), 19(3), 20(1), 35(1), 38(1), 59(1), 59(2), 59(3), 60(1), 60(2), 60(4), 61(3) a 62(3).

(2) Mae darparwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd os yw'r darparwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (4) a bod methiant o'r fath yn arwain at—

a) niwed y gellir ei osgoi (pa un ai o natur gorfforol neu seicolegol) i unigolyn,

b) unigolyn yn cael ei wneud yn agored i risg sylweddol o niwed o'r fath, neu

c) yn achos dwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi arian neu eiddo, unrhyw golled gan unigolyn o'r arian neu'r eiddo o dan sylw.

(3) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (3) yw darpariaethau rheoliadau 6, 7(1), 12(5), 14(1), 14(3), 15(1), 15(3), 15(5), 16(1), 16(5), 18(1), 18(6), 18(7), 21(1), 21(2), 22, 26, 33(~~1~~2), 34(1), 34(2) a 34(3).

### Troseddau – unigolion cyfrifol

**86.**—b) Mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2)(**29**).

(5) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 67(1), 68(1), 71(1), 71(2), 73(1), 73(2), 73(3), 74(1), 74(2), 75(1), 80(4), 81(1), 84(1) a 84(3).

## RHAN 22

## Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu datod etc. neu sydd wedi marw

### Penodi datodwyr etc.

**87.**—c) Rhaid i berson a benodir—

a) yn ddi-oed, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'i benodiad a'r rhesymau dros ei benodi;

---

(**28**) Am gosbau yn dilyn euogfarn am drosedd o dan y rheoliad hwn, gweler adran 51(1) o'r Ddeddf.
(**29**) Am gosbau yn dilyn euogfarn am drosedd o dan y rheoliad hwn, gweler adran 51(1) o'r Ddeddf

b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'w benodi, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'i fwriadau ynglŷn â gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "y gwasanaeth" ("*the service*") yw'r gwasanaeth neu'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth y mae'r penodiad yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru i'w ddarparu neu eu darparu;

mae i "person a benodir" ("*appointed person*") yr un ystyr ag yn adran 30 o'r Ddeddf.

**Marwolaeth darparwr gwasanaeth**

**88.**—d) Pan fo darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw, rhaid i gynrychiolwyr personol yr unigolyn—

a) yn ddi-oed, rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r farwolaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau;

b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'r farwolaeth, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'u bwriadau ynglŷn â gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

(6) Caiff cynrychiolwyr personol yr unigolyn weithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth am gyfnod nad yw'n hwy nag 28 o ddiwrnodau neu am gyfnod hwy (nad yw'n hwy nag un flwyddyn) y mae'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno arno.

(7) Pan fo'r cynrychiolwyr personol yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth yn unol â pharagraff (2), mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

a) nid yw adran 5 (gofyniad i gofrestru) yn gymwys;

b) yn adran 21(2) (unigolion cyfrifol) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) pan fo cynrychiolwyr personol darparwr gwasanaeth sydd wedi marw yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth, fod yn un o'r cynrychiolwyr personol;".

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y gwasanaeth" yw'r gwasanaeth neu'r gwasanaethau rheoleiddiedig yr oedd y darparwr gwasanaeth sydd wedi marw wedi ei gofrestru i'w ddarparu neu eu darparu ar adeg ei farwolaeth.

RHAN 23

Rheoliadau o dan adran 21(5) o'r Ddeddf

**Dynodiad unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru**

**89.** Caiff Gweinidogion Cymru (yn lle darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol, er nad yw gofynion adran 21(2) o'r Ddeddf wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r unigolyn, o dan yr amgylchiadau a ganlyn—

a) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn sydd wedi marw ac mae cynrychiolwyr personol y darparwr gwasanaeth wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau nad ydynt yn bwriadu gwneud cais o dan adran 11(1)(c) o'r Ddeddf;

b) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn ac wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau—

   i. na all gydymffurfio â'i ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol mwyach, a

   ii. y rhesymau dros hyn;

c) bod y darparwr gwasanaeth yn gorff corfforaethol neu'n bartneriaeth ac wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau—

   i. nad yw'r unigolyn sydd wedi ei ddynodi gan y darparwr gwasanaeth fel yr unigolyn cyfrifol yn gallu cydymffurfio â'i ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol mwyach,

ii. y rhesymau dros hyn, a
iii. nad oes unrhyw unigolyn arall sy’n gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol ac sy’n gallu cydymffurfio â dyletswyddau unigolyn cyfrifol.

*Huw Irranca-Davies*
Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad 12 Rhagfyr 2017

## Atodiad B: Atodlenni i Reoliadau 35, 59, 60 a 84

ATODLEN 1 Rheoliad 35

RHAN 1

Gwybodaeth a dogfennau sydd i fod ar gael mewn cysylltiad â phersonau sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheoleiddiedig

**90.** Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.

**91.** Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio yn unol ag adran 113A(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**30**), copi o dystysgrif cofnod troseddol ddilys(**31**) a ddyroddir o dan adran 113A o'r Ddeddf honno ynghyd, ar ôl y diwrnod penodedig a phan fo'n gymwys, â'r wybodaeth a grybwyllir yn adran 30A(3) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (darparu gwybodaeth am waharddiadau ar gais).

**92.** Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio ac a ofynnir at ddiben rhagnodedig o dan adran 113B(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997, copi o dystysgrif cofnod troseddol manwl ddilys(**32**) a ddyroddir o dan adran 113B o'r Ddeddf honno ynghyd, pan fo'n gymwys, â'r wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno) neu wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf (o fewn ystyr "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB(2) o'r Ddeddf honno).

**93.** Dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan y cyflogwr diweddaraf, os oes un.

**94.** Pan fo person wedi gweithio'n flaenorol mewn swydd yr oedd ei dyletswyddau yn cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hyglwyf, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.

**95.** Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol.

**96.** Pan fo'n berthnasol, tystiolaeth ddogfennol o gofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru.

**97.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth.

**98.** Tystiolaeth o allu ieithyddol boddhaol at ddibenion darparu gofal a chymorth i'r unigolion hynny y mae'r gweithiwr i ddarparu gofal a chymorth ar eu cyfer.

**99.** Manylion cofrestriad ag unrhyw gorff proffesiynol neu aelodaeth o gorff o'r fath.

RHAN 2

Dehongli Rhan 1

**100.** At ddibenion paragraffau 2 a 3 o Ran 1 o'r Atodlen hon—

a) os nad yw'r person y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, nid yw tystysgrif ond yn ddilys—
   i. os y'i dyroddwyd mewn ymateb i gais gan y darparwr gwasanaeth yn unol â rheoliad 34(3) neu (6), a
   ii. os nad oes mwy na thair blynedd wedi mynd heibio ers i'r dystysgrif gael ei dyroddi;
b) os yw'r person y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, mae'r dystysgrif yn ddilys ni waeth pa bryd y'i dyroddwyd.

(**30**) 1997 p. 50.
(**31**) I gael ystyr "dilys", gweler Rhan 2 o'r Atodlen hon.
(**32**) I gael ystyr "dilys", gweler Rhan 2 o'r Atodlen hon.

## ATODLEN 2 Rheoliad 59

Cofnodion sydd i gael eu cadw mewn cysylltiad â gwasanaethau rheoleiddiedig

### RHAN 1

Cofnodion sydd i gael eu cadw mewn cysylltiad â phob gwasanaeth rheoleiddiedig

**1.** Mewn cysylltiad â phob unigolyn, cofnodion—

a) o bob asesiad perthnasol;

b) o gynlluniau personol;

c) o adolygiadau o gynlluniau personol;

d) o gynlluniau gofal a chymorth;

e) o adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth;

f) o'r gofal a ddarperir; gan gynnwys cofnodion dyddiol neu gofnodion o ymyriadau gofal penodol;

g) o ohebiaeth, adroddiadau a chofnodion mewn perthynas â chymorth ychwanegol a ddarperir gan wasanaethau addysg, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau perthynol eraill.

**2.** Cofnod o unrhyw ffioedd gan y darparwr gwasanaeth i unigolion am y ddarpariaeth o ofal a chymorth ac unrhyw wasanaethau ychwanegol.

**3.** Cofnod o'r holl feddyginiaethau a gedwir yn y gwasanaeth ar gyfer pob unigolyn a'r dyddiad a'r amser y rhoddwyd y meddyginiaethau hynny i'r unigolyn.

**4.** Cofnod o'r holl arian neu bethau gwerthfawr eraill a roddwyd gan yr unigolyn i'w cadw'n ddiogel neu a gafwyd ar ran yr unigolyn, y mae rhaid iddo gynnwys cofnod o'r canlynol—

a) y dyddiad pan roddwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr i'w cadw neu pan gafwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr;

b) y dyddiad pan gafodd unrhyw arian neu bethau gwerthfawr—

i. eu dychwelyd at yr unigolyn, neu

ii. eu defnyddio, ar gais yr unigolyn, ar ei ran;

c) pan fo'n gymwys, at ba ddiben y defnyddiwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr;

d) cydnabyddiaeth ysgrifenedig bod yr arian neu'r pethau gwerthfawr wedi eu dychwelyd.

**5.** Cofnod o'r digwyddiadau a ganlyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth—

a) unrhyw ddamwain, neu anaf difrifol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar lesiant unigolyn;

b) achos o glefyd heintus yn y gwasanaeth;

c) unrhyw achos o ddwyn neu fwrgleriaeth;

d) unrhyw atgyfeiriad diogelu a wneir mewn cysylltiad ag unigolyn;

e) achosion o gwympo a thriniaeth ganlyniadol a ddarperir i unigolyn;

f) achosion o niwed pwyso a thriniaeth ganlyniadol a ddarperir i unigolyn;

g) dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesurau rheolaeth, atal neu ddisgyblu a ddefnyddir ar unigolyn.

**6.** Cofnod o bob ymarfer tân, dril tân neu brawf cyfarpar tân (gan gynnwys cyfarpar larwm tân) a gynhelir yn y gwasanaeth ac o unrhyw gamau gweithredu a gymerir i unioni diffygion yn y cyfarpar tân.

**7.** Cofnod o'r holl gwynion a wneir gan unigolion neu eu cynrychiolwyr neu gan bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth ynghylch gweithrediad y gwasanaeth, a'r camau gweithredu a gymerir gan y darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gŵyn o'r fath.

**8.** Cofnod o'r holl bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, y mae rhaid iddo gynnwys y materion a ganlyn—

a) enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni, cymwysterau a phrofiad y person;

b) copi o dystysgrif geni a phasbort (os oes ganddo un) y person;

c) copi o bob geirda a geir mewn cysylltiad â'r person;

d) y dyddiadau y mae'r person yn dechrau gweithio ac yn peidio â bod wedi ei gyflogi felly;

e) y swydd sydd gan y person yn y gwasanaeth, y gwaith y mae'n ei wneud a nifer yr oriau y mae wedi ei gyflogi bob wythnos;

f) cofnodion o gamau disgyblu ac unrhyw gofnodion eraill mewn perthynas â chyflogaeth y person;

g) cofnod o ddyddiad tystysgrif GDG ac a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i gynnwys y dystysgrif.

**9.** Copi o restr ddyletswyddau'r personau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a chofnod o ran a oedd y rhestr yn gweithio yn ôl yr hyn a fwriadwyd mewn gwirionedd.

## RHAN 2

### Cofnodion ychwanegol sydd i gael eu cadw mewn cysylltiad â gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

**10.** Cofnod o unrhyw ddodrefn y mae unigolyn yn dod â hwy i'r ystafell y mae'n ei meddiannu.

**11.** Cofnod o unrhyw un neu ragor o'r digwyddiadau a ganlyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth—

a) unrhyw dân;

b) absenoldeb heb esboniad neu absenoldeb anawdurdodedig;

c) marwolaeth unigolyn.

**12.** Cofnod o'r holl ymwelwyr â'r gwasanaeth, gan gynnwys enwau ymwelwyr a'r personau y maent yn ymweld â hwy.

ATODLEN 3 Rheoliad 60

Hysbysiadau gan y darparwr gwasanaeth

RHAN 1

Hysbysiadau i'r rheoleiddiwr gwasanaethau mewn cysylltiad â phob gwasanaeth

**1.** Unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben, 28 o ddiwrnodau cyn i'r datganiad o ddiben diwygiedig gymryd effaith.

~~**2.**~~ Y darparwr gwasanaeth (unigolyn neu sefydliad) yn newid ei enw.

**2.**

-Pan fo'r darparwr gwasanaeth, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020, yn gorff corfforedig~~gwmni~~, unrhyw newid i—(a)

—

cyfarwyddwyr, -(b)

ymddiriedolwyr, neu (c)

aelodau pwyllgor rheoli,

**3.**y corff corfforedig.

**3A.** Pan fo'r darparwr gwasanaeth, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020, yn gorff anghorfforedig, unrhyw newid i'r personau sy'n ymwneud â rheoli a rheolaeth y corff~~-gyfarwyddwyr y cwmni.~~

~~**3.**~~**4.** Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn, penodi ymddiriedolwr mewn methdaliad mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw.

~~**4.**~~**5.** Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gorff corfforaethol neu'n bartneriaeth, penodi derbynnydd, rheolwr, datodwr neu ddatodwr dros dro mewn perthynas â'r ~~cwmni~~ corff corfforedig hwnnw neu'r bartneriaeth honno.

~~**5.**~~**6.** Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, marwolaeth un o'r partneriaid.

~~**6.**~~**7.** Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, unrhyw newid i'r partneriaid.

~~**7.**~~**8.** Absenoldeb disgwyliedig yr unigolyn cyfrifol am 28 o ddiwrnodau neu ragor, 7 niwrnod cyn i'r absenoldeb ddechrau.

~~**8.**~~**9.** Absenoldeb annisgwyl yr unigolyn cyfrifol, heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl i'r absenoldeb ddechrau.

~~**9.**~~**10.** Absenoldeb annisgwyl yr unigolyn cyfrifol am 28 o ddiwrnodau neu ragor, pan na fo hysbysiad ymlaen llaw wedi ei roi, yn union wrth i'r 28 o ddiwrnodau yn dilyn dechrau'r absenoldeb ddod i ben.

~~**10.**~~**11.** Bod yr unigolyn cyfrifol yn dychwelyd o fod yn absennol.

~~**11.**~~**12.** Bod yr unigolyn cyfrifol yn peidio â bod, neu'n bwriadu peidio â bod, yr unigolyn cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth.

~~**12.**~~**13.** Unrhyw gamdriniaeth neu honiad o gamdriniaeth mewn perthynas ag unigolyn sy'n ymwneud â'r darparwr gwasanaeth a/neu aelod o staff a/neu wirfoddolwr.

~~**13.**~~**14.** Bod y darparwr gwasanaeth, yr unigolyn cyfrifol neu'r rheolwr a benodir wedi ei euogfarnu o drosedd.

~~14.~~15. Unrhyw honiad o gamymddwyn gan aelod o staff.

~~15.~~16. Unrhyw niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam, wlser pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam neu anaf dwfn i feinwe.

~~16.~~17. Bod unigolyn yn cael damwain, anaf neu salwch difrifol.

~~17.~~18. Achos o unrhyw glefyd heintus.

~~18.~~19. Unrhyw ddigwyddiad a gaiff ei adrodd i'r heddlu.

~~19.~~20. Unrhyw ddigwyddiadau sy'n atal, neu a allai atal, y darparwr rhag parhau i ddarparu'r gwasanaeth yn ddiogel.

~~20.~~21. Pan fo llety wedi ei ddarparu, marwolaeth unigolyn a'r amgylchiadau.

~~21.~~22. Unrhyw gais i gorff goruchwylio mewn perthynas â chymhwyso'r mesurau diogelwch amddifadu o ryddid (DOLS).

~~22.~~23. Bod y fangre yn cael ei newid neu ei hestyn yn sylweddol neu bwriedir gwneud hynny.

~~23.~~24. Bod mangre ychwanegol yn cael ei chaffael neu bwriedir gwneud hynny.

~~24.~~25. Unrhyw gynnig i newid cyfeiriad y brif swyddfa, 28 o ddiwrnodau cyn i'r newid ddigwydd.

## RHAN 2

### Hysbysiadau ychwanegol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau pan fo gofal a chymorth yn cael eu darparu i blant

~~25.~~26. Unrhyw atgyfeiriad i'r GDG yn unol â Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

~~26.~~27. Pan fo'r darparwr gwasanaeth, yr unigolyn cyfrifol neu'r rheolwr a benodir wedi ei gyhuddo o unrhyw drosedd a bennir yn yr Atodlen i Reoliadau Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Meini Prawf Rhagnodedig a Darpariaethau Amrywiol) 2009(**33**), hysbysiad o'r drosedd a gyhuddir a'r man cyhuddo.

~~27.~~28. Cychwyn a chanlyniad dilynol unrhyw ymholiad amddiffyn plant sy'n ymwneud â phlentyn sy'n cael ei letya gan y gwasanaeth.

~~28.~~29. Unrhyw honiad bod plentyn sy'n cael ei letya gan y gwasanaeth wedi cyflawni trosedd ddifrifol.

~~29.~~30. Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn.

~~30.~~31. Unrhyw achos pan fo plentyn sy'n cael ei letya yn mynd ar goll neu'n absennol heb esboniad.

## RHAN 3

### Hysbysiadau i'r awdurdod lleoli pan fo gwasanaeth cartref gofal yn cael ei ddarparu i blant

~~31.~~32. Unrhyw gamdriniaeth neu honiad o gamdriniaeth mewn perthynas â phlentyn sy'n cael ei letya gan y gwasanaeth sy'n ymwneud â'r darparwr neu aelod o staff.

~~32.~~33. Bod plentyn sy'n cael ei letya gan y gwasanaeth yn cael damwain, neu anaf difrifol.

(**33**) O.S. 2009/37.

~~33.~~34. Unrhyw niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam, wlser pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam neu anaf dwfn i feinwe.

~~34.~~35. Achos o unrhyw glefyd heintus.

~~35.~~36. Unrhyw ddigwyddiad a gaiff ei adrodd i'r heddlu.

~~36.~~37. Marwolaeth plentyn sy'n cael ei letya gan y gwasanaeth a'r amgylchiadau.

~~37.~~38. Unrhyw atgyfeiriad i'r GDG yn unol â Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

~~38.~~39. Honiad bod plentyn sy'n cael ei letya gan y gwasanaeth wedi cyflawni trosedd ddifrifol.

~~39.~~40. Unrhyw achos pan fo plentyn sy'n cael ei letya yn mynd ar goll neu'n absennol heb esboniad.

~~40.~~41. Cychwyn a chanlyniad dilynol unrhyw ymholiad amddiffyn plant sy'n ymwneud â phlentyn sy'n cael ei letya gan y gwasanaeth.

~~41.~~42. Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn.

## RHAN 4

### Hysbysiadau i'r awdurdod lleol y mae'r cartref yn ei ardal pan fo gwasanaeth cartref gofal yn cael ei ddarparu i blant

~~42.~~43. Marwolaeth plentyn a'r amgylchiadau.

~~43.~~44. Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn.

~~44.~~45. Unrhyw achos pan fo plentyn sy'n cael ei letya yn mynd ar goll neu'n absennol heb esboniad.

## RHAN 5

### Hysbysiadau i'r swyddog heddlu priodol pan fo gwasanaeth cartref gofal yn cael ei ddarparu i blant

~~45.~~46. Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn.

## RHAN 6

### Hysbysiadau i'r bwrdd iechyd y mae'r cartref wedi ei leoli yn ei ardal pan fo gwasanaeth cartref gofal yn cael ei ddarparu i blant

~~46.~~47. Achos o unrhyw glefyd heintus.

~~47.~~48. Marwolaeth plentyn a'r amgylchiadau.

ATODLEN 4 Rheoliad 84

Hysbysiadau gan yr unigolyn cyfrifol

**1.** Penodi rheolwr (gweler rheoliad 7(1)).

**2.** Absenoldeb disgwyliedig y rheolwr a benodir am 28 o ddiwrnodau neu ragor, 7 niwrnod cyn i’r absenoldeb ddechrau.

**3.** Absenoldeb annisgwyl y rheolwr a benodir, heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl i’r absenoldeb ddechrau.

**4.** Absenoldeb annisgwyl y rheolwr a benodir am 28 o ddiwrnodau neu ragor, pan na fo hysbysiad ymlaen llaw wedi ei roi, yn union wrth i’r 28 o ddiwrnodau yn dilyn dechrau’r absenoldeb ddod i ben.

**5.** Bod y rheolwr a benodir yn dychwelyd o fod yn absennol.

**6.** Trefniadau interim pan fo’r rheolwr yn absennol am fwy nag 28 o ddiwrnodau.

**7.** Bod rhywun arall ac eithrio’r rheolwr a benodir yn bwriadu rheoli neu yn rheoli’r gwasanaeth.

**8.** Bod y rheolwr a benodir yn peidio, neu’n bwriadu peidio, â rheoli’r gwasanaeth.